**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30am DYDD IAU, 18 RHAGFYR 2014**

**10.30am THURSDAY, 18 DECEMBER 2014**

***Nodwch amser cychwyn y cyfarfod/Please note meeting start time***

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENCADLYS,**
**CAERNARFON**

**** Nodwch y lleoliad ogydd / Please note venue ****

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**01286 679020**

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 11-12-14

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AUDIT COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen |
| Gethin G. Williams | Sedd Wag / Vacant Seat | |

**Annibynnol/Independent (5)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trevor Edwards    Tom Ellis    John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts    Angela Russell

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Anwen Davies    Aeron M. Jones    R.J. Wright

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Unigol / Individual Member (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Charles Wyn Jones

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Council Chairman

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Medi 2014, fel rhai cywir.
(copi yma- papur **melyn**)

## 5. a) CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2014)

**b) CYLLIDEB REFENIW 2014/15 – GORWARIANT YM MAES GWASANAETHAU POBL HŶN (ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT)**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **gwyrdd**)

## 6. RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (MEDI 2014)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **aur**)

## 7. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella
(copi yma – papur **llwyd**)

## 8. ASESU CYNLLUNIAU ARIANNOL

Cyflwyno adroddiad yr archwiliwr allanol
(copi yma – papur **pinc**)

## 9. LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

Cyflwyno adroddiad yr archwiliwr allanol
(copi yma – papur **glas**)

**10. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Panel ar 14 Tachwedd 2014 (copi yma – papur **eog**)

**11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 15 Medi a 30 Tachwedd 2014 (copi yma – papur **lelog**)

**12. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2014/15 (copi yma – papur **melyn**)

**13. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir weithgarwch benthyg a buddsoddi'r Cyngor hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol (copi yma – papur **gwyrdd**)

# PWYLLGOR ARCHWILIO 25/9/14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Eddie Dogan, Huw Edwards, Trevor Edwards, Tom Ellis, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Angela Russell, Gethin Glyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Aled Ll. Evans, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen.

## 1. CROESO

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau, swyddogion a Sharon Warnes, Aelod Lleyg ar Bwyllgor Archwilio Cyngor Ynys Môn a oedd yn arsylwi'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2014, fel rhai cywir.

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2013/14

### i) Datganiad o'r Cyfrifon

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd fod Atodiad 3 yn yr adroddiadau sy'n dilyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwynwyd y fersiwn cyn-archwiliad i gyfarfod 15 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

### ii) Adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

### a) Cyfrifon y Cyngor

Yn unol â'r drefn Archwilio Blynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). 'Roedd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru'n bresennol i gyflwyno'r wybodaeth.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2013/14.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru:

- Yng nghyswllt datganiadau na gywirwyd, bod SAC wedi adnabod tan ddatganiad o £404,000 yn y ddarpariaeth ar gyfer safleoedd gwastraff yn y cyfrifon.
- Yng nghyswllt asedau cyfredol, bod angen asesu os yw'r asedau wedi eu dibrisio yn ormodol neu mater polisi dargadwad ydyw, a dylai'r Cyngor wella manylder eu cofrestr asedau.
- Bod yr actiwari wedi diwygio ar ddau achlysur eu gwybodaeth a disgwylir i'r Cyngor gynnal adolygiad i fodloni eu hunain o resymoldeb y ffigyrau.
- Fel y nodwyd llynedd, ei fod yn hanfodol i'r Cyngor sicrhau bod ei systemau cyflogres a phensiynau'n cael eu cysoni'n llawn, a bod y manylion yn cael eu cadw'n gyfredol. Nodwyd bod SAC wedi eu bodloni na fyddai effaith materol, ond bod potensial iddo gael effaith.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nododd y Pennaeth Cyllid:

- Bod £404,000 wedi ei neilltuo i'r perwyl yma mewn man arall ac nad oedd risg i'r Cyngor. Ychwanegodd y byddai'r sefyllfa wedi ei addasu erbyn blwyddyn nesaf.
- Diolch i SAC am eu gwaith mwy manwl eleni yng nghyswllt asedau, nododd bod y pryder ynghlwm a sicrwydd ansawdd, ond mai ymylol a fyddai'r effaith ar gyfanswm gwerth net yr awdurdod, ac y bwriedir rhoi sylw ychwanegol i rhain yn ystod 2014-15.
- Y daethpwyd i ddealltwriaeth efo'r actiwari ac mai ond un adroddiad y derbynnir o hyn ymlaen gan yr actiwari, yn cynnwys gwybodaeth hen Gyngor Sir Gwynedd fel rhan o'r Cyngor presennol.
- Bod gwaith sylweddol yn parhau i unioni'r systemau cyflogres a phensiynau.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cyfrifon Cydbwyllgor GwE, nodwyd byddai cyfrifon GwE yn cael eu cyflwyno gerbron y Cydbwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Medi 2014, gan eu bod efo'r cyfrifoldeb am lywodraethu ar ran y 6 Cyngor.

**b) Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Adroddodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2014.

Mae SAC yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2013/14.

Pwysleisiwyd yr angen i weithio efo'r cyflogwyr sydd yn rhan o'r Gronfa Bensiwn i sicrhau bod eu cofnodion yn gyfredol.

Mewn ymateb i'r uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn croesawu cynnwys adroddiad SAC a diolchodd am y cydweithrediad.

Diolchwyd i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y cyfarfod yma o'r Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

## 5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2013/14

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2013/14, o'i gymharu yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno ym mis Chwefror 2013. Manylwyd ar y cefndir economaidd, y gofyn benthyca a rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed buddsoddiadau'r Cyngor, nododd y Pennaeth Cyllid byddai Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Owain Williams yng nghyswllt buddsoddi yn Israel yng ngoleuni'r sefyllfa ddiweddaraf ar lain Gaza, yn mynd gerbron cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 9 Hydref 2014 er ystyriaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 6. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2014 i ystyried dau archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 30 Mehefin 2014 sef -

a) Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion
b) Plas Ogwen, Bethesda

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed archwiliad Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr Adran Addysg yn bwriadu anfon at yr ysgolion yn nodi'r disgwyliadau arnynt a'i bod yn angenrheidiol i'r ysgolion ddeall y risgiau oedd ynghlwm. Fodd bynnag, roedd rhaid cydnabod ei fod yn derbyn y byddai'r ysgol yn blaenoriaethu hyn yng nghyd-destun materion megis safonau addysgol ac amddiffyn plant.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed archwiliad Plas Ogwen, Bethesda, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cynhyrchu llyfryn ar gyfer cartrefi preswyl a oedd yn amlygu ymarfer da, gydag Archwilio Mewnol yn cynnig sylwadau ar y gweithdrefnau arfaethedig.

Nododd aelod ei siomedigaeth bod lefel presenoldeb aelodau yng nghyfarfod y gweithgor yn isel ac awgrymodd bod angen sefydlu trefn er sicrhau os nad oedd yn bosib i aelod fynychu, bod aelod arall o'r Pwyllgor yn mynychu yn eu lle.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) sefydlu trefn pan fo aelod yn ymddiheuro o gyfarfod o'r gweithgor mewn da bryd bod yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn anfon e-bost at aelodau eraill y Pwyllgor Archwilio yn gofyn am wirfoddolwr i fynychu cyfarfod o'r gweithgor yn eu lle.**

## 7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

### Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 12 Medi 2014

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 12 Medi 2014. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 8 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 Adroddiad arall (memoranda a.y.b)
- 3 o adolygiadau grant
- 1 archwiliad dilyniant
- 1 archwiliad ymatebol

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol -

**Ysgolion Uwchradd – Llywodraethu**

Nododd aelod y dylid ystyried ychwanegu i'r adroddiad archwiliad ei fod yn hanfodol bod Llywodraethwyr yn mynychu hyfforddiant a dylid edrych ar greu polisi cyrsiau mandadol. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod yr archwiliad wedi ei ryddhau eisoes ac na fyddai'n briodol i'r Pwyllgor ddiwygio adroddiad annibynnol Archwilio Mewnol.

Ychwanegwyd y gellir rhoi ystyriaeth i'r adroddiad yng nghyfarfod y gweithgor er bod yr adroddiad wedi derbyn barn 'B', gan ofyn i'r swyddogion perthnasol a'r Aelod Cabinet Addysg fynychu'r cyfarfod.

**Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion**

Nododd aelod bod sicrhau cydymffurfiad a'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch yn ddibynnol ar onestrwydd unigolyn ond bod angen trosglwyddo neges glir bod rhaid i unigolion ddatgan yn briodol.

**Cynllun Tywydd Garw**

Nododd aelodau eu diolchiadau i'r staff am eu gwaith yn ystod y tywydd garw ym mis Chwefror.

Awgrymodd aelod y dylai rheolwyr mewn cyfnod o dywydd garw ystyried cysylltu â staff nad oedd yn gweithio ar y pryd yn ogystal â staff ar alw. Ychwanegodd y gallai aelodau lleol fod o gymorth yn ogystal mewn cyfnodau o dywydd garw.

Nododd aelod bod defnydd swyddogion y Cyngor o gyfryngau cymdeithasol i ddiweddaru swyddogion a'r cyhoedd wedi bod o fudd mawr yn ystod y cyfnod o dywydd garw.

**Cymunedau'n Gyntaf – Y Rhaglen Newydd**

Nododd aelod pwysigrwydd cynnal archwiliad i'r mater yma gan fod potensial y gall Llywodraeth Cymru hawlio peth o'r arian yn ôl os na fyddai ansawdd tystiolaeth yn gwella.

**Digartrefedd**

Nododd aelod ei fod yn angenrheidiol bod staff yr hosteli yn mynychu cwrs 'Diogelwch Personol' y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2014 i 12 Medi 2014 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**(b) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Huw Edwards, Trevor Edwards a Gethin Glyn Williams i wasanaethu ar y gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' yn ogystal ag archwiliad 'Ysgolion Uwchradd – Llywodraethu' gan estyn gwahoddiad i'r Pennaeth Addysg a'r Aelod Cabinet Addysg.**

## 8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 12 Medi 2014 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol:-

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 50 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 2 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 13 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Disgwyl Adolygiad | 8 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad yn Gytunedig | 1 |
| Adroddiad Terfynol | 20 |
| Cyfanswm | 97 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 2 |

Nodwyd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ganol Medi yn is na'r targed ac na fyddai 14 archwiliad wedi ei ryddhau er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o gwblhau 34 allan o 97, sef 35%. Ychwanegwyd bod nifer uchel o archwiliadau ymatebol, gyda 99 diwrnod wedi eu gwario arnynt hyd at 12 Medi, gyda'r mwyafrif o'r archwiliadau hyn yn parhau i fod ar y gweill.

Nodwyd bod holl staff y gwasanaeth yn ymrwymedig i gwblhau'r targed ar gyfer y flwyddyn, ac yn ymwybodol o'r disgwyliadau.

Tynnwyd sylw at addasiadau i'r Cynllun Archwilio Mewnol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.20pm

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **18 RHAGFYR 2014** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2014/15 –<br>ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2014)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID a MORWENA EDWARDS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |
| AELODAU CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS a'r<br>CYNGHORYDD R H WYN WILLIAMS** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb ail chwarter i'r Cabinet ar 25 Tachwedd 2014. Hwn yw'r adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2014/15.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu cyfarfod Cabinet 25 Tachwedd fel arsyllwr, ac wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol.

**4.** Mae adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, "Gorwariant yn y Maes Pobl Hŷn", a gyflwynwyd i Gabinet 25 Tachwedd, hefyd wedi'i amgáu. Mae'r adroddiad yma'n delio gyda'r risg fwyaf a amlygwyd yn yr adolygiad cyllideb ail chwarter.

**5.** Mae'r Aelodau Cabinet perthnasol (y Cynghorydd Peredur Jenkins ynglŷn â'r sefyllfa ariannol gyffredinol, a'r Cynghorydd R H Wyn Williams sy'n gyfrifol am y Gwasanaethau Oedolion) a'r Prif Swyddogion perthnasol (Dafydd Edwards a Morwena Edwards) wedi'u gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

**6.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Wedi'i amgau:**
Adroddiad Adolygiad cyllideb ail chwarter 2014/15 (Cabinet 25/11/2014)
Adroddiad Gorwariant yn y Maes Pobl Hŷn (Cabinet 25/11/2014)
Taflen penderfyniad (Cabinet 25/11/2014)

**ADRODDIAD I'R CABINET**
25 TACHWEDD 2014

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYLLIDEB REFENIW 2014/15 –
ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2014)

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu arweiniad/rheolaeth.

- Ystyried yr adroddiad cysylltiedig gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ynglŷn â'r sefyllfa gorwariant yn y maes Pobl Hyn (Oedolion, Iechyd a Llesiant).

- Gymeradwyo cyllideb ychwanegol o £44k i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i ddod o gyllidebau Corfforaethol y Cyngor.

- Nodi'r amrywiol adolygiadau a nodir yn yr adroddiad a'r camau i'w cymryd gan adrannau i gadw rheolaeth ar eu cyllidebau.

---

## 2 Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 15 Gorffennaf 2014. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2014/15.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2014/15, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Ar wahân i sefyllfa'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (a gyfeirir yn benodol isod), gwelir fod gweddill y darlun yn ei gyfanrwydd yn arddangos rheolaeth o'r cyllidebau adrannol.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

**2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – gorwariant £1,189k**

Mae'r Adran yn cynnal adolygiad o'u gwasanaethau, ynghyd â chymryd camau i geisio gostwng a chyfyngu'r lefel gwariant cyfredol, lle'n bosib. Adroddir ymhellach ar ganlyniadau'r ymdrechion yma yn ein adolygiad trydydd chwarter, ond yn y cyfamser rhaid cydnabod fod y sefyllfa yma am roddi pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor eleni, a bydd rhaid gwynebu'r effaith erbyn 2015/16, a chyfyngu'r ymhlygiadau lle'n bosib.

Cyflwynir adroddiad cysylltiedig gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ynglyn â'r sefyllfa gorwariant yn y maes Pobl Hyn.

**2.2 Adran Addysg**

Bu pwysau ychwanegol mewn sawl maes, gan gynnwys Diswyddo ac Ymddeol Cynnar, Integreiddio Disgyblion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond hefyd fod yr Adran drwy ddefnydd o gronfeydd wrth gefn yn gweithredu i gadw hyn o dan reolaeth.

**2.3 Adran Rheoleiddio**

Mae pwysau ariannol ychwanegol wedi codi yn y maes Cludiant Integredig (cludiant cyhoeddus yn bennaf), ond bwriedir ymdrin â'r sefyllfa eleni drwy ddefnydd o ffynonellau eraill o arian. Nodaf fod y broses o adolygu a blaenoriaethu'r rhwydwaith cludiant yng Ngwynedd yn parhau, a disgwylir bydd y canlyniadau a'r ymhlygiadau ariannol perthnasol ar gael erbyn y trydydd chwarter.

**2.4 Adran Ymgynghoriaeth**

Er fod yr Adran yn defnyddio adnoddau wrth gefn eleni i gadw'r diffyg i lawr, ymateb dros-dro yn unig ydi hyn, ac os ydi'r rhesymau sylfaenol (sef gostyngiad mewn cyfleon i ddenu incwm) yn parhau, mae'n dilyn bydd rhaid wynebu a datrys y sefyllfa ar gyfer y dyfodol.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 17 Chwefror 2015 ar yr adolygiad 3ydd chwarter.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n amlwg, ar adeg o gyni ariannol pan mae'r Cyngor yn wynebu'r rheidrwydd i wneud arbedion effeithlonrwydd a thoriadau, bod ein rheolaeth o'n cyllideb refeniw sefydlog yn gadarn. Wrth gwrs, wrth wneud hynny, rhaid bod yn ymwybodol o bwysau galw ar wasanaethau. Eleni, mae hyn yn fwy amlwg ym maes y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, lle y mae adroddiad penodol yn tynnu sylw at y pwysau ar y gwasanaeth o ran niferoedd a dwyster, ond hefyd yn nodi'n gwbl briodol ein gariant cymharol uchel yn y maes.

Wrth gwrs, mae cynlluniau trawsnewidiol wedi eu hawdurdodi yn y Cynllun Strategol i fynd i'r afael â'r meysydd mwyaf allweddol yn y tymor canolig, ond erys y broblem tymor byr. Yr unig ffordd o ddatrys hynny yw trwy reolaeth priodol o'r gwariant o ddydd i ddydd. Tra bod yn rhaid ceisio cyflawni gwir anghenion y rhai a wasanaethir mae'n rhaid hefyd cadw golwg ar oblygiadau cyllidol y penderfyniadau a rhaid cofio bod pob punt sydd yn cael ei wario ar wasanaeth nad yw'n wir angenrheidiol yn bunt yn fwy y bydd yn rhaid ei arbed neu ei dorri maes o law ac amddifadu eraill rhag gwasanaethau angenrheidiol.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

# Cyllideb Refeniw 2014/15 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Chwarter 2 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gor / (Tan) Wariant Gros 2014/15 £ '000 | Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau £ '000 | Defnydd o Ffynonhellau Eraill £ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Net £ '000 |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 1,189 | 0 | 0 | 1,189 |
| **Plant a Theuluoedd** | (167) | 0 | 0 | (167) |
| **Addysg** | 528 | 0 | (437) | 91 |
| **Economi a Chymuned** | 131 | 0 | (87) | 44 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 120 | (44) | 0 | 76 |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 372 | 0 | (370) | 2 |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 181 | 0 | (120) | 61 |
| **Prif Weithredwr** | (65) | 0 | 0 | (65) |
| **Adnoddau Dynol** | (31) | 0 | 0 | (31) |
| **Cyllid** | (35) | 0 | 0 | (35) |
| **Strategol a Gwella** | (76) | 0 | 0 | (76) |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | (64) | 0 | 44 | (20) |
| **Cyfansymiau Gwahaniaethau (net)** | 2,083 | (44) | (970) | 1,069 |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaeth Pobl Hŷn | **18,739** | **18,512** | **19,118** | **606** | **0** | **0** | **606** |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | **13,249** | **13,278** | **13,538** | **260** | **0** | **0** | **260** |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | **3,318** | **3,335** | **3,542** | **207** | **0** | **0** | **207** |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | **2,087** | **2,082** | **2,037** | **(45)** | **0** | **0** | **(45)** |
| Eraill (Oedolion) | **3,178** | **3,207** | **3,232** | **25** | **0** | **0** | **25** |
| Gwasanaeth Darparu | **0** | **122** | **430** | **308** | **0** | **0** | **308** |
| Gwasnaeth Tai | **5,020** | **5,142** | **4,977** | **(165)** | **0** | **0** | **(165)** |
| Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Cofrestru | **16** | **288** | **268** | **(20)** | **0** | **0** | **(20)** |
| Gwasanaethau Cefnogol Oedolion | **4,006** | **4,251** | **4,264** | **13** | **0** | **0** | **13** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **49,613** | **50,217** | **51,406** | **1,189** | **0** | **0** | **1,189** |

**Cyffredinol**
Cyfanswm adrannol yn adlewyrchu cynnydd o £102k yn y gorwariant o £1,087k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf.
Fel a adroddwyd, mae'r Adran yn cynnal adolygiadau ar nifer o wahanol wasanaethau ynghyd â chymeryd camau i geisio gostwng a chyfyngu y lefel gwariant cyfredol, fel mae'n bosib. Fe adroddir ymhellach ar ganlyniadau'r ymdrechion yma yn y trydydd chwarter.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**Gwasanaeth Oedolion**

**Maes:-** **Gwasanaeth Pobl Hŷn**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **18,739** | **18,512** | **19,118** | **606** | | | **606** |

Cynnydd o £220k ers y chwarter gyntaf, ac yn cynnwys yn bennaf gorwariant o £526k ar Gofal Cartref oherwydd cynnydd sylweddol iawn am y gwasanaeth. Mae'r Adran yn cynnal adolygiad o'r lefel pecynnau cyfredol a roddir. Cynhwysir hefyd gorwariant o £24k ar Llety Cefnogol a gorwariant o £38k ar Taliadau Uniongyrchol.

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **13,249** | **13,278** | **13,538** | **260** | | | **260** |

Er y rhagwelir gorwariant o £260k, y sefyllfa yma, yn ostyngiad o (£164k) o'r gorwariant o £424k yn y chwarter cyntaf, ac yn adlewyrchu yn bennaf gostyngiad o dri achos.

**Maes:-** **Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,318** | **3,335** | **3,542** | **207** | | | **207** |

Eto fe welir gostyngiad yn y lefel gorwariant, i lawr (£56k) o'r £263k a welwyd yn y chwarter cyntaf. Fodd bynnag, fe welir Preswyl a Nyrsio yn gorwario £240k o ganlyniad i gynnydd net o dri yn y nifer achosion.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**Maes:-** **Gwasanaethau Anabledd Corff**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,087** | **2,082** | **2,037** | **(45)** | | | **(45)** |

Sefyllfa tanwariant sy'n adlewyrchu yn bennaf gostyngiad net yn y nifer o achosion.

**Maes:-** **Eraill (Oedolion)**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,178** | **3,207** | **3,232** | **25** | | | **25** |

Sefyllfa gorwariant net ar nifer o benawdau ac yn bennaf costau staffio ychwanegol.

**Cyfanswm Oedolion**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **40,571** | **40,414** | **41,467** | **1,053** | | | **1,053** |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**Maes:-** **Gwasanaeth Darparu**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **122** | **430** | **308** | | | **308** |

Fe ragwelwyd gorwariant o £117k ar y pennawd yma yn y chwarter cyntaf ac sydd bellach wedi cynyddu £191k i £308k. Cynhwysir yn hyn, gorwariant o £104k ar Gofal Preswyl sydd yn bennaf oherwydd staffio uwch ac yn cynnwys effaith nifer o achosion salwch tymor hir, ac sydd yn destun adolygiad pellach gan y Gwasanaeth. Hefyd, cynhwysir gorwariant o £233k ar Gofal Cymunedol, sy'n gynnydd o £193k ers y chwarter cyntaf, oherwydd yn bennaf costau staffio a chostau teithio uwch. Mae'r maes yma eto yn destun adolygiad gan y Gwasanaeth. Fe adroddir ymhellach ar ganlyniad yr adolygiadau ar Gofal Preswyl a Gofal Cymunedol yn y trydydd chwarter.

**Maes:-** **Gwasanaeth Tai**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **5,020** | **5,142** | **4,977** | **(165)** | | | **(165)** |

Cynnydd o (£128k) yn y tanwariant o (£37k) a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, ac yn cynnwys yn bennaf tanwariant o (£39k) ar Tai Sector Breifat oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, tanwariant o (£69k) ar Digartrefedd ac yn cynnwys tanwariant o (£98k) ar Llety Dros Dro, tanwariant staffio o (£23k), gan yr Uned Ddigartrefedd a gorwariant o £63k ar Hosteli yn dilyn lleihad mewn derbyniad incwm rhent.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Cofrestru** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **16** | **288** | **268** | **(20)** | | | **(20)** |

Nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd ac yn adlewyrchu yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth.

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaethau Cefnogol Oedolion** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **4,006** | **4,251** | **4,264** | **13** | | | **13** |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynhonellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaeth Gweithredol | **1,705** | **1,672** | **1,789** | **117** | **0** | **0** | **117** |
| Gwasanaeth Lleoliadau | **7,696** | **7,685** | **7,333** | **(352)** | **0** | **0** | **(352)** |
| Gwasanaeth Ol-16 | **970** | **970** | **1,089** | **119** | **0** | **0** | **119** |
| Eraill | **4,108** | **4,246** | **4,195** | **(51)** | **0** | **0** | **(51)** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **14,479** | **14,573** | **14,406** | **(167)** | **0** | **0** | **(167)** |

**ADRAN: PLANT A THEULUOEDD**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynhonellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Gweithredol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **1,705** | **1,672** | **1,789** | **117** | | | **117** |

Sefyllfa gorwariant o £117k oherwydd costau staffio ychwanegol dros dro oherwydd absenoldeb staff.

**Gwasanaeth Lleoliadau**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **7,696** | **7,685** | **7,333** | **(352)** | | | **(352)** |

Cynnydd o (£279k) yn y tanwariant o (£73k) a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, ac yn cynnwys tanwariant o (£54k) gan y Tím Lleoliadau, oherwydd yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth, tanwariant o (£172k) ar Leoliadau All-Sirol, tanwariant o (£174k) ar Maethu a Mabwysiadau Arall oherwydd gostyngiad yn y nifer o blant mewn gofal na ragwelwyd, gorwariant o £57k ar Maethu Drwy Asiant oherwydd gofynion ychwanegol hefo dau leoliad dros dro.

**Gwasanaeth Ôl-16**

| Cyllideb Agoriadol | Cyllideb Arfaethedig | Sefyllfa a Ragwelir | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **970** | **970** | **1,089** | **119** | | | **119** |

Cynnydd o £14k yn y gorwariant a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, ac yn cynnwys gorwariant o £95k ar Gynlluniau Cefnogaeth oherwydd gofynion ychwanegol, ynghyd â gorwariant o £25k gan y Tim Ôl-16.

**Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **4,108** | **4,246** | **4,195** | **(51)** | | | **(51)** |

Cynnwys sefyllfa tanwariant net ar nifer o benawdau, gan gynnwys Rheolaeth Gwasanaeth (£11k), Gwasanaethau Arbenigol (£11k), Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (£15k), a thanwariant o (£23k) ar Gostau Cyfreithiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cludiant | **4,505** | **4,210** | **4,284** | **74** | **(71)** | **0** | **3** |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | **342** | **342** | **593** | **251** | **(251)** | **0** | **0** |
| Integreiddio | **458** | **317** | **560** | **243** | **0** | **0** | **243** |
| Rheolaeth | **4,093** | **4,068** | **4,043** | **(25)** | **0** | **0** | **(25)** |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol | **947** | **1,131** | **1,290** | **159** | **(115)** | **0** | **44** |
| Strategaeth Cynhwysiad | **803** | **803** | **773** | **(30)** | **0** | **0** | **(30)** |
| Cronfa Dosbarthiadau Mawr | **318** | **318** | **268** | **(50)** | **0** | **0** | **(50)** |
| Eraill | **9,897** | **9,897** | **9,803** | **(94)** | **0** | **0** | **(94)** |
| Ysgolion Datganoledig | **67,621** | **67,642** | **67,642** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **88,984** | **88,728** | **89,256** | **528** | **(437)** | **0** | **91** |

**ADRAN: ADDYSG**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Cludiant** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **4,505** | **4,210** | **4,284** | **74** | **(71)** | | **3** |

Gorwariant grôs o £74k oherwydd nifer o wahaniaethau ar nifer o gontractau a bwriedir defnyddio (£71k) o adnodd wrth gefn i ostwng y gorwariant net i £3k.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

**Maes:-** **Diswyddo ac Ymddeol Cynnar**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **342** | **342** | **593** | **251** | **(251)** | | **0** |

Sefyllfa gorwariant gros o £251k, sy'n gynnydd o £102k ers y chwarter cyntaf, ac yn adlewyrchu cost diswyddo/ymddeol cynnar mewn ysgolion lle bu gostyngiad mewn niferoedd disgyblion. Mae'r Adran yn bwriadu defnyddio cronfa benodol wrth gefn i ariannu'r gorwariant.

**Maes:-** **Integreiddio**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **458** | **317** | **560** | **243** | | | **243** |

Y sefyllfa gorwariant yma wedi codi yn ystod yr ail chwarter o ganlyniad i gychwyn y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi. Mae'r Adran yn adolygu'r amgylchiadau sydd wedi arwain i'r sefyllfa gorwariant yma, ac fe adroddir ymhellach ar y canlyniadau yn y trydydd chwarter. Mae'r Adran yn rhoddi ystyriaeth i ddefnyddio gwahanol adnoddau tuag at y gorwariant yma, ac fe argymhellir yn benodol yn y trydydd chwarter.

**Maes:-** **Rheolaeth**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **4,093** | **4,068** | **4,043** | **(25)** | | | **(25)** |

Yn cynnwys nifer o fân wahaniaethau, ond yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **947** | **1,131** | **1,290** | **159** | **(115)** | | **44** |

Fe welir un canolfan wedi cau, ac yn sgil hynny, ynghyd â mân wahaniaethau ar nifer o benawdau eraill fe ragwelir amrywiol goblygiadau ariannol perthnasol yn arwain at orwariant grôs o £159k. Fe fwriedir defnyddio (£115k) o adnodd wrth gefn i ostwng y gorwariant net i £44k.

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Strategaeth Cynhwysiad** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **803** | **803** | **773** | **(30)** | | | **(30)** |

Sefyllfa tanwariant yn adlewyrchu yn bennaf, arbedion staffio unwaith ac am byth.

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Cronfa Dosbarthiadau Mawr** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **318** | **318** | **268** | **(50)** | | | **(50)** |

Sefyllfa tanwariant sy'n adlewyrchu gostyngiad yn y lefel ymrwymiadau am y tro.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: ADDYSG**

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **9,897** | **9,897** | **9,803** | **(94)** | | | **(94)** |

Cynnwys gwahaniaethau ar nifer o benawdau, ac yn arbennig tanwariant o (£9k) ar Arlwyaeth a Glanhau, tanwariant o (£16k) ar drefniadau swyddfa, a thanwariant o (£18k) ar Addysg Bellach.

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Ysgolion Datganoledig** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **67,621** | **67,642** | **67,642** | **0** | | | **0** |

Cyllidebau datganoledig dan reolaeth lleol yr ysgolion.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Economi a Chymuned | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cefnogi Busnes | **126** | **135** | **189** | **54** | **(54)** | **0** | **0** |
| Sgiliau a Mentergarwch | **41** | **41** | **7** | **(34)** | **0** | **0** | **(34)** |
| Neuaddau | **169** | **206** | **226** | **20** | **(3)** | **0** | **17** |
| Parciau Gwledig | **68** | **68** | **108** | **40** | **0** | **0** | **40** |
| Gwasanaeth Ieuenctid | **1,121** | **1,196** | **1,173** | **(23)** | **0** | **0** | **(23)** |
| Cyfleusterau Hamdden | **3,010** | **2,968** | **3,045** | **77** | **(27)** | **0** | **50** |
| Amgueddfeydd | **137** | **137** | **146** | **9** | **(3)** | **0** | **6** |
| Eraill | **8,031** | **8,240** | **8,228** | **(12)** | | **0** | **(12)** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **12,703** | **12,991** | **13,122** | **131** | **(87)** | **0** | **44** |

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** **Cefnogi Busnes** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **126** | **135** | **189** | **54** | **(54)** | | **0** |

Nifer o wahaniaethau yn arwain at orwariant grôs o £54k, ac yn bennaf effaith colled incwm rhent o ganlyniad i waredu nifer o unedau diwydiannol. Am y tro fe fwriedir gwneud defnydd o ffynhonellau eraill wrth gefn i ostwng y gorwariant a bwriedir argymhell yn benodol ar y mater yn hwyrach yn y flwyddyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

**Maes:-** **Sgiliau a Mentergarwch**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **41** | **41** | **7** | **(34)** | | | **(34)** |

Sefyllfa tanwariant o (£34k) sy'n adlewyrchu arbedion staffio unwaith ac am byth.

**Maes:-** **Neuaddau**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **169** | **206** | **226** | **20** | **(3)** | | **17** |

Sefyllfa gorwariant sy'n gyffredinol adlewyrchu effaith gostyngiad mewn incwm ffioedd yn Neuadd Buddug a Neuadd Dwyfor.

**Maes:-** **Parciau Gwledig**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **68** | **68** | **108** | **40** | | | **40** |

Fe ragwelir gorwariant o £40k ar y Parciau, ac sy'n cynnwys gorwariant o £30k ar Parc Padarn oherwydd yn bennaf gostyngiad mewn incwm gan ymwelwyr, a gorwariant o £10k ar Parc Glynllifon, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn incwm rhent o'r unedau.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

**Maes:-** **Gwasanaeth Ieuenctid**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,121** | **1,196** | **1,173** | **(23)** | | | **(23)** |

Sefyllfa tanwariant oherwydd arbedion unwaith ac am byth o ganlyniad i gyflawni cynlluniau arbedion ymlaen llaw.

**Maes:-** **Cyfleusterau Hamdden**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **3,010** | **2,968** | **3,045** | **77** | **(27)** | | **50** |

Y sefyllfa gorwariant gros yn gyson a'r sefyllfa a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, ac oherwydd yn bennaf colled incwm o £50k o werthiannau bwydydd mewn canolfannau, ynghyd â chostau cyflogaeth uwch o £27k. Bwriedir gwneud defnydd o ffynhonellau eraill wrth gefn i ostwng y gorwariant net i £50k.

**Maes:-** **Amgueddfeydd**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **137** | **137** | **146** | **9** | **(3)** | | **6** |

Gorwariant gros o £9k oherwydd yn bennaf costau staffio ychwanegol a gostyngiad mewn derbyniad incwm. Bwriedir gwneud defnydd o ffynonhellau eraill wrth gefn i ostwng y gorwariant net i £6k.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED**

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **8,031** | **8,240** | **8,228** | **(12)** | | | **(12)** |

Cynnwys nifer o fân wahaniaethau ar sawl pennawd.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (cynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd)** | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaeth Priffyrdd | **11,034** | **10,976** | **10,931** | **(45)** | **0** | **0** | **(45)** |
| Gwaredu Gwastraff | **2,346** | **2,344** | **2,367** | **23** | **0** | **0** | **23** |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo Gwastraff | **1,424** | **1,502** | **1,523** | **21** | **0** | **0** | **21** |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | **4,008** | **3,877** | **3,958** | **81** | **0** | **(44)** | **37** |
| Gwastraff Masnachol | **(46)** | **54** | **80** | **26** | **0** | **0** | **26** |
| Eraill Gwastraff | **2,260** | **2,259** | **2,269** | **10** | **0** | **0** | **10** |
| Eraill (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | **5,223** | **5,203** | **5,207** | **4** | | **0** | **4** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **26,249** | **26,215** | **26,335** | **120** | **0** | **(44)** | **76** |

**Cyffredinol**
Sefyllfa gorwariant net o £76k am y tro, ac mae'r Adran yn ceisio cyfyngu gwariant ar rai penawdau er mwyn ceisio clirio'r sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn.

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Priffyrdd** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **11,034** | **10,976** | **10,931** | **(45)** | | | **(45)** |

Sefyllfa tanwariant sy'n adlewyrchu yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth o ganlyniad i gyflawni rhai cynlluniau arbedion ymlaen llaw.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes Gwastraff:**

**Maes:-** **Gwaredu Gwastraff**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,346** | **2,344** | **2,367** | **23** | | | **23** |

**Maes:-** **Safleoedd Trin a Throsglwyddo Gwastraff**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,424** | **1,502** | **1,523** | **21** | | | **21** |

Sefyllfa gorwariant net yn cynnwys nifer o wahaniaethau ac yn bennaf gostyngiad incwm o £117k o werthiant deunyddiau ailgylchu, tanwariant o (£77k) ar gostau gweithredol, tanwariant o (£39k) ar safle trin gwastraff gwyrdd Penhesgyn (trefniant ar y cyd â chynghorau Môn a Conwy) a gorwariant o £20k mewn perthynas a'r targed arbedion am eleni.

**Maes:-** **Casglu Gwastraff ac Ail-gylchu**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **4,008** | **3,877** | **3,958** | **81** | | **(44)** | **37** |

Cynnydd o £37k yn y sefyllfa gorwariant o £44k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf ac yn cynnwys gostyngiad grant gwastraff gan Lywodraeth Cymru o £44k, ynghyd â gostyngiad mewn incwm o gasglu gwastraff masnachol o dai gwyliau.
Mewn amgylchiadau tebyg hefo colled grant yn ystod y flwyddyn, mi fu'n arferiad i'r Cabinet gytuno i ddigolledu'r elfen yma.

**Yn yr amgylchiadau, fe argymhellir fod y Cabinet yn cymeradwyo cyllideb ychwanegol o £44k i'r Adran, ac i ddod o gyllidebau Corfforaethol y Cyngor.**

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Maes:- Gwastraff Masnachol**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **(46)** | **54** | **80** | **26** | | | **26** |

Sefyllfa gorwariant sy'n adlewyrchu costau gwaredu uwch na ragwelwyd ar gyfer y lefel incwm a dderbynnir.

**Maes:- Eraill Gwastraff**

| Cyllideb | Cyllideb | Sefyllfa a | Gor / (Tan) | Defnydd o | Addasiadau a | Gor / (Tan) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **2,260** | **2,259** | **2,269** | **10** | | | **10** |

**Maes:- Cyfanswm Gwastraff**

| Cyllideb | Cyllideb | Sefyllfa a | Gor / (Tan) | Defnydd o | Addasiadau a | Gor / (Tan) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **9,992** | **10,036** | **10,197** | **161** | | **(44)** | **117** |

**Maes:- Eraill (Priffyrdd a Bwrdeistrefol)**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **5,223** | **5,203** | **5,207** | **4** | | | **4** |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Rheoleiddio | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Datblygu | **497** | **506** | **476** | **(30)** | **0** | **0** | **(30)** |
| Gwasanaeth Parcio | **(730)** | **(797)** | **(825)** | **(28)** | **0** | **0** | **(28)** |
| Cludiant Integredig | **1,790** | **1,776** | **2,211** | **435** | **(370)** | **0** | **65** |
| Eraill | **9,705** | **10,117** | **10,112** | **(5)** | **0** | **0** | **(5)** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **11,262** | **11,602** | **11,974** | **372** | **(370)** | **0** | **2** |

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Rheolaeth Datblygu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **497** | **506** | **476** | **(30)** | | | **(30)** |

Fe gynhwysir sawl mân wahaniaethau o dan y pennawd yma, ond yn bennaf fe ragwelir sefyllfa tanwariant net o (£30k) o ganlyniad i dderbyniad ffioedd incwm ychwanegol o geisiadau cynllunio.

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:- Gwasanaeth Parcio** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **(730)** | **(797)** | **(825)** | **(28)** | | | **(28)** |

Er bod y targed incwm ffioedd ar gyfer eleni yn ymddangos yn addawol, fe ragwelir sefyllfa tanwariant net o (£28k) oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

**Maes:-** **Cludiant Integredig**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1,790** | **1,776** | **2,211** | **435** | **(370)** | | **65** |

Rhagwelir gorwariant grôs o £435k ar y pennawd yma, ac sy'n ostyngiad o (£25k) ar y chwarter cyntaf, ac yn tarddu o sawl cyfeiriad, gan gynnwys, gostyngiad mewn grant Trafnidiaeth Leol o £223k, a gwariant uwch o £209k o ganlyniad i benodi contractwyr newydd i weithredu teithiau cyn contractwr. Fe ragwelir gallu ymdrin ar sefyllfa drwy ddefnydd o ffynonhellau eraill sydd wrth gefn.

**Maes:-** **Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **9,705** | **10,117** | **10,112** | **(5)** | | | **(5)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaeth Ffyrdd a Pheirianneg | **(305)** | **(217)** | **1** | **218** | **(120)** | **0** | **98** |
| Gwasanaeth Adeiladu | **161** | **154** | **117** | **(37)** | **0** | **0** | **(37)** |
| Eraill | **1,268** | **1,227** | **1,227** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **1,124** | **1,164** | **1,345** | **181** | **(120)** | **0** | **61** |

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Ffyrdd a Pheirianneg** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(305)** | **(217)** | **1** | **218** | **(120)** | | **98** |

Y sefyllfa gorwariant yn weddol gyson a'r gorwariant o £215k a ragwelwyd yn y chwarter cyntaf, oherwydd yn bennaf gostyngiad yn y lefel incwm ffioedd.
Mae'r Adran yn parhau i geisio dennu ffynonhellau incwm gwahanol ynghyd â cheisio cyfyngu'r lefel o wariant a gwneud trefniadau i adolygu ac addasu'r strwythur staffio presennol yn unol ar amgylchiadau.
Pe byddai'r darlun gros cyffredinol yn parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn, mae'r Adran yn bwriadu gwneud defnydd o (£120k) o gronfa tanwariant blaenorol i liniaru rhywfaint ar y sefyllfa.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Gwasanaeth Adeiladu** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **161** | **154** | **117** | **(37)** | | | **(37)** |

Sefyllfa gorwariant net o £23k yn y chwarter cyntaf wedi newid i danwariant o (£37k) a gyflawnwyd yn bennaf drwy ddefnydd o arbedion staffio a wireddwyd ymlaen llaw o'r targed perthnasol. Fe rhaglweir lleihad yn y lefel incwm ffioedd ar gyfer 2015-16 ac mae trefniadau mewn lle i addasu'r strwythur staffio presennol i ymdopi â'r sefyllfa.

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **1,268** | **1,227** | **1,227** | **0** | | | **0** |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| Crynhoad o Sefyllfa'r Adrannau Canolog | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adran y Prif Weithredwr | **676** | **537** | **472** | **(65)** | **0** | **0** | **(65)** |
| Adnoddau Dynol | **121** | **146** | **115** | **(31)** | **0** | **0** | **(31)** |
| Cyllid | **1,403** | **1,172** | **1,137** | **(35)** | **0** | **0** | **(35)** |
| Strategol a Gwella | **757** | **619** | **543** | **(76)** | **0** | **0** | **(76)** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | | | | **(207)** | **0** | **0** | **(207)** |

| | | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran y Prif Weithredwr** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | **Gwariant Gros** | 2,045 | | | | | | |
| | **Incwm ac Ad-daliadau** | (1,369) | | | | | | |
| | **Cyfanswm Net** | **676** | **537** | **472** | **(65)** | | | **(65)** |

Fe ragwelir sefyllfa tanwariant o (£65k) am y tro ac yn cynnwys yn bennaf arbedion staffio yn sgil y newidiadau'r ail strwythuro perthnasol diweddar ynghyd hefyd â thanwariant o (£10k) gan yr Uned Gyfathrebu.

| Adnoddau Dynol | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant Gros** | 4,109 | | | | | | |
| **Incwm** | (3,988) | | | | | | |
| **Cyfanswm Net** | **121** | **146** | **115** | **(31)** | | | **(31)** |

Er fod y sefyllfa net yn dangos tanwariant o (£31k), fe gynhwysir yn bennaf, tanwariant o (£8k) ar gostau Rheolaeth, gwariant uwch o £8k ar staffio'r Uned Iechyd a Diogelwch, tanwariant o (£60k) gan yr Uned Cefnogol yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, a gwariant net o £30k gan yr Uned Argraffdy.

| Cyllid | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant Gros** | 11,304 | | | | | | |
| **Incwm** | (9,901) | | | | | | |
| **Cyfanswm Net** | **1,403** | **1,172** | **1,137** | **(35)** | | | **(35)** |

Rhagwelir sefyllfa tanwariant net o (£35k), yn adlewyrchu nifer o wahaniaethau, gan gynnwys gwariant o £98k ar wasanaethau a chyflenwadau Casglu Trethi, yn bennaf meddalwedd a ffioedd llys, tanwariant o (£65k) gan yr Uned Arianwyr ac Incwm a hwnnw yn bennaf oherwydd arbedion staffio, tanwariant o (£70k) gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth, yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth.

| Strategol a Gwella | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant Gros** | 9,895 | | | | | | |
| **Incwm** | (9,138) | | | | | | |
| **Cyfanswm Net** | **757** | **619** | **543** | **(76)** | | | **(76)** |

Am y tro fe ragwelir sefyllfa tanwariant net o (£76k) ac er yn cynnwys nifer o wahaniaethau ar draws yr Adran, fe gynhwysir tanwariant o (£10k) ar gostau trafnidiaeth, tanwariant o (£68k) ar wasanaethau a chyflenwadau, a gorwariant o £6k ar gostau eiddo.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - AIL CHWARTER**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Cyllidebau Corfforaethol (adroddir yma ar yr elfennau ychwanegol yn unig)** | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Targed Arbedion Corfforaethol | **0** | **0** | **0** | **259** | **0** | **0** | **259** |
| Budd-daliadau | **0** | **0** | **0** | **(104)** | **0** | **0** | **(104)** |
| Derbyniad Llog Net | **0** | **0** | **0** | **(31)** | **0** | **0** | **(31)** |
| Treth y Cyngor | **0** | **0** | **0** | **(148)** | **0** | **0** | **(148)** |
| Eraill | **0** | **0** | **0** | **(40)** | **0** | **0** | **(40)** |
| Cymeradwyo Cyllideb Ychwanegol | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **44** | **44** |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **0** | **0** | **0** | **(64)** | **0** | **44** | **(20)** |

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Targed Arbedion Corfforaethol** | **0** | **0** | **0** | **259** | | | **259** |

Sefyllfa gorwariant net am eleni, ac yn cynnwys llithriad mewn cyflawni rhai cynlluniau arbedion ond eraill a gyflawnwyd ymlaen llaw.

| | Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Budd-daliadau** | **0** | **0** | **0** | **(104)** | | | **(104)** |

Er y gwelwyd sefyllfa gorwariant o £90k ar y pennawd yma yn 2013-14, hyd yma eleni, yn unol â'r tueddiadau diweddaraf, fe ragwelir danwariant o (£104k).

**Derbyniad Llog Net**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **0** | **(31)** | | | **(31)** |

Fe ragwelir derbyniad llog ychwanegol o (£31k) am y tro, sy'n adlewyrchu sefyllfa ffafriol y farchnad o'i gymharu a'r hyn a welwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

**Treth y Cyngor**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **0** | **(148)** | | | **(148)** |

Hyd yma, fe ragwelir casgliad treth y Cyngor ychwanegol o (£148k).

**Eraill**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **0** | **(40)** | | | **(40)** |

Sefyllfa tanwariant unwaith ac am byth ar sawl pennawd.

**Cymeradwyo Cyllideb Ychwanegol**

| Cyllideb Agoriadol 2014/15 | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa a Ragwelir 2014/15 | Gor / (Tan) Wariant Gros | Defnydd o Ffynonhellau Eraill | Addasiadau a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **0** | **0** | **0** | **0** | | **44** | **44** |

Cymeradwyo cyllideb ychwanegol o £44k i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn dilyn colled grant.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
25 TACHWEDD 2014

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD R H WYN WILLIAMS, AELOD CABINET GOFAL

**Pwnc:** GORWARIANT YN Y MAES POBL HŶN

**Swyddog Cyswllt:** MORWENA EDWARDS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

---

## 1. Pwrpas yr adroddiad

1.1 I geisio rhoi mwy o eglurhad i aelodau'r Cabinet ynglŷn â gorwariant yn y maes pobl hŷn ac yn arbennig ar wasanaethau gofal cartref.

1.2 I geisio edrych ar y gorwariant hwn ynghyd destun y disgwyliadau demograffi a galw am wasanaethau pobl hŷn. Mae'r gofynion demograffi hyn yn cynnwys y disgwyliad am gynnydd yn y nifer o bobl hŷn ond hefyd yn y dwyster o angen a mae hyn yn cynnwys wrth gwrs y nifer sydd yn byw gyda dementia.

1.3 I osod allan er gwybodaeth i aelodau'r Cabinet y rhaglen waith sydd mewn lle ar gyfer ceisio ymateb i'r gorwariant o ran gweithredu unionsyth a hefyd i amlygu'r linc gyda'r cynlluniau trawsffurfiadol sydd yn ceisio ymateb i'r cynnydd mewn galw, ond a fydd yn cael effaith mwy hir dymor.

## 2. Cefndir

2.1 Fel sydd yn debyg ar draws nifer o gynghorau ar draws Gymru, mae Gwynedd yn gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal, a hynny efallai oherwydd bod poblogaeth yn heneiddio. Rydym wedi bod yn disgwyl y cynnydd hwn, ac mae'r Cyngor wedi bod yn trosglwyddo arian demograffi i'r Adran ers sawl blynedd bellach.

Ers dros flwyddyn, mae gorwariant, er yr arian demograffi, wedi dod yn amlwg yn y maes pobl hŷn.

2.2 Ymddengys o gymharu gwariant ag awdurdodau eraill bod ein gwariant ar ofal cartref yn gymharol, preswyl yn gymharol, ond bod ein gwariant ar ofal nyrsio yn sylweddol uwch. Rydym yn ceisio mynd tu cefn i'r tueddiadau hyn ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith 'end to end' oedolion.

2.3 Mae angen cydnabod bod y materion fydd yn cael eu nodi o fewn yr adroddiad a'r pwyntiau isod yn rhan o'r meysydd sydd eisoes wedi eu cynnig fel rhan o'r cynlluniau trawsffurfio ac agenda arbedion. Mae gwaith felly eisoes ar y gweill gyda phob un o'r meysydd isod, gyda rhai enghreifftiau amlwg fel y gwaith "Ffordd Gwynedd/Vanguard", rhaniad ariannu pecynnau gofal (CHC), adolygiad "double handling" ayyb.

Beth sydd angen sicrhau yw bod y newidiadau trawsffurfiadol hyn yn cychwyn heb oedi a bod y capasiti a diwylliant cywir o fewn yr adran i sicrhau llwyddiant.

2.4 Beth sydd yn hanfodol yw ein bod yn sicrhau bod ein strategaethau, systemau, strwythurau i gyd yn cyd-fynd a'r amcan a gweledigaeth sydd ganddom gyda'r maes yma. Yn ogystal mae angen sicrhau bod y staff yn meddu'r sgiliau cywir a'r diwylliant cywir er mwyn llwyddo. Mae'r rhaglen trawsffurfio sydd ar gychwyn o fewn yr adran Oedolion yn ceisio ymateb i'r holl agweddau hyn. Mae asesiad o'r gofynion ychwanegol o fewn yr adran i ymateb i'r her yn digwydd ar hyn o bryd ac yn debygol o ddod i sylw'r Cabinet y fuan.

**3. Ystyriaethau o fewn y maes Pobl Hŷn**

3.1 Gallwn grynhoi'r cynnydd mewn galw am wasanaethau pobl hŷn i mewn i 4 categori:-

**3.1.1 Pobl hŷn sydd angen cefnogaeth tymor byr dwys i'w helpu i ail afael yn eu hannibyniaeth - cyfeirir at y gwasanaeth yma fel 'Galluogi'**

Rydym wedi bod yn rhedeg gwasanaethau galluogi bellach ers dros 4 blynedd a gwelwn lwyddiant yn erbyn y meini prawf gydag oddeutu 58% o'r unigolion sydd yn derbyn galluogi yn cadw ffwrdd o'r gwasanaeth am o leiaf flwyddyn. Mae yna yn agos i £1miliwn wedi ei drosglwyddo allan o'r gyllideb yn dilyn cynllun arbedion. Roedd y ffigwr hwn yn seiliedig ar asesiad o beth fyddai'r gofyn gofal petai na ddim ymyrraeth ddwys fel hyn wedi digwydd.

Y ddadl yw bod y gefnogaeth tymor byr hyn yn osgoi iddynt barhau yn ddibynnol ar y gwasanaeth am y tymor hir. Yn amlwg, nid oes bosib profi yn wyddonol beth fyddai wedi digwydd petai'r unigolion hynny heb dderbyn galluogi. Mater o farn wrth gwrs yw hyn.

Ymddengys, o fonitro'r mesuriadau sydd ganddom, ein bod yn llwyddo gyda'n cynlluniau galluogi, ond mae 'na dystiolaeth ddiweddar (John Bolton) yn gofyn i ni fel cynghorau i gwestiynu doethineb y ffordd yr ydym yn gweithredu gyda'r "intake model". Dadl John Bolton yw bod 'na ormod o unigolion "gymharol iach" fyddai wedi bod yn gallu mynd adra heb unrhyw gefnogaeth o gwbl, ac wedi bod yn iawn yn yr hir dymor, yn derbyn cefnogaeth ddwys a drud ganddom.

Mae angen gwneud darn o waith ar hwn i asesu os oes angen i ni fod yn targedu ein gwasanaethau galluogi fwyfwy i'r dyfodol. Rwyf wedi comisiynu Glenda Lloyd Evans i wneud gwaith ar hwn gyda'r bwriad o adrodd yn ôl erbyn diwedd Tachwedd.

Os gwelir bod yn le i dargedu galluogi yn fwy, efallai y bydd y mesur llwyddiant presennol yn gwaethygu, ond y bydd ein buddsoddiad mewn gwasanaeth drud yn fwy effeithiol o ran yr unigolion fydd yn manteisio mwyaf ohono.

Gwelwn hefyd batrwm yn amlygu bod unigolion a oedd wedi derbyn galluogi ar gychwyn y gwasanaeth yn dod yn ôl atom mewn blynyddoedd gyda gofynion dwys iawn. I'r unigolion hyn mae rhoi galluogi eto yn debygol o roi "return" gwael ac felly gwelwn fod angen i'r unigolion hyn fynd yn syth ar becyn cynnal dwys. Rwy'n credu bod yna dystiolaeth (case file audit Vanguard) ein bod yn gorfodi pawb i drio galluogi bob tro maent yn dod atom, yn hytrach na bod gweithiwr yn gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth.

I gloi felly ar galluogi - er ar y wyneb mae'r cynllun yn ymddangos yn llwyddiannus, mae angen ail edrych ar yr egwyddorion rydym yn ei weithredu efo'r gwasanaeth hwn, gan sicrhau nad ydym yn rhoi gwasanaeth rhad ac am ddim i unigolion sydd yn "rhy iach" a hefyd nad ydym yn rhoi gwasanaeth rhad ac am ddim i unigolion sydd yn amlwg yn annhebygol o lwyddo i adennill eu hannibyniaeth oherwydd bregrusrwydd salwch.

Fel sydd wedi nodi uchod, mae gwaith yn digwydd i'r perwyl hwn ar hyn o bryd ond efallai bod sail i gredu bod yr arbedion sydd wedi eu tynnu o'r adran eisoes oherwydd galluogi yn rhy uchel.

### 3.1.2 Pobl hŷn sydd â gofynion cefnogaeth cyson

Fel arfer mae'r unigolion hyn wedi derbyn cefnogaeth galluogi a bellach angen pecyn cefnogaeth cyson.

Rydym wedi bod yn disgwyl effaith twf demograffi ers rhai blynyddoedd bellach ond mae 'na ddadl efallai hyd at wan, bod 'iechyd da' pobl hŷn wedi cuddio'r tuedd. Mae 'na duedd i fyny bellach, ac efallai ein bod bellach yn hitio'r pwynt lle mae bregrusrwydd naturiol oedran yn goruchafu y duedd iechyd gwell sydd gan pobl hŷn yn gyffredinol.

### 3.1.3 Pobl hŷn gyda gofynion gofal cymhleth

Mae cymhlethdod gofal anghenion pobl yn cynyddu a dyma'r ffactorau cysylltiedig:-

- Mae pobl yn byw yn hirach gyda chyflyrau iechyd cymhleth ac anableddau corfforol dwys.

- Mae newidiadau yn yr Ymddiriedolaeth Iechyd wedi golygu symud o ddarpariaeth mewn lleoliadau uned llem "acute" i ddarpariaethau yn y gymuned. Mae 'na ostyngiad sylweddol mewn nifer o wlâu ysbyty yng Ngogledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Yn aml iawn byddai'r pobl hyn wedi bod mewn ysbyty yn hirach, er ddim yn derbyn ymyrraeth glinigol, ond ddim yn ddigon da i fynd adref. Mae Awdurdodau Lleol yn gynyddol ddarparu pecynnau dwys, weithiau gyda dau ofalwr, i ofalu am yr unigolion hyn adref. Rydym eisoes yn edrych i leihau'r gwariant o ran "double handling" fel rhan o'n cynigion arbedion effeithlonrwydd.

- Mae 'na bwysau aruthrol i awdurdodau chwarae eu rhan yn llawn yn osgoi "DTOCs" - sef methiant i gael pobl allan o'r ysbyty. Mae pwysau mawr arnom i sicrhau bod darpariaethau addas yn y gymuned i gefnogi mwy o bobl ac i osgoi unrhyw oedi i bobl sydd angen dod o'r ysbyty. Credwn y gallwn fod yn gwario mwy yng Ngwynedd ar ofal cartref, gan ein bod yn dda yn gymharol o ran ein perfformiad gyda "DTOCs". Mae angen gofyn cwestiwn mae'n debyg os gallwn barhau gyda'r drefn bresennol heb fuddsoddiad gan iechyd.

- Mae rhan fwyaf o bobl yn dewis ac yn disgwyl y gallent gael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain, yn hytrach na mynd i gartref preswyl – a hyn beth bynnag maint y pecyn gofal. Yn y gorffennol, byddai canran uchel o'r math yma o bobl wedi mynd i ofal preswyl. Rydym yn sicr o fod yn gwneud mwy o beth mae pobl eisiau, a does dim cwestiwn mae dyma yw'r peth gorau iddynt, ond mae yna gost i'r dewis hwn gyda rhai unigolion.

Yn ogystal, roedd cyflwyno yn Ebrill 2011 yr uchafswm taliad wythnosol o £55 am ofal cartref hefyd yn debygol o fod wedi cyfrannu at y nifer o unigolion sydd yn dewis byw adref, a fyddai yn y gorffennol wedi talu dros eu hunain mewn cartref preswyl neu adref. Petai nifer o'r unigolion hyn mewn cartref preswyl, byddent yn talu yn llawn am eu gofal.

### 3.1.4 Pobl hŷn sydd angen gofal preswyl

Mae'r nifer o unigolion sydd yn cael eu cefnogi o fewn preswyl yn debyg i flwyddyn diwethaf. Eithaf sefydlog yw'r gwariant ar breswyl, ond wedi codi yn y chwarter 2 eleni ychydig.

Mae gwariant Gwynedd ar ofal nyrsio yn gymharol uwch na'r teulu. Nid ydym eto yn gwbl sicr pam mae hyn yn bodoli, ond mae tystiolaeth bod canran uchel o bobl sydd mewn cartref nyrsio wedi dod yno yn syth o ysbyty lem. Efallai bod yna fwy o batrwm yn y gorllewin, o "dischargio" unigolion i ofal nyrsio yn syth o ysbyty oherwydd bod gwelyau ar gael. Yn yr un ffordd gwelwn lai o ddefnydd o ysbytai cymunedol ar gyfer y cyfnod "convalescence" hyn.

3.2 **Mae'r broblem fwyaf o ran gorwariant yn y maes gofal cartref**. Nodaf eto ein bod wedi tynnu bron i £1miliwn allan oherwydd llwyddiant galluogi ac mae swm sylweddol hefyd wedi ei dynnu allan oherwydd arbedion teleofal.

Y cwestiwn sydd angen ei ofyn ydi, pam ein bod yn gorwario ar ofal cartref – un cwestiwn yw a ydym felly yn rhoi gwasanaeth i fwy o bobl?

O edrych ar y data o ran 2013 i 2014, gwelwn fod yna nifer tebyg yn derbyn gofal cartref rhwng y ddwy flynedd ond bod yna newid yn y proffil dwysder gwasanaeth gofal cartref a gomisiynir.

Mae'r tablau isod yn rhoi dadansoddiad "snap shot" o dwysder y ddarpariaeth gofal cartref dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer pobl hŷn dros 65 oed.

| **Darpariaeth Gofal Cartref w/g 28 Medi 2013** | | |
|---|---|---|
| **Bandiau oriau** | **Nifer Cleientau** | **Oriau Gwasanaeth** |
| <5 | 299 | 824 |
| 5-9 | 305 | 2167 |
| 10-15 | 276 | 4395 |
| >=20 | 50 | 1420 |
| **Cyfanswm Oriau** | **930** | **8805** |

| **Darpariaeth Gofal Cartref w/g 27 Medi 2014** | | |
|---|---|---|
| **Bandiau Oriau** | **Nifer Cleientau** | **Oriau Gwasanaeth** |
| <5 | 285 | 768 |
| 5-9 | 269 | 1928 |
| 10-15 | 296 | 4465 |
| >=20 | 84 | 2371 |
| **Cyfanswm Oriau** | **934** | **9533** |

Mae'r tablau yn dangos:-

- Mae'r nifer pobl sydd yn derbyn gofal cartref wedi aros yn eithaf sefydlog.
- Mae gostyngiad yn yr unigolion sydd angen cefnogaeth lefel isel.
- Mae cynnydd yn yr unigolion sydd angen cefnogaeth ddwys - mae hwn yn cyfwerth a 68% o oriau'r wythnos.
- Gweler cynnydd o 728 mewn oriau mewn wythnos sydd gyfwerth a chynnydd mewn gwariant dros £500,000 y flwyddyn.

## 4. Casgliadau Cyffredinol

4.1 Mae'r Cyngor yn gwario mwy ar y maes pobl hŷn na chyfartaledd y grŵp teulu.

4.2 Mae cynlluniau arbedion trawsffurfiadol eisoes wedi eu cyflwyno, gyda rhai eisoes wedi cychwyn, ddylai leihau'r gwariant ar y maes pobl hŷn oddeutu £1.5miliwn dros y 4/5 blynedd nesaf.

4.3 Mae'n rhesymol disgwyl i'r gwariant hwn leihau felly yn y tymor hir ac mae'r cynlluniau arbedion a thrawsffurfio yn gosod allan y meysydd sydd angen sylw i'r diben hwn. Nid wyf am ymhelaethu ar rhain yn yr adroddiad hwn, ond maent ar gael os oes angen.

4.4 Rydym ers peth amser wedi dod i farn nad yw'r Ymddiriedolaeth Iechyd yn cyfrannu fel y byddem yn disgwyl at rai becynnau dwys. Mae'n bwysig hefyd nodi ein bod ar y cyfan yn berfformiwr da iawn o ran "DTOCs" yma yng Ngwynedd. Credaf fod yna gysylltiad yma rhwng ein gwariant ni a pherfformiad da o ran hyn.

4.5 I gyd fynd â'r newidiadau trawsffurfiadol credaf yn ogystal bod angen cryfhau yn bellach y trefniadau rheoli cyllidebau dydd i ddydd. Nid wyf yn argyhoeddedig bod y reolaeth gyllidebol mor dyn ac y gallai fod ac mae gwelliannu ar waith i wella hyn. Byddaf yn gweithio gyda'r uwch reolwyr newydd o fewn y strwythur i sicrhau bod y materion hyn yn derbyn y sylw brys a phriodol. Dyma grynodeb o'r ymyraethau sydd ar waith i ymateb i'r her gorwario:-

- Trafodaeth brys wedi digwydd gydag Uwch Reolwr (dros dro) y Gwasanaeth ynghyd Rheolwyr Ardal i gytuno ymyraethau ychwanegol sydd angen eu rhoi mewn lle.
- Gweithdy penodol ar y newidiadau sydd angen digwydd o ran rheoli'r cyllidebau yn lleol.
- Dadansoddiad wythnosol i rannu gyda'r Cyfarwyddwyr sydd yn sicrhau perchnogaeth o'r gweithiwr rheng flaen drwodd at y Cyfarwyddwr.

**5. Argymhelliad**

**5.1 Derbyn yr esboniad uchod o ran tuedd dwysder, gan hefyd gefnogi'r cynlluniau trawsffurfiadol a hefyd y cynlluniau cryfhau trefniadau rheoli cyllidebau. Mae 'na ddiffyg tebygol ariannol gyda'r opsiwn hyn a byddai rhaid derbyn arweiniad gan y Pennaeth Cyllid o ran y diffyg tebygol gan nad yw'r newidiadau trawsffurfiadol yn debygol o ddatrys y broblem yn y tymor byr.**

**6.** Mae'r gwariant mewn maes gofal pobl hŷn yn faes hynod anodd i ddylanwadu arni yn y tymor byr,(fel y tancer bondigrybwyll), oherwydd bod gymaint o bobl yn cael ei effeithio ac yn y system yn barod. Credaf efallai bod angen canolbwyntio ar gael y trefniadau a diwylliant cywir yn eu lle, i ymateb yn y tymor byr a hefyd er mwyn bod mewn sefyllfa i drawsffurfio i'r tymor hwy. Mae newidiadau i ddiwylliant gweithio ar waith, agweddau o'r newid ar waith ar hyn o bryd ac agweddau eraill wedi cychwyn (ee Vanguard).

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION NOTICE**

**Dyddiad/Date 20141125**

**PWNC / SUBJECT**

**Eitem/Item**

**6.1 Cyllideb Refeniw 2014/15 - Adolygiad 2il Chwarter**
***Revenue Budget 2014/15 – 2nd Quarter Review***
**6.2 Gorwariant ym maes Gwasanaethau Pobl Hŷn**
***Overspend in Older People Services***

---

PENDERFYNIAD / DECISION

6.1

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r Gyllideb Refeniw,

- Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, a chymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Cymeradwyo cyllideb ychwanegol o £44k i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i ddod o gyllidebau Corfforaethol y Cyngor.

6.2 Derbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ynglŷn â'r sefyllfa gorwariant yn y maes Pobl Hyn (Oedolion, Iechyd a Llesiant

- Derbyn yr esboniad o ran tuedd dwyster,

- Gofyn am adroddiad diwedd Chwarter 3 yn amlygu'r camau sydd ar y gweill yn y Gwasaneth i newid diwylliant I gyfundrefn trawsnewid a galluogi

- Derbyn cadarnhâd ar ddiwedd Chwarter 3 bod yr egwyddor o newid diwylliant wedi cael ei fabwysiadu gan reolwyr a swyddogion yr Adran Gofal.

*6.1*

- *To accept the report on the second quarter review (30 September position) of the Revenue Budget,*

- *To note the latest financial situation regarding the budgets of each department / service and take appropriate steps regarding the matters under their leadership/management.*

- *To approve £44k additional budget for the Highways and Municipal Department, to come from the Council's Corporate budgets.*

*6.2 To accept the report of the Corporate Director (and Statutory Director of Social Services) regarding the overspend situation in the Older People (Adults, Health and*

*Wellbeing) service*

- *To accept the explanation in terms of the trend in density,*
- *To ask for a report at the end of Quarter 3 highlighting the Service's intended actions to change the culture to a transformational and enablement system.*
- *To receive confirmation at the end of Quarter 3 that the principle of changing culture has been adopted by managers and officers within the Care Department.*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reasons for the decision:-

**6.1**

Cyflwynwyd yr adroddiad chwarterol hwn ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2014/15. Ar wahân i sefyllfa'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gwelwyd fod gweddill y darlun yn ei gyfanrwydd yn arddangos rheolaeth o'r cyllidebau adrannol.

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – gorwariant £1,189k

Mae'r Adran yn cynnal adolygiad o'u gwasanaethau, ynghyd â chymryd camau i geisio gostwng a chyfyngu'r lefel gwariant cyfredol, lle'n bosib. Adroddir ymhellach ar ganlyniadau'r ymdrechion yma yn yr adolygiad trydydd chwarter, ond yn y cyfamser rhaid cydnabod fod y sefyllfa yma am roi pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor eleni, a bydd rhaid wynebu'r effaith erbyn 2015/16, a chyfyngu ar yr oblygiadau lle'n bosib. Cyflwynwyd adroddiad cysylltiedig gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ynglyn â'r sefyllfa gorwariant yn y maes Pobl Hŷn.

- Adran Addysg

Bu pwysau ychwanegol mewn sawl maes, gan gynnwys Diswyddo ac Ymddeol Cynnar, Integreiddio Disgyblion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond hefyd llwyddodd yr Adran, drwy ddefnydd o gronfeydd wrth gefn, weithredu i gadw hyn o dan reolaeth.

- Adran Rheoleiddio

Mae pwysau ariannol ychwanegol wedi codi yn y maes Cludiant Integredig (cludiant cyhoeddus yn bennaf), ond bwriedir ymdrin â'r sefyllfa eleni drwy ddefnyddio ffynonellau eraill o arian. Mae'r broses o adolygu a blaenoriaethu'r rhwydwaith cludiant yng Ngwynedd yn parhau, a disgwylir bydd y canlyniadau a'r oblygiadau ariannol perthnasol ar gael erbyn y trydydd chwarter.

- Adran Ymgynghoriaeth

Er bod yr Adran yn defnyddio adnoddau wrth gefn eleni i liniaru'r diffyg, ymateb dros dro yn unig ydi hyn, ac os ydi'r rhesymau sylfaenol (sef gostyngiad mewn cyfleon i ddenu incwm) yn parhau, mae'n dilyn bydd yn rhaid wynebu a datrys y sefyllfa ar gyfer y dyfodol.

**6.2**

Cyflwynwyd yr adroddiad am y Gorwariant yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn

- ceisio rhoi mwy o eglurhad i aelodau'r Cabinet ynglŷn â gorwariant yn y maes pobl hŷn ac yn arbennig ar wasanaethau gofal cartref.

- edrych ar y gorwariant hwn ynghyd destun y disgwyliadau demograffi a galw am wasanaethau pobl hŷn. Mae'r gofynion demograffi hyn yn cynnwys y disgwyliad am gynnydd yn y nifer o bobl hŷn ond hefyd yn y dwyster o angen ac mae hyn yn cynnwys wrth gwrs y nifer sydd yn byw gyda dementia.

- gosod allan, er gwybodaeth, i aelodau'r Cabinet y rhaglen waith sydd mewn lle ar gyfer ceisio ymateb i'r gorwariant o ran gweithredu unionsyth a hefyd i amlygu'r linc gyda'r cynlluniau trawsffurfiol sydd yn ceisio ymateb i'r cynnydd mewn galw, ond a fydd yn cael effaith mwy hir dymor.

Fel mewn nifer o gynghorau ar draws Gymru, mae Gwynedd yn gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal, a hynny efallai oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio.

Ymddengys, o gymharu gwariant ag awdurdodau eraill, bod gwariant ar ofal cartref yn gymharol, gwariant ar ofal preswyl yn gymharol, ond bod gwariant ar ofal nyrsio yn sylweddol uwch. Ceisir mynd i wraidd y tueddiadau hyn ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith 'end to end' oedolion.

***6.1***

*Submitted - the quarterly report on the latest review of the Council's revenue budget for 2014/15. Apart from the position of the Adults, Health and Wellbeing Department, it was seen that the rest of the picture in its entirety showed management of departmental budgets.*

- *Adults, Health and Wellbeing Department - £1,189k overspend*

*The Department is undertaking a review of its services, along with taking action to seek to reduce and limit the current spending level, where possible. The results of these efforts will be reported on further in the third quarter review, but in the meantime it must be acknowledged that this situation will place the Council under significant financial pressure this year, and we will have to face the impact by*
*2015/16, and limit implications where possible. An associated report was submitted by the Corporate Director (and Statutory Director for Social Services) regarding the overspend position in the field of Older People.*

- *Education Department*

*There had been additional pressure in many fields, including Redundancy and Early Retirement, Integration of Pupils and Additional Learning Needs, but also the Department, through the use of reserves, succeeded in taking measures to keep this under control.*

- *Regulatory Department*

*Additional financial pressures have arisen in the field of Integrated Transport (public transport mainly), but it is intended to deal with the situation this year by using other sources of funding. The process of reviewing and prioritising the transport network in Gwynedd continues and the results and relevant financial implications are expected to be available by the third quarter.*

- *Consultancy Department*

*Although the Department is using reserves this year to keep the deficit down, this response is only temporary, and if the fundamental reasons (i.e. a reduction in opportunities to attract income) continue, it follows that they will have to face and resolve the situation for the future.*

**6.2**
*The report on the Overspend in the Adults, Health and Well-being Department was submitted in order to*

- *seek to give further explanation to Cabinet members on the overspend in Older People Services and in particular home care services.*

- *consider this overspend in relation to the expected demographic changes and demand for older people services. This induced demand includes the expectation of an increase in the number of older people requiring a service and also the level of need. This also of course includes all those living with dementia.*

- *set out for Cabinet members, for information, the action plan which is in place to respond to the overspend, which includes the immediate action required, and also to highlight the link with the key transformational plans that are taking place which will be critical to respond to the increase in demand in the longer term.*

*As is consistent with many authorities across Wales, Gwynedd is seeing an increase in demand for care services, and this is probably as a result of an ageing population.*

*When comparing our expenditure against other similar authorities, it appears that spending on home care is comparable; residential care is also comparable but our expenditure on nursing care is significantly higher. We are currently looking into these findings in more depth as part of the 'end to end' adults work.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views*:-

**6.1**
Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau, eglurwyd mai rhagolwg o sefyllfa'r flwyddyn gyfan sydd yma. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y gwasanaeth Ymgynghoriaeth, eglurwyd nad oedd cyfyngu daearyddol ar fasnachu'r gwasanaeth ar hyn o bryd ond bod crebachu cyffredinol arariannu gwaith cyfalaf ledled Cymru a bod llai o gyfleon ar gael. Nodwyd yn ogystal bod angen sicrhau canlyniad buan i'r adolygiad cludiant cyhoeddus.
**6.2**
Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal, trafodwyd y ffaith ei bod yn anodd iawn cyfiawnhau gorwariant ond ei bod yn bwysig rhoi'r adroddiad mewn rhyw fath o gyd-destun. Eglurwyd bod y gwasanaeth Gofal wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau dros y blynyddoedd heb lithro i or-wario ond bod y newidiadau demograffig diweddar a'r cynnydd mewn cyflyrrau dwys yn ddyrys iawn.

Trafodwyd y ffaith yn ogystal nad yw'r rheolaeth gyllidol wedi bod mor dynn ag y gallai fod a bod angen i bob swyddog o fewn y Gwasanaeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb o sicrhau gwerth am arian. Prif fwrdwn y drafodaeth oedd bod angen argyhoeddi rheolwyr o'u hatebolrwydd yn gyllidol a bod rheolwyr yn gwrando ar aelodau staff rheng flaen er mwyn trafod sut y gellid gwneud arbedion tra'n parhau i gynnal gwasanaethau a diwallu angen trigolion Gwynedd.

***6.1***
*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Resources, it was explained that this was a forecast of the situation for the entire year. In response to a question regarding the Consultancy service, it was explained the service's business was not currently geographically constrained, but there was a general squeeze on capital funded work across Wales and there were fewer opportunities available. It was also noted that there was a need to secure a quick result to the public transport review.*
***6.2***
*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Care, a discussion was held on the fact that it was very difficult to justify the overspend but that it was important to consider the report in its context. It was explained that the Care service had succeeded in providing services over the years without slipping into overspend but that the recent demographic changes and the increase in intensive conditions was very problematic.*

*A discussion was held on the fact that the financial control had not been as tight as it could have been and there was a need for every officer within the Service to bear the responsibility of securing value for money. The main subject of the discussion was that there was a need to convince managers of their financial accountability and that managers should listen to front line staff in order to discuss how savings could be achieved while continuing to maintain services and meet the needs of the residents of Gwynedd.*

---

Barn y swyddogion statudol / The views of the statutory officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Mae'n amlwg, ar adeg o gyni ariannol pan mae'r Cyngor yn wynebu'r rheidrwydd i wneud arbedion effeithlonrwydd a thoriadau, bod ein rheolaeth o'n cyllideb refeniw sefydlog yn gadarn. Wrth gwrs, wrth wneud hynny, rhaid bod yn ymwybodol o bwysau galw ar wasanaethau. Eleni, mae hyn yn fwy amlwg ym maes Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, lle y mae adroddiad penodol yn tynnu sylw at y pwysau ar y gwasanaeth o ran niferoedd a dwyster, ond hefyd yn nodi'n gwbl briodol y gwariant cymharol uchel yn y maes. Wrth gwrs, mae cynlluniau trawsnewidiol wedi eu hawdurdodi yn y Cynllun Strategol i fynd i'r afael â'r meysydd mwyaf allweddol yn y tymor canolig, ond erys y broblem tymor byr. Yr unig ffordd o ddatrys hynny yw trwy reolaeth priodol o'r gwariant o ddydd i ddydd. Tra bod yn rhaid ceisio cyflawni gwir anghenion y rhai a wasanaethir mae'n rhaid hefyd cadw golwg ar oblygiadau cyllidol y penderfyniadau a rhaid cofio bod pob punt sydd yn cael ei wario ar wasanaeth nad yw'n wir angenrheidiol yn bunt yn fwy y bydd yn rhaid ei arbed neu ei dorri maes o law ac amddifadu eraill rhag gwasanaethau angenrheidiol.

*Clearly, at a time of financial distress when the Council faces the necessity to make efficiency savings and cuts, we have firm management of our baseline revenue budget. Of course, in doing so, we must be aware of the pressure of demands on services. This is more apparent this year in the Adults, Health and Well-being Department, for which a specific report highlights the pressures on the service in terms of numbers and intensity, but also quite rightly identifies our relatively high expenditure in the field.*
*Of course, transformational schemes have been authorised in the Strategic Plan to address the most crucial areas in the medium term, but the short term problem remains. The only way to solve that is through appropriate control of day-to-day expenditure. Whilst we must try to achieve the real needs of those who receive our services, we must also keep an eye on the financial implications of the decisions and it must be remembered that every pound that is spent on a service that is not truly essential is one pound more that will have to be saved or cut in due course and deprive others from essential services.*

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.
*No observations from a propriety perspective.*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.
*I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the content.*

---

Barn yr aelod lleol / Views of the local member

Dim yn berthnasol
*Not relevant.*

---

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **18 RHAGFYR 2014** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2014/15 - ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (30 MEDI 2014)** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau drafft y Cabinet** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad ail chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 25 Tachwedd ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu'r cyfarfod Cabinet fel arsyllwr, ac wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol.

**3.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**4.** Cafodd cynllun Pont Briwet ei adnabod fel risg, ond gan fod y mater yn cael ei graffu yn y Pwyllgor Cymunedau ar 2 Rhagfyr, penderfynwyd osgoi dyblygu'r craffu hynny a derbyn sylwadau gan aelodau fu'n bresennol. Pe bai'r Pwyllgor Archwilio awydd craffu ymhellach ar risgiau ariannol ynglŷn â chynllun Pont Briwet, yna gellid gwahodd swyddogion o'r Adran Rheoleiddio a'r Aelod Cabinet perthnasol i gyfarfod Gweithgor o'r Pwyllgor Archwilio.

**Wedi'i amgau:**
Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2014/15 – adolygiad yr ail chwarter (Cabinet 25/11/2014)
Taflen penderfyniad (Cabinet 25/11/2014)

**ADRODDIAD I'R CABINET**
25 TACHWEDD 2014

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – 2016/17
ADOLYGIAD AIL CHWARTER 2014/15

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynit yn rhan 2.2 – 2.8 o'r adroddiad, sef:

- addasiad £2,699,000 gwir lithriadau o 2013/14
- lleihad £3,111,000 mewn benthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £2,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £425,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £176,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £351,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd £417,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 4 rhan:

**Rhan 1**: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £92m am y 3 blynedd 2014/15 – 2016/17.

**Rhan 2**: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £2.389m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf, felly ym mharagraff 2.9 gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2014/15 i 2015/16

**Rhan 4**: Gwariant 6 mis cyntaf 2014/15.

**Prif Gasgliadau:**

Fe welir fod gwerth y rhaglen gyfalaf eleni bron yn £45m, a chyfanswm y rhaglen tair blynedd gyfredol dros £92m, sy'n parhau i fod yn gyflawniad sylweddol gan y Cyngor yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Mae'r lefel gwariant ar ddiwedd Medi eleni yn 33% o'r gyllideb o'i gymharu â'r un cyfnod (6 mis) y llynedd, sef 35%.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2014/15 - 2016/17.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Adroddir ar oedi gyda rhai cynlluniau penodol (rhan 3), a gallasai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ddewis asesu effaith yr ail-broffilio ar wasanaethau sydd wedi ymdopi'n hirach gyda'r "hen" asedau.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd cyflawni'r prosiectau cyfalaf, ac adrodd ar adolygiad 3ydd chwarter i gyfarfod mis Chwefror nesaf y Cabinet.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n amlwg o'r adroddiad bod rheolaeth o'r Rhaglen Gyfalaf yn fater cymhleth wrth i arian ddod i mewn ac allan, ac wrth i gynlluniau unigol lithro a newid yn eu natur. Mae'r Adran Cyllid i'w ganmol nad yw unrhyw un o'r newidiadau hynny yn arwain at golli adnoddau. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr adrannau gwario unigol yw ceisio sicrhau bod gwariant yn digwydd yn unol â phroffiliau. Mae pob cynllun cyfalaf, wrth gwrs, yn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd ac mae unrhyw lithriad arnynt yn oedi'r gwireddu hynny. Diau y bydd y Cabinet felly am gadarnhau ei ymrwymiad fel tîm ac yn aelodau cabinet unigol i geisio sicrhau gwariant yn unol â phroffiliau er mwyn gwireddu canlyniadau a addawyd a sicrhau rheolaeth byw o adnoddau cyfalaf.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Dim

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2014/15 i 2016/17

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Medi 2014 yn erbyn y sefyllfa diwedd Mehefin:

### CYMHARIAETH RHWNG Y CHWARTER CYNTAF A'R AIL CHWARTER

| | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF | ADDASIADAU LLITHRIADAU | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | CYFANSWM | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | CYFANSWM | | | |
| ADRAN | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 109 | 400 | 0 | 509 | 39 | 130 | 0 | 169 | (340) | 0 | (340) |
| Addysg | 7,833 | 15,185 | 12,915 | 35,933 | 6,259 | 17,005 | 12,915 | 36,179 | 246 | 246 | 0 |
| Cyllid | 810 | 761 | 0 | 1,571 | 986 | 866 | 0 | 1,852 | 281 | 9 | 272 |
| Economi a Chymuned | 7,417 | 439 | 200 | 8,056 | 5,738 | 3,868 | 610 | 10,216 | 2,160 | 350 | 1,810 |
| Tai | 2,665 | 2,000 | 0 | 4,665 | 2,986 | 2,000 | 0 | 4,986 | 321 | 20 | 301 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 831 | 397 | 0 | 1,228 | 1,012 | 397 | 0 | 1,409 | 181 | 277 | (96) |
| Plant a Theuluoedd | 1,750 | 0 | 0 | 1,750 | 1,750 | 0 | 0 | 1,750 | 0 | 0 | 0 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,011 | 3,822 | 1,672 | 14,505 | 7,545 | 2,844 | 989 | 11,378 | (3,127) | 21 | (3,148) |
| Rheoleiddio | 17,280 | 3,458 | 58 | 20,796 | 18,100 | 5,340 | 58 | 23,498 | 2,702 | 1,776 | 926 |
| Ymgynghoriaeth | 616 | 18 | 0 | 634 | 581 | 18 | 0 | 599 | (35) | 0 | (35) |
| **CYFANSWM** | **48,322** | **26,480** | **14,845** | **89,647** | **44,996** | **32,468** | **14,572** | **92,036** | **2,389** | **2,699** | **(310)** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £2.389m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF | ADDASIADAU LLITHRIADAU | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,630 | 6,630 | 6,543 | 6,630 | 6,630 | 6,543 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 9,415 | 7,272 | 1,627 | 7,539 | 6,980 | 911 | (2,884) | 227 | (3,111) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 19,650 | 5,728 | 5,461 | 18,910 | 10,217 | 5,861 | 4,149 | 2,015 | 2,134 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,839 | 930 | 0 | 2,090 | 1,203 | 0 | 524 | 99 | 425 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,865 | 2,378 | 0 | 3,288 | 2,526 | 0 | 571 | 395 | 176 |
| Cronfa Cyfalaf | 3,475 | 2,161 | 200 | 2,141 | 2,754 | 200 | (741) | (390) | (351) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,448 | 1,381 | 1,014 | 4,398 | 2,158 | 1,057 | 770 | 353 | 417 |
| **CYFANSWM** | **48,322** | **26,480** | **14,845** | **44,996** | **32,468** | **14,572** | **2,389** | **2,699** | **(310)** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **89,647** | | | **92,036** | | | |

**2.2 Gwir Lithriadau o 2013/14**
Ar gyfer y gyllideb agoriadol eleni fe seiliwyd y lefel llithriadau i 2014/15 ar y sefyllfa a ragwelwyd yn y drydydd chwarter o 2013/14. Adroddwyd i gyfarfod 10 Mehefin o'r Cabinet ar sefyllfa diwedd y flwyddyn 2013/14, a nodwyd pryd hynny roedd lefel y gwir lithriad wedi cynyddu yn y chwarter olaf. Fe fanylir ar y rhain yn y golofn uchod 'Addasiadau Llithriadau'. Eto, fel adroddwyd ar 10 Mehefin, nid oes unrhyw golled mewn ariannu i'r Cyngor oherwydd y llithriadau yma. Fe eglurir gweddill y 'newidiadau eraill' uchod fel a ganlyn.

**2.3 Benthyca Heb Gefnogaeth**
Mae yna leihad o (£3,111,000) yn y dull yma o ariannu oherwydd:

- **Rhaglen Adnewyddu Cerbydau Les hanesyddol (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – (£619,600) yn 2014/15, (£1,775,370) yn 2015/16 a (£716,100) yn 2016/17**
  Mae'r ffigyrau uchod yn cynrychioli'r amcan agoriadol a'r bwriad gwreiddiol ar gyfer pryniant cerbydau yn hytrach na'u prydlesu (mae wedi bod yn arferiad blynyddol i asesu'r gost/budd ar ddiwedd y flwyddyn a phenderfynu ar y dull ariannu priodol adeg hynny). Bellach, fe benderfynwyd adolygu'r holl gerbydau les hanesyddol gan resymoli'r rhaglen yn sylweddol, a tan fydd canlyniad yr adolygiad yn wybyddus, am y tro nid oes angen yr ariannu uchod yn y rhaglen.

**2.4 Grantiau a Chyfraniadau**
Mae yna gynnydd net o £2,134,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Adfywio Tref a Glannau Caernarfon (Adran Economi a Chymuned) - £150,000 yn 2014/15, £475,000 yn 2015/16 a £375,000 yn 2016/17**
  Derbyniwyd grant drwy raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (Vibrant and Viable Places Programme) y Llywodraeth o £1miliwn dros 3 mlynedd ar gyfer adfywio ardal Caernarfon (gweler adroddiad i'r Cabinet 2 Gorffennaf 2013). Y bwriad yw defnyddio'r grant yma i alluogi cyrff allanol ddenu grantiau o ffynonellau eraill, gan gynnwys y Gronfa Loteri a Rhaglen Ewropeaidd newydd, ar gyfer cynlluniau fel ail-ddatblygu Cei Llechi (Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon), datblygiad Gorsaf Rheilffordd Ffestiniog (Rheilffordd Eryri) a chynllun Galeri 2 (y Galeri).
- **Cynllun Academi Hwylio (Adran Economi a Chymuned) - £584,840 yn 2015/16**
  Ariennir y cynnydd yma drwy grant pellach (ERDF - European Regional Development Fund) gan y Llywodraeth yn dilyn ail-broffilio'r cynllun gwreiddiol.
- **Cynllun Mynediad i'r Arfordir (Adran Rheoleiddio) - £136,100 yn 2014/15**
  Derbyniwyd cadarnhad o ffigwr grant 2014/15 gan Gyfoeth Naturiol Cymru tuag at waith llwybr yr arfordir.

**2.5 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd net o £425,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Benthyciadau Tai Gwag a Materion Gorfodaeth Tai (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) - £250,000 yn 2014/15**
  Rhan o Gynllun Strategol 3 mlynedd y Cyngor a ariennir drwy ddefnydd o dderbyniadau cyfalaf yr hen gynllun Mynwy.
- **Cynllun Canolfan Adennill Deunyddiau Meirionnydd (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - £62,000 yn 2014/15 a £14,000 yn 2015/16** (gweler hefyd cyfraniad refeniw adrannol yn 2.6 isod)
  Yn dilyn cymhlethdod dros leoliad y Ganolfan cafwyd amcan newydd o gostau'r cynllun yma, sydd bellach yn cynnwys offer ychwanegol.

**2.6 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Cynnydd net o £176,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Canolfan Adennill Deunyddiau Meirionnydd (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - £73,000 yn 2014/15** (gweler hefyd cyfraniad o dderbyniadau cyfalaf yn 2.5 uchod).
- **Cynllun Llwybr Beicio Pontllyfni i Aberdesach (Adran Rheoleiddio) - £72,920 yn 2014/15**
  Cyfraniad pellach gan yr Adran er mwyn gallu cwblhau llwybr beics yn gyflawn rhwng Caernarfon ac Aberdesach - mae mwyafrif o'r cynllun wedi ei ariannu drwy grantiau TAITH, ond roedd bwlch yn y llwybr rhwng Glynllifon a Llanwnda oedd yn creu risg annerbyniol o ran diogelwch ffyrdd petai'r llwybr heb ei gwblhau.

Yn yr achosion uchod fe'i hariannir drwy ffynonellau refeniw cyfredol yr Adrannau perthnasol.

**2.7 Cronfa Cyfalaf**

Lleihad o £351,000 yn y dull yma o ariannu, oherwydd trosglwyddiad o ariannu cyfalaf i ariannu costau refeniw dros dair blynedd sydd yn berthnasol i ddatrysiad mewnol i integreiddio systemau a threfniadau Adnoddau Dynol a Chyflogau trwy'r Cyngor (Adran Adnoddau Dynol).

**2.8 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £417,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Pryniant Biniau Gwastraff a Gweddillol (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - £133,680 yn 2014/15**
  Pryniant uwch oherwydd mwy o alw am finiau ail-gylchu yn sgil y strategaeth wastraff.
- **Cynllun VOIP – 'Voice Over Internet Protocol' (Adran Gyllid) - £109,020 yn 2014/15**
  Yn sgil ail asesu'r cynllun, bu angen i'r Cyngor fynd allan i'r farchnad agored (yn hytrach na defnyddio gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru), a bellach mae'r contract wedi ei wobrwyo i gwmni BT/Avaya. Mae'r costau uwch yn adlewyrchu'r newid yma.

**2.9 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2014/15 i 2016/17 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 2.2 i 2.8 uchod), sef:**

- **addasiad £2,699,000 gwir lithriadau o 2013/14**
- **lleihad £3,111,000 mewn benthyca heb gefnogaeth**
- **cynnydd £2,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau**
- **cynnydd £425,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf**
- **cynnydd £176,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw**
- **lleihad £351,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf**
- **cynnydd £417,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill**

**3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL**

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2014/15 i 2015/16 hyd yma yw £7,425,780. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Amgueddfa Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) £896,720
- Ysgol Groeslon (Adran Addysg) £894,660
- Cronfa Fflyd y Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £461,670
- Adeiladau Dros Dro Ysgolion (Adran Addysg/Uned Eiddo) £531,000
- Adleoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £301,260
- Adnewyddu Offer Technoleg Gwybodaeth (Adran Gyllid) £200,000

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Pont Briwet, Penrhyndeudraeth (Adran Rheoleiddio) £1,882,130
- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £1,494,720

**3.2** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu colled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

## 4 GWARIANT CYFALAF 6 MIS CYNTAF 2014/15

**4.1** Mae'r tabl isod yn dadansoddi sefyllfa gwir wariant cyfalaf adrannau'r Cyngor ar ddiwedd yr ail chwarter (6 mis), gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2014/15 (blwyddyn gyfan) -

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Medi) 2014/15 £'000 | GWIR WARIANT Y 6 MIS HYD AT 30/09/2014 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 39 | 0 |
| Addysg | 6,259 | 1,571 |
| Cyllid | 986 | 296 |
| Economi a Chymuned | 5,738 | 1,377 |
| Tai | 2,986 | 1,382 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,012 | 162 |
| Plant a Theuluoedd | 1,750 | 0 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,545 | 2,854 |
| Rheoleiddio | 18,100 | 7,130 |
| Ymgynghoriaeth | 581 | 114 |
| **CYFANSWM** | **44,996** | **14,886** |

Mae rhai adrannau yn ymddangos i fod yn gwario'n sylweddol llai na hanner y gyllideb flynyddol hyd yma, sef Adran Addysg (yn bennaf oherwydd proffil gwariant cynlluniau Ysgolion Ganrif 21), Adran Economi a Chymuned (yn bennaf oherwydd oedi gyda'r cynllun Academi Hwylio ym Mhwllheli), Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn bennaf oherwydd proffil gwariant ar adnewyddu cerbydau) a'r Adran Rheoleiddio (yn bennaf oherwydd proffil gwariant Pont Briwet). Er hynny mae'r adrannau yn hyderus y byddent yn gwario yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd yr ail hanner o'r flwyddyn.

**4.2** Mae bron i £14.9m wedi ei wario yn ystod y chwe mis cyntaf, sef 33% o'r gyllideb.

| CRYNODEB | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2014/15 | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2013/14 | LLEIHAD |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £45.0miliwn | £49.2miliwn | £4.2miliwn |
| Gwariant y 6 mis cyntaf | £14.9miliwn | £17.4miliwn | £2.5miliwn |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 33% | 35% | 2% |

**4.3** Er gwaethaf yr ail broffilio, mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn cyfateb yn agos iawn i'r sefyllfa adeg yma'r llynedd.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION NOTICE**

**Dyddiad/Date 20141125**

**PWNC / SUBJECT**
**Eitem/*Item 7***
**Rhaglen Gyfalaf 2014/15 - 2016/17 Adolygiad 2il Chwarter**
***2014/15 – 2016/17 Capital Programme – 2nd Quarter Review***

---

PENDERFYNIAD / DECISION

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2014) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig, sef:

- addasiad £2,699,000 gwir lithriadau o 2013/14
- lleihad £3,111,000 mewn benthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £2,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £425,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £176,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £351,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd £417,000 mewn defnydd o gronfeydd eraill

*To accept the report on the second quarter review (30 September 2014 position) of the capital programme, and approve the revised financing, namely:*

- *an adjustment of £2,699,000 due to actual slippages from 2013/14*
- *a decrease of £3,111,000 in unsupported borrowing*
- *an increase of £2,134,000 in the use of grants and contributions*
- *an increase of £425,000 in the use of capital receipts*
- *an increase of £176,000 in the use of revenue contributions*
- *a reduction of £351,000 in the use of the capital fund*
- *an increase of £417,000 in the use of other reserves.*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Fe welwyd bod gwerth y rhaglen gyfalaf eleni bron yn £45m, a chyfanswm y rhaglen tair blynedd gyfredol dros £92m, sy'n parhau i fod yn gyflawniad sylweddol gan y Cyngor yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'r lefel gwariant ar ddiwedd Medi eleni yn 33% o'r gyllideb o'i gymharu â'r un cyfnod (6 mis) y llynedd, sef 35%.

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu. Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellwyd camau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2014/15 - 2016/17.

*It was seen that the total value of this year's capital programme was nearly £45 million, and the total of the current three year programme was over £92million, which is still a significant achievement by the Council in the current financial climate. The end of September expenditure level is 33% of the budget as compared to 35% over the same period (6 months) last year.*

*It is necessary to ensure appropriate financing arrangements for the Council's capital spending plans, and the formal Cabinet must approve the capital programme and its sources of funding. Incorporating funding via grant is a point of order, but it is also necessary to deal with situations where there has been a change in expenditure profiles between years and the value of capital receipts and contributions.*

*These steps were recommended to ensure definite sources of funding for the 2014/2015 – 2016/17 capital schemes.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views:-*

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau, penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Resources, it was resolved to accept the report.*

---

Barn y swyddogion statudol / The views of the statutory officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-
Mae'n amlwg o'r adroddiad bod rheolaeth o'r Rhaglen Gyfalaf yn fater cymhleth wrth i arian ddod i mewn ac allan, ac wrth i gynlluniau unigol lithro a newid yn eu natur. Mae'r Adran Cyllid i'w ganmol nad yw unrhyw un o'r newidiadau hynny yn arwain at golli adnoddau. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr adrannau gwario unigol yw ceisio sicrhau bod gwariant yn digwydd yn unol â phroffiliau. Mae pob cynllun cyfalaf, wrth gwrs, yn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd ac mae unrhyw lithriad arnynt yn oedi'r gwireddu hynny. Diau y bydd y Cabinet felly am gadarnhau ei ymrwymiad fel tîm ac yn aelodau cabinet unigol i geisio sicrhau gwariant yn unol â phroffiliau er mwyn gwireddu canlyniadau a addawyd a sicrhau rheolaeth byw o adnoddau cyfalaf.

*It is clear from the report that the management of the Capital Programme is a complex issue with fluctuations in funding, slippage on individual schemes and other changes. The Finance Department is to be commended that none of those changes will lead to loss of resources. However, it is the responsibility of the individual spending departments to ensure that expenditure is in accordance with profiles. Each capital scheme, of course, achieves results for the people of Gwynedd and any slippage delays that process. Doubtless, the Cabinet will therefore confirm its commitment as a team and as individual cabinet members to try to ensure that expenditure is in line with profiles in order to realise the promised results and to ensure live management of capital resources.*

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.
*No comments to add regarding propriety.*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.
*I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the content.*

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol
*Not relevant.*

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **18 Rhagfyr 2014** |
| TEITL: | **Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Cyflwyno crynodeb o gamau gweithredu sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio** |
| AWDUR: | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw **adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**. Mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd yn unol â'r Mesur yn datgan bod angen i'r Pwyllgor, er mwyn cyflawni hyn:

- "*adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr awdurdod a gwneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd yn ogystal â gwneud gwaith dilynol ar y risgiau a nodwyd gan archwilwyr a gofyn am adroddiadau ar y camau a weithredwyd mewn ymateb*;" a
- "*bydd angen i'r awdurdod sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu'n ddianghenraid rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a chraffu wrth ystyried adroddiadau o'r fath*".

1.2 Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2013, bu i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo trefn newydd i gryfhau trefniadau llywodraethu a chraffu'r prif adroddiadau gan osgoi unrhyw ddyblygu neu aneglurder. Y prif adroddiadau yw:-

- Adroddiadau ESTYN
- Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

1.3 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gweithredu.

1.4 Bu i'r Fforwm Cadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2014, dderbyn y cynnig i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol graffu'r prif adroddiadau archwilio allanol.

1.5 I osgoi dyblygu gwaith penderfynwyd cyflwyno crynodeb i'r Pwyllgor Archwilio o'r camau gweithredu sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i'r adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion. Cyflwynir crynodeb i'r Pwyllgor fel daw argymhellion y prif adroddiadau neu unrhyw argymhellion sylweddol eraill i'n sylw.

1.6 Ceir manylion diweddaraf o'r prif adroddiadau yn Atodiad 1.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio

i) Ystyried cynnwys yr atodiad a bodloni eu hun os oes tystiolaeth ddigonol bod argymhellion archwilwyr allanol yn derbyn sylw digonol

ii) Benderfynu os ydyw am alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r Pwyllgor llawn neu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau

**ATODIAD 1**

**Adroddiadau Archwilio Allanol 2014**

1. Adroddiad Gwella Blynyddol y Swyddfa Archwilio

   Ym mis Mai 2014 cyflwynwyd Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru i Aelodau'r Cabinet, Penaethiaid a'r Aelodau Craffu.

   Yr oedd yr Adroddiad yn un teg a phositif. Nid oedd yn cynnwys cynnig nac argymhelliad gwelliant newydd.

2. Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-2014

   Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r adroddiad adolygiad yn deillio o'r gwaith arolygu gan nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

   Mae'r adroddiad wedi ei gylchredeg i Swyddogion perthnasol a'r Aelodau perthnasol. Cyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11 Rhagfyr 2014 gan Marc Roberts a Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

   Bwriedir cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ffurfiol ym mis Chwefror 2015.

3. Adroddiad: Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol - Cyngor Gwynedd

   Archwiliwyd Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Hydref 2014.

   Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau gyda chynllun gweithredu er ymateb i'r cynigion isod.

   C1 – Adolygu'r gofynion o dan Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth.
   C2 – Sicrhau bod risgiau diogelu, a'r camau i'w lliniaru, wedi'u diweddaru yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

C3 - Gwella'r craffu ar elfennau allweddol trefniadau diogelu'r Cyngor, drwy, er enghraifft, adrodd yn rheolaidd am berfformiad ynglŷn â recriwtio diogel; presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu a'i effaith; a chanlyniad y rhaglen archwilio ysgolion flynyddol.
C4 - Cytuno ar raglen waith archwilio fewnol reolaidd i adolygu trefniadau diogelu'r Cyngor.
C5 – Darparu hyfforddiant i'r staff i gyd ar Bolisi Chwythu Chwiban y Cyngor.

4. Arolygiad ESTYN 11 – 15 Mawrth 2013

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar 11 - 15 Mawrth 2013, barnwyd bod angen monitro cynnydd yr awdurdod gan Estyn.

Derbyniwyd a chadarnhawyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Cabinet ar 17 Medi 2013.

Cytunwyd ar raglen o ymweliadau monitro drwy ein harolygwyr cyswllt, ac fe gynhaliwyd y cyntaf o'r ymweliadau ar 12 a 13 o Fawrth 2014. Bu i dîm o ddau arolygwr arfarnu cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn un argymhelliad yn deillio o'r arolygiad er mwyn ystyried perfformiad presennol yr awdurdod ac i adnabod unrhyw anghenion gwella pellach. Nid oedd y llythyr a dderbyniwyd yn dilyn yr ymweliad hwn (Mai 2014) yn cynnwys cynnig gwella pellach.

Bu ymweliad arall ar 23 -25 Mehefin 2014 gyda thîm o ddau arolygwr yn arfarnu'r cynnydd yn erbyn tri argymhelliad yn deillio o'r arolygiad. Nid oedd y llythyr dilynol yn cynnwys cynnig gwella pellach.

Bu ymweliad arall gan Estyn rhwng 2 – 5 Rhagfyr a disgwylir llythyr.

Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 3 Hydref 2013. Mae Arolygwyr Estyn hefyd wedi gofyn am fynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 12 Chwefror 2015 er mwyn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau eu hymweliad fis Rhagfyr.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesu Cynlluniau Ariannol

# **Cyngor Gwynedd**

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 719A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Amanda Hughes, Alan Hughes a Nigel Griffiths.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir i'n gwaith | 4 |
| Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol | 5 |
| Mae gan yr Awdurdod hanes da o gofnodi ei ddiffyg cyllidebol blynyddol yn gywir a gwneud iawn amdano | 5 |
| Mae cynlluniau a threfniadau'r Awdurdod i gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni, ond erys y sefyllfa tymor canolig yn heriol tu hwnt | 6 |
| Cynigion ar gyfer gwella | 6 |
| Atodiadau | |
| Canlyniadau manwl ein hadolygiad | 7 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir i'n hadroddiad

**1.** Mae rheolaeth ariannol dda yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, ac er mwyn sicrhau y gall awdurdodau barhau i ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol. Bydd yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae systemau rheoli ariannol da:

- yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
- yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol â rheoli arian;
- yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
- yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
- yn ddisgyblaeth reoli allweddol.

**2.** Nid yw rheoli ar gyfer yr hirdymor yn ymwneud â rhagweld y dyfodol; mae'n ymwneud â pharatoi ar ei gyfer. Mae cynllunio yn ymwneud â deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bylchau rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a datblygu strategaethau arbedion priodol.

**3.** Dylai penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n ymarferol gael eu gwneud ar sail blaenoriaethau strategol yr awdurdod a'i iechyd ariannol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig ystyrlon a manwl sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau a all fod yn rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.

**4.** Rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2014, edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar sefyllfa ariannol awdurdodau a'r ffordd y maent yn cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. Ystyriodd y gwaith hwn pa un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15. Er mwyn llywio barn ar gynllunio ar gyfer cyllidebau a'u cyflawni'n llwyddiannus, gwnaethom hefyd ystyried perfformiad ar gyfer blynyddoedd ariannol blaenorol 2011-12 i 2013-14.

5. Canolbwyntiodd y gwaith ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r awdurdod yn rheoli gostyngiadau cyllidebol yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol?** Yn yr adroddiad hwn,
nodwn ein casgliadau ar berfformiad blaenorol a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol:

- **Perfformiad blaenorol** – a lwyddodd yr awdurdod i nodi'r arbedion yr oedd angen eu sicrhau rhwng 2011-12 a 2013-14, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni; ac, os oedd diffyg, sut yr ymdriniwyd ag ef.
- **Rhagolygon ar gyfer y dyfodol** - a oes gan yr awdurdod fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol, prosesau rheoli ariannol effeithiol a fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol; ac a oes gan yr awdurdod gynlluniau realistig ar gyfer gwneud yr arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2014-15 ac a yw'n cymryd camau priodol i'w cyflawni.

6. Yng Nghyngor Gwynedd (yr Awdurdod), rydym wedi dadansoddi amrywiaeth o ddata, gan gynnwys cyfrifon cyhoeddedig yr Awdurdod a'i ffurflenni perfformiad i Lywodraeth Cymru ac Uned Ddata Llywodraeth Leol. At hynny, cyfwelwyd â nifer fach o aelodau allweddol o staff ac adolygwyd adroddiadau a chofnodion a ystyriwyd gan yr Awdurdod a'i bwyllgorau. Nodir ein casgliadau manwl yn Atodiad 1 ac maent yn seiliedig ar y graddau y mae'r Awdurdod wedi rhoi prosesau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n ei helpu i sicrhau ei fod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn ei alluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol a'r graddau y mae'n gweithredu'r prosesau hynny.

7. Ein casgliad cyffredinol yw bod gan yr **Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol**. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- mae gan yr Awdurdod hanes da o gofnodi ei ddiffyg cyllidebol blynyddol yn gywir a gwneud iawn amdano; ac
- mae cynlluniau a threfniadau'r Awdurdod i gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni, ond erys y sefyllfa tymor canolig yn heriol tu hwnt.

# Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol effeithiol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol

## Mae gan yr Awdurdod hanes da o gofnodi ei ddiffyg cyllidebol blynyddol yn gywir a gwneud iawn amdano

8. Rhwng 2011-12 a 2013-14, nododd yr Awdurdod ei ddiffyg cyllidebol blynyddol yn gywir a llwyddodd i nodi amrywiaeth o arbedion er mwyn cau'r bwlch. Lle y bu oedi wrth nodi a chyflwyno nifer fach o gynlluniau arbedion, cymerwyd camau unioni priodol. Yn eu plith roedd cynyddu targedau arbedion effeithlonrwydd corfforaethol a defnyddio balansau er mwyn rhoi mwy o amser i nodi cynlluniau ychwanegol.

9. Mae trefniadau rheoli cyllidebol yr Awdurdod yn seiliedig ar ganllawiau a threfniadau monitro manwl ar lefel swyddogion, aelodau a staff gweithredol. Mae'r trefniadau ar

gyfer llunio rhagolygon ariannol wedi'u datblygu'n dda ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Mae cynlluniau a threfniadau'r Awdurdod i gyflawni cynlluniau arbedion 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni, ond erys y sefyllfa tymor canolig yn heriol tu hwnt

**10.** Mae gan yr Awdurdod fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol a phrosesau rheoli ariannol effeithiol. Mae ganddo fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol ac mae'r Awdurdod wedi datblygu amrywiaeth o gynlluniau arbedion realistig ac arbedion effeithlonrwydd yn 2014-2015.

**11.** Yn y tymor canolig, mae'r Awdurdod yn rhagweld y bydd angen iddo wneud arbedion ychwanegol gwerth o leiaf £34 miliwn rhwng 2014 a 2018. Er bod cynnydd da wedi'i wneud i nodi arbedion effeithlonrwydd ychwanegol dros y blynyddoedd, erys yn her sylweddol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo ystyried pob opsiwn er mwyn datblygu amrywiaeth o arbedion pellach yn llawn, gan gynnwys nodi toriadau posibl i wasanaethau.

# Cynigion ar gyfer gwella

**12.** Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer gwella, ond mae'r canlyniadau manwl yn nodi nifer o gyfleoedd posibl i'r Awdurdod eu hystyried wrth atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ariannol ymhellach.

# Atodiad 1

## Canlyniadau manwl ein hadolygiad

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliad |
|---|---|---|
| **Perfformiad rhwng 2011-12 a 2013-14** | Nododd yr Awdurdod ei ddiffyg cyllidebol blynyddol yn gywir rhwng 2011-12 a 2013-14. Llwyddodd i nodi amrywiaeth o arbedion er mwyn cau'r bwlch ariannol, a lle y gwelwyd bod gwaith i nodi a chyflwyno nifer fach o gynlluniau arbedion yn llithro, cymerwyd camau unioni priodol. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu targedau arbedion effeithlonrwydd corfforaethol a defnyddio balansau, gan roi mwy o amser i nodi cynlluniau ychwanegol. | Mae gan yr Awdurdod hanes da o gofnodi ei ddiffyg cyllidebol blynyddol yn gywir a gwneud iawn amdano drwy nodi a chyflawni amrywiaeth o arbedion. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliad |
|---|---|---|
| **Cynllunio ariannol strategol** | • Mae Cynllun Strategol yr Awdurdod ar gyfer 2013-17 (y Cynllun Strategol) yn disgrifio blaenoriaethau'r Awdurdod yn glir ac yn gryno. Nid yw'r Cynllun Strategol yn cysylltu â'r Strategaeth Ariannol er mwyn dangos sut mae dyraniadau adnoddau yn gyson â'i flaenoriaethau.<br>• Mae gan yr Awdurdod fframwaith cynllunio corfforaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r gweledigaethau, nodau ac amcanion gwella corfforaethol, ond ni chaiff ei drefniadau cynllunio na monitro/cofnodi perfformiad eu cymhwyso'n gyson ar draws gwasanaethau ac adrannau.<br>• Mae'r Awdurdod yn adolygu ei Strategaeth Ariannol a'r tybiaethau a wneir ynddi yn rheolaidd. Fel rhan o'r broses, mae'r Awdurdod yn ystyried priodolrwydd ei falansau a'i gronfeydd wrth gefn ond gallai gyfleu ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran y balansau a'r cronfeydd hyn yn well o fewn y strategaeth. Gallai'r Awdurdod hefyd ystyried datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol o fewn ei Strategaeth Ariannol, gan gwmpasu'r canlynol:<br>– Mesurau canlyniadau.<br>– Gwaith cynllunio senarios.<br>– Meincnodi.<br>– Cynlluniau adnoddau ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol mewn perthynas â balansau a chronfeydd wrth gefn.<br>– Mae'r Strategaeth Ariannol yn cynnig cofnod cynhwysfawr a rhesymol o amrywiaeth o ffactorau sy'n amrywio, gan gynnwys trefniadau'r Awdurdod i allosod y Grant Cymorth Refeniw sy'n dderbyniadwy o ddadansoddiad o ffigurau gwariant Datganiad y Canghellor ar gyfer yr hydref, ond mae lle i ddatblygu'r Strategaeth Ariannol ymhellach er mwyn cyfeirio at effaith newidiadau deddfwriaethol e.e. diwygiadau lles, hynny yw, credyd cynhwysol, treth ystafell wely. | Mae fframwaith corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer cynllunio ariannol strategol yn effeithiol ond gellid ei atgyfnerthu drwy wneud y canlynol:<br>• nodi cysylltiad clir rhwng y Cynllun Strategol a'r Strategaeth Ariannol er mwyn dangos faint o refeniw a gwariant cyfalaf yr Awdurdod sy'n cefnogi amcanion gwella unigol;<br>• cymhwyso trefniadau cynllunio a monitro/cofnodi perfformiad yn gyson ar draws gwasanaethau ac adrannau; a<br>• datblygu'r Strategaeth Ariannol ymhellach er mwyn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliad |
|---|---|---|
| **Rheoli ariannol** | • Mae'r Awdurdod wedi sefydlu polisïau clir ynghylch rheoli ei sefyllfa ariannol.<br>• Mae gan yr Awdurdod systemau effeithiol ar gyfer pennu a monitro cyllidebau ac mae wedi datblygu amrywiaeth o ddangosyddion darbodus. Mae'r trefniadau rheoli cyllidebol yn seiliedig ar ganllawiau a threfniadau monitro manwl ar lefel swyddogion, aelodau a staff gweithredol. Mae'r trefniadau ar gyfer llunio rhagolygon ariannol wedi'u datblygu'n dda ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.<br>• Mae gan yr Awdurdod hanes da o wario o fewn ei gyllideb ac mae'n rheoli achosion o orwario a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn mewn ffordd ragweithiol.<br>• Mae gan yr Awdurdod Adran Gyllid effeithiol yr ystyrir ei bod yn addas at y diben.<br>• Nid oes gan yr Awdurdod bolisi ffurfiol ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn, ond ystyrir diben a phriodoldeb cronfeydd wrth gefn gan swyddogion ac aelodau. Fodd bynnag, dylai'r Awdurdod fod yn fwy cadarn wrth orfodi'r defnydd a gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn adrannol a chronfeydd wrth gefn eraill. | Mae trefniadau rheoli ariannol yr Awdurdod yn addas at y diben ac mae'n mesur, monitro, ac yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad cyllidebol yn rheolaidd. Dylai'r Awdurdod roi polisi ffurfiol ar waith ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau yn ogystal ag atgyfnerthu ei allu i orfodi'r defnydd y cytunwyd arno o gronfeydd wrth gefn adrannol a chronfeydd wrth gefn eraill. |
| **Llywodraethu ariannol** | • Mae Rheolau Gweithdrefnol Ariannol yr Awdurdod yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol, sy'n seiliedig ar weithdrefnau monitro a rheoli cyllideb clir.<br>• Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a rheoli cyllideb wedi'u diffinio'n glir a'u cyfleu'n briodol. Mae'r gweithdrefnau monitro cyllideb yn diffinio llinellau adrodd a chyfrifoldebau ac yn sicrhau y cynhelir gwaith monitro cyllideb.<br>• Mae gan yr Awdurdod hanes da o gofnodi perfformiad cyllidebol yn gywir a chyflawni arbedion. Cyflwynir adroddiadau monitro cyllideb chwarterol i'r Cabinet a chafodd y Pwyllgor Archwilio hefyd adroddiadau rheolaidd ar alldro ariannol.<br>• Mae gan yr Awdurdod hanes da o gyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt i raddau helaeth, ond ni fu'n bosibl cyflawni arbedion gwerth 17 y cant neu £640,000 yn ystod 2013-14 oherwydd oedi mewn perthynas â rhai cynlluniau. Gwrthbwyswyd hyn gan achosion o danwariant gan y gwasanaeth, cynlluniau arbedion ychwanegol a'r defnydd o 'gyllidebau wrth gefn'. | Mae gan yr Awdurdod fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol, ond mae lle i ategu'r adroddiadau gan ddangosyddion perfformiad allweddol. |

| Llinellau ymholi allweddol | Canfyddiadau gwaith maes | Casgliad |
|---|---|---|
| **Cynlluniau arbedion cyfredol 2014-15** | • Mae'r Awdurdod yn rhagweld diffyg ariannol o tua £34 miliwn dros y pedair blynedd nesaf, gan gynnwys diffyg cyllidebol o £10.4 miliwn yn 2014-15, sef gostyngiad o 3.4 y cant yn y Grant Cymorth Refeniw.<br>• Datblygwyd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2014-15 a blynyddoedd dilynol ar draws pob adran. Mae'r cynlluniau arbedion yn benodol a disgrifir yn glir ble y caiff arbedion eu gwneud. Maent yn fesuradwy ac mae'r Awdurdod wedi asesu effaith arbedion. Sefydlwyd ffyrdd o fesur ac olrhain arbedion a chyflwynir adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i Banel Arbedion yr Awdurdod.<br>• Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu amrywiaeth o opsiynau pellach o ran arbedion yn ystod 2014 ac wedi hynny. | Mae cynlluniau arbedion yr Awdurdod ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni, ond erys y sefyllfa tymor canolig yn heriol tu hwnt. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Y Cynghorydd Dyfed Edwards
Dilwyn Williams
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Dyddiad** 28 Tachwedd 2014



Annwyl Dyfed a Dilwyn

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Gwynedd 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi yn sgil fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. **Ar 30 Medi 2013 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r gronfa bensiwn**. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r cyfrifon eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2014.

Casgliad fy adroddiadau oedd bod y Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei baratoi i safon dda yn gyffredinol. Nodais y gallai'r Cyngor wneud rhagor o waith i wella ei arferion cyfrifyddu mewn perthynas â chynnal ei gofrestr asedau anghyfredol. Yn ogystal, roedd un gwendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol oedd yn berthnasol i'r Cyngor yn uniongyrchol ac o ran ei rôl fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nid oedd y data aelodaeth a ddarparwyd gan rai cyflogwyr, i'w defnyddio yn systemau'r gronfa bensiwn, yn gyfredol a gallai hyn gael effaith arwyddocaol ar y prisiad tair blynedd a'r prisiadau IAS19 blynyddol a ddarperir gan yr actiwari.

Ers imi gyfeirio at hyn yn fy llythyr archwilio blynyddol 2012-13, nid oedd Cyngor wedi gwneud cymaint o gynnydd ar y mater hwn ag yr oedd wedi gobeithio ac roedd ansawdd y data aelodaeth ar gyfer rhai o'r Cyrff Cyflogwyr yn dal i fod yn broblem yn 2013-14, er nad oedd yn effeithio ar fy marn ar y datganiadau ariannol. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi defnyddio adnoddau dros dro i fynd i'r afael â'r mater ac mae'n gwneud cynnydd da o ran cysoni data aelodaeth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan o dan *Orchymyn Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (Dynodi Cyrff)* Trysorlys Ei Mawrhydi. Cyflwynodd y Cyngor ei Gyfrifon erbyn y dyddiad dyledus. Archwiliasom y ffurflen ac ni chanfuom unrhyw faterion yr ydym eisiau tynnu'ch sylw atynt.

Mae hefyd yn werth nodi bod y Cyngor yn arwain y gwaith o baratoi cyfrifon tri Chydbwyllgor (GwE, Anghenion Addysgol Arbennig a'r Cydbwyllgor Polisi Cynllunio). Ar 30 Medi cyhoeddais farnau diamod ar y cyfrifon gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cydbwyllgorau unigol. Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd i aelodau'r pwyllgorau unigol yn fy adroddiadau ar yr Archwiliadau o Ddatganiadau Ariannol. Nid oes angen imi dynnu'ch sylw at unrhyw beth yn y llythyr hwn.

**Rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar waith archwilio'r cyfrifon a'r gwaith a gwblhawyd fel rhan Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle na ddangoswyd effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

**Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon (i Cyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd) wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2013.** Hefyd cyhoeddais dystysgrifau cwblhau ar gyfer y Cydbwyllgorau ar yr un dyddiad.

**Nid yw fy ngwaith hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi canfod unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 neu systemau ariannol allweddol**

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau'n dilyn yng ngwanwyn 2015 pan fydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Ariannol.

Yn gywir



**Derwyn Owen**
**Ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 RHAGFYR 2014** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 TACHWEDD 2014** |
| AWDUR | **JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 9 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 25 Medi 2014, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Gorffennaf 2014 a 12 Medi 2014. Derbyniodd 3 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

1.2 Yn ogystal â'r 3 adroddiad yma, penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Gweithgor hefyd ystyried adroddiad Ysgolion Uwchradd – Llywodraethu, oedd wedi derbyn barn 'B'.

## 2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 14 Tachwedd gyda Cadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Trefor Edwards, Sion Jones, Tom Ellis a Gethin Glyn Williams, a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg yn bresennol.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN |
|---|---|---|---|
| Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | Addysg | Ysgolion | B |
| Cofrestr Diogelwch Staff | Corfforaethol | | C |
| Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | Corfforaethol | | C |
| Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | C |

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod y pedwar adroddiad.

## 2.4 Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad yma oedd:

*Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw bod yna drefniadau cyffredinol da ar gyfer Llywodraethu mewn Ysgolion Uwchradd yn y sampl o ysgolion a archwiliwyd, ond fod angen tynhau ychydig ar rai rheolaethau. Mae angen sicrhau fod gwiriadau GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) aelodau corff llywodraethwyr ysgolion yn cael eu diweddaru'n rheolaidd yn y dyfodol a bod yr Adran Addysg yn cael eu hysbysu yn amserol o newidiadau i aelodau a manylion corff llywodraethwyr ysgolion. Yn ogystal, mae angen sicrhau fod Llywodraethwyr yn diweddaru eu ffurflenni 'Hysbysiad Buddiannau Busnes Llywodraethwyr' yn flynyddol gan eu harwyddo a'u dyddio.*

2.4.2 Croesawyd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet dros Addysg, a Mai Bere, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol i'r cyfarfod.

2.4.3 Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg fod yr adroddiad wedi derbyn Barn 'B', am fod y trefniadau yn gyffredinol dda ar draws yr ysgolion, ond fod rhai materion wedi codi a oedd yn benodol i ysgolion unigol. Er hyn, roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn ei gyfarfod ym mis Medi, yn teimlo y dylai'r Gweithgor gael cyfle i drafod y mater mewn mwy o ddyfnder.

2.4.4 Nododd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol ei bod wedi gweithio'n agos gyda'r archwilwyr pan yn llunio briff yr archwiliad er mwyn cytuno ar pa feysydd sydd fwyaf problemus a pa ysgolion i'w cynnwys yn y sampl. Penderfynwyd peidio cynnwys ysgolion oedd eisoes wedi derbyn y "wobr efydd", sef gwobr i ysgolion sy'n gallu arddangos ansawdd eu trefniadau. Mae llawer o ysgolion Gwynedd eisoes wedi cael y wobr yma. Yn y pen draw, cytunwyd ar sampl o 5 ysgol.

2.4.5 Rhannwyd copi o Lawlyfr Llywodraethwyr Gwynedd gydag aelodau'r Gweithgor, gan nodi fod y llawlyfr yn cynnwys llawer o ymarfer da. Os ydi ysgolion yn dilyn y llawlyfr, adroddwyd fod eu trefniadau llywodraethu yn agos iawn at eu lle. Yn ogystal â'r llawlyfr, mae clercod wedi mynychu cyrsiau mandadol. Gan fod Adroddiad Blynyddol yr ysgol yn fandadol, mae'n hanfodol fod clercod a penaethiaid yn gwybod beth ddylai fod ynddo.

2.4.6 Nodwyd fod clercod yn cael templed ar gyfer cofnodion cyfarfod cyntaf y flwyddyn addysgol. Mae hyn yn dangos yr hyn sydd ei angen, megis gwiriad GDG a cofrestr buddion. Rhannwyd copi o'r templed gydag aelodau'r Gweithgor.

2.4.7 Holiwyd y swyddog os oedd cofnodion holl gyfarfodydd y Byrddau Llywodraethu yn mynd i'r Adran Addysg. Nodwyd eu bod, a'u bod yn cael eu ffeilio yno. Maent wedyn ar gael os oes mater yn codi mewn ysgol benodol. Gofynnwyd os oedd swyddogion yr Adran yn gwirio'r cofnodion wrth iddynt gyrraedd. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet fod rhaid cofio nifer yr ysgolion sydd yng Ngwynedd, ac nad oes adnoddau staff yn yr Adran i wirio'r cofnodion i gyd yn fanwl pan y'u derbynnir. Er hyn, cynhelir gwiriad misol fod y dogfennau pwysig wedi dod i mewn, e.e. cynllun datblygu. Gwaith y clerc ydi sicrhau fod popeth wedi ei wneud yn iawn.

2.4.8 Holiwyd os oedd angen i'r gofrestr buddiannau gynnwys popeth yn mywyd personol y llywodraethwr. Nodwyd gan y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol mai'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ydi gwybodaeth am faterion all effeithio ar benderfyniad megis gosod contractau.

2.4.9 Cyfeiriwyd at argymhelliad A10, ***Dylid amlygu i glerc corff llywodraethol ysgolion uwchradd y dylent gadw rhestr o fanylion gwiriadau GDG aelodau'r corff llywodraethol yn yr ysgol, gan eu hadolygu yn flynyddol a diweddaru gwiriadau GDG aelodau sydd dros 3 mlynedd oed***. Roedd yr adroddiad yn amlygu fod un llywodraethwr wedi gwrthod gwneud cais am ddadleniad. Erbyn hyn, mae'r unigolyn wedi gwneud hynny gan ei fod

wedi cael llythyr gan y clerc yn ei hysbysu y byddai'n cael ei atal pe na bai'n cael dadleniad. Rhoddwyd sicrwydd fod trefniadau o fewn yr Adran Addysg i gadw cofnod o wiriadau GDG yr holl lywodraethwyr.

2.4.10 Roedd rhai o aelodau'r Gweithgor yn awyddus i gael polisi ar gyfer hyfforddiant fandadol i glercod. Adroddwyd gan y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol fod canllawiau manwl wedi cael eu derbyn oddi wrth y Llywodraeth yn dweud yn union beth sydd yn y cwrs mandadol i'r clercod. Mae hynny wedi ei gynnwys mewn deddfwriaeth. Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ei farn nad oes diben cael polisi ar wahân os ydi'r Ddeddf yn amlinellu'r hyn sydd ei angen.

2.4.11 Mynegodd rhai o aelodau'r gweithgor bryder am ddiffyg cyrsiau mandadol i lywodraethwyr, ac nad oedd cyfeiriad at hyn yn adroddiad Archwilio Mewnol. Nodwyd gan yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg fod hyn wedi ei wirio, ac mai'r rheswm nad oedd cyfeiriad ato yn yr adroddiad oedd oherwydd nad oedd mater wedi codi oedd angen sylw. Nodwyd ymhellach gan y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol mai ym Medi 2013 y daeth cyrsiau mandadol i lywodraethwyr i rym. Er enghraifft, mae disgwyl fod Cadeirydd yn mynychu cwrs cadeirio o fewn 6 mis, ac os nad yw wedi, caiff rybudd atgoffa am 6 mis arall. Os nad fydd y Cadeirydd wedi mynychu'r hyfforddiant wedi hynny, nid ydynt yn ddilys i ymgymryd â'r gwaith. Byddai'r amgylchiadau hyn yn cyflwyno risg y gallai penderfyniadau Corff Llywodraethol fod yn annilys.

2.4.12 Mae tri cwrs mandadol i lywodraethwyr ar hyn o bryd, sef Llywodraethwyr Newydd, Cadeirio a Rheoli Data. Cytunwyd gan y Gweithgor fod gwirio mynychiad y cyrsiau hyn yn faes y gallai Archwilio Mewnol edrych arno yn y dyfodol.

**2.4.13 Diolchwyd i'r Aelod Cabinet dros Addysg a'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol am fynychu'r cyfarfod, ac am roi cefndir i'r maes.**

## 2.5 Cofrestr Diogelwch Staff

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Detholwyd sampl o wasanaethau oedd yn defnyddio y Gofrestr yn rhinwedd eu gwaith, a gwelwyd bod gan rai drefniadau eu hunain ar gyfer cofnodi achosion neu ddigwyddiadau bygythiol neu dreisgar. Y prif fater a amlygwyd o ganlyniad i hyn, yw nad yw'r "rhestrau" yn cyd-fynd â'r manylion sydd ar y Gofrestr Corfforaethol, ac yn cynnwys unigolion ychwanegol i'r rhai sydd wedi'w nodi ar y Gofrestr Corfforaethol. Mae hyn yn bryder oherwydd nad yw staff eraill yn gallu derbyn unrhyw rybuddion petaent yn dod ar draws yr unigolion hyn gan nad ydynt yn ymddangos ar y Gofrestr Corfforaethol. Arsylwyd hefyd nad yw pob gwasanaeth yn adrodd am ddigwyddiadau treisgar, ac felly nid yw pob achos treisgar yn wybodus i'r gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i alluogi gweithrediad.*

*Darganfuwyd yn ogystal nad oedd staff yn cymryd mantais o hyfforddiant sydd ar gael iddynt mewn cysylltiad a'u diogelwch personol. Dylai rheolwyr gymryd rhan fwy blaenllaw i sicrhau bod staff yn gwneud y defnydd o'r hyfforddiant sydd ar gael er mwyn sicrhau diogelwch ac i amddiffyn eu staff rhag digwyddiadau bygythiol. Mae'r niferoedd sydd wedi mynychu yn isel iawn o'i gymharu â'r nifer uchel o staff sydd â risg uchel mewn perthynas â wynebu ymddygiad treisgar yn eu gwaith o ddydd i ddydd.*

*O'r archwiliad, gwelwyd bod gweinyddiaeth y Gofrestr ei hunan yn dda iawn ac yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth mewn perthynas â hysbysu unigolion eu bod wedi eu cynnwys ar y Gofrestr. Fodd bynnag, serch bod y trefniadau canolog yn gadarn, mae pryder fod diffyg adrodd gan adrannau a'r ffaith fod gan rai adrannau restrau annibynnol eu hunain yn tanseilio y gyfundrefn gorfforaethol. Mae canllawiau'r gofrestr yn llawn ac eglur, er mwyn i staff allu dilyn y drefn o hysbysu digwyddiadau a'r camau sydd i'w dilyn. Yr unig bryder yw nad oedd y wybodaeth yn y Gofrestr yn gyfredol, gan gynnwys y defnyddwyr, ond eglurwyd bod trefniadau mewn llaw i ddiweddaru'r rhestr defnyddwyr ac i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir a chyfredol.*

2.5.2 Croesawyd Geraint Owen, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Catrin Love, Uwch Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles i'r cyfarfod.

2.5.3 Rhoddodd yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg gefndir i'r archwiliad. Yn anffodus, er fod y Cyngor yn ceisio rhoi'r gwasanaeth gorau i'r cyhoedd, mae rhai unigolion yn ymddwyn yn fygythiol neu'n dreisgar tuag at swyddogion y Cyngor, ac i'r perwyl hwn mae system wedi ei ddatblygu i gadw cofrestr at ddiben diogelwch staff, sy'n rhestru unigolion sydd wedi ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol yn erbyn staff. Prif gasgliad yr archwiliad mewnol oedd fod y system sydd yn cael ei gynnal a'i gadw yn ganolog yn gweithio'n dda, ond fod rhai adrannau yn gweithio yn annibynnol, a'r wybodaeth angenrheidiol ddim yn cael ei rannu mor effeithiol ag y gallai.

2.5.4 Gofynnodd aelod os yw yn rhesymol fod system gorfforaethol yn bodoli, o ystyried fod yr adrannau i gyd mor wahanol i'w gilydd. Nododd yr Uwch Ymgynghorydd fod 25 – 30 o enwau ar y rhestr ar hyn o bryd. Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor, os ydym yn gwybod fod sefyllfa yn beryglus, i rannu'r wybodaeth ymysg staff. Byddai'r Cyngor yn esgeulus petai na byddai'n rhannu'r wybodaeth allweddol yma. Tynnodd yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg sylw at drydydd paragraff y prif ddarganfyddiadau, sy'n nodi bod y trefniadau canolog yn gadarn, ond fod pryder am y trefniadau mewn rhai adrannau.

2.5.5 Eglurodd yr Uwch Ymgynghorydd fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadw eu cofrestr eu hunain, a pan mae bygythiad ddigon ddifrifol, caiff yr Heddlu eu galw. Nodwyd fod unigolyn wedi derbyn carchar yn y gorffennol am fygythiadau yn erbyn staff, cymaint oedd difrifoldeb y bygythiad.

2.5.6 Gofynnwyd os oedd yr wybodaeth yn cael ei rannu gyda asiantaethau eraill megis yr Heddlu neu'r Bwrdd Iechyd. Nodwyd fod y Cyngor ar hyn y bryd yn canolbwyntio ar ddatblygu ein systemau ein hunain.

2.5.7 Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol at Argymhellion A04 ac A05, sef ***Dylid sicrhau bod unrhyw systemau annibynnol sydd o fewn gwasanaethau yn cyd-fynd gyda'r wybodaeth ar y Gofrestr Corfforaethol mewn perthynas â unigolion/adeiladau treisgar*** a ***Dylid adolygu unrhyw unigolion/adeiladau treisgar sydd ar systemau annibynnol er mwyn dehongli os ydynt yn gyfredol ac o ddiddordeb i'r Gofrestr Gorfforaethol***. Yn ei farn ef, dyma yw pwyntiau pwysicaf yr adroddiad – y sefyllfa ar hyn o bryd yw fod gan adrannau systemau annibynnol ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei rannu.

2.5.8 Adroddwyd fod Panel wedi ei sefydlu i gadw trosolwg ar y trefniadau corfforaethol, sy'n cyfarfod yn fisol i drafod digwyddiadau. Mae criteria caeth er mwyn ychwanegu enwau i'r gofrestr, a disgwylir adroddiad gan yr adran ymlaen llaw. Mae aelodaeth y Panel yn cynnwys yr Uwch Ymgynghorydd (Cadeirydd), y Swyddog Monitro, Rheolwr Gwybodaeth, a cynrychiolwyr o'r prif adrannau perthnasol sef Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Plant), Tai (Digartrefedd), Cyllid (Treth Cyngor a Budd-daliadau), Gwarchod y Cyhoedd a Siopau Gwynedd.

2.5.9 Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data rhaid adolygu pob unigolyn yn chwarterol – nid oes hawl eu cadw ar y rhestr am byth. Os oes tystiolaeth nad oes risg bellach gellir tynnu'r enwau oddi ar y rhestr. Fel arfer, hysbysir unigolyn eu bod ar y rhestr, ond rhaid bod yn ymwybodol y gallai llythyr o'r fath ymfflamychu'r sefyllfa, a felly mae eithriadau.

2.5.10 Hysbyswyd y Gweithgor fod yna ddau gyfeiriad ar y rhestr lle mae swyddogion wedi cael eu brathu gan gŵn.

2.5.11 O safbwynt argymhelliad A01, ***Dylid atgoffa Uwch Reolwyr/ Rheolwyr o bwysigrwydd anfon Swyddogion i fynychu'r hyfforddiant Diogelwch Personol, yn arbennig y rhai hynny sydd yn gweithio gyda risg uchel o fygythiad/ymosodiad***, eglurodd yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol fod nifer o gyrsiau eisoes wedi eu cynnal a mwy wedi eu trefnu ar gyfer y misoedd nesaf.

2.5.12 Roedd aelodau'r teimlo'n gryf fod angen cryfhau'r drefn, a cydweithio gydag asiantaethau eraill. Gofynnwyd hefyd os oes bwriad rhannu gwybodaeth gyda cynghorwyr lleol. Nodwyd y byddai hynny yn gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Panel.

2.5.13 **Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a'r Uwch Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles am fynychu'r cyfarfod, ac am egluro'r sefyllfa**.

## 2.6 Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Gwelwyd bod system mewn lle ar gyfer datgan cynigion o roddion a lletygarwch, a pe ddefnyddir y system yn llawn a chywir, y mae'n darparu adnodd gwerthfawr ac effeithiol er galluogi cadarnhau pe bai'r angen bod Swyddogion wedi ymddwyn yn foesegol gan sicrhau arbed enw da'r Swyddog a'r Cyngor.*

*Mae'r polisi ynghyd â'r ffurflen datgan ar gael ar y Mewnrwyd. Er hyn nid oedd yn hawdd i'w darganfod. Nodwyd nad yw'r broses datgan yn gaeth i'r ffurflen gan ei fod yn dderbyniol datgan ar ffurf e-bost.*

*Darganfuwyd bod yr holl Reolwyr a ymholwyd yn sgil yr archwiliad yn ymwybodol o fodolaeth y polisi. Serch hynny, mae'r archwilwyr yn teimlo fod mwyafrif yn gwerthfawrogi'r risg sydd ynghlwm â derbyn rhodd neu letygarwch yn unig, yn hytrach na gwerthfawrogi egwyddor y côd ymddygiad. Adolygwyd cynnwys y gofrestr a gwelwyd mai 74 ffurflen datganiad o gynnig am rodd neu letygarwch yn unig oedd wedi eu cyflwyno ers dechrau'r gofrestr yn Ionawr 2008. Dim ond 4 o'r rhain oedd yn datgan gwrthod cynnig. Darganfuwyd nad oedd ffurflen datganiad yn y gofrestr gan swyddogion o dair Adran. Mae dau o'r adrannau hyn yn adrannau sydd, oherwydd natur eu gwaith, yn debygol o dderbyn cynigion o roddion a lletygarwch.*

*Er ei bod yn amhosib mesur beth sydd ddim yn y gofrestr, barn yr archwilwyr yw bod tebygolrwydd mawr fod nifer o gynigion o rodd neu letygarwch ddim yn cael eu datgan. Ni awgrymir bod cam ymddwyn yn bodoli, ac nid oes tystiolaeth o gam ymddwyn, ond mae'n awgrymu bod diwylliant 'di-hid' tuag at egwyddor y polisi yn bodoli oddi fewn i rai gwasanaethau.*
*Barn yr archwilwyr yw bod cymynroddion yn bwnc rhy gymhleth i'w ymgorffori yn uniongyrchol i mewn i'r polisi yma, ac y dylai fod polisi unigol i ddelio hefo hyn yn benodol ac uniongyrchol.*

2.6.2 Croesawyd Sion Huws, Uwch Gyfreithiwr i'r cyfarfod.

2.6.3 Rhoddwyd cefndir i'r archwiliad gan yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg. Eglurodd fod yr adroddiad yma yn edrych ar drefniadau corfforaethol, ac er mai'r Uwch Gyfreithiwr oedd wedi cael gwahoddiad i'r Gweithgor, gan mai ef sy'n goruchwylio'r drefn, mae'r gwendidau a amlygwyd wedi eu treiddio ar draws y Cyngor. Nodwyd mai 74 cofrestriad yn unig oedd wedi eu nodi yn y cyfnod ers Ionawr 2008. Er nad oedd hyn yn arwydd o gamymddwyn, mae'n awgrymu fod nifer o reolwyr yn anwybyddu'r drefn gorfforaethol.

2.6.4 Esboniodd yr Uwch Gyfreithiwr fod angen Polisi a threfn yn ei le; nid yn unig cadw'r gofrestr mae'r swyddogion yn yr Uned Gyfreithiol, ond maent hefyd ar gael i roi cyngor i staff. Fodd bynnag, dyma hyd cyfrifoldeb yr adran ganolog. Mae cyfrifoldebau pellach o fewn yr adrannau, ac yn y pen draw gyda'r penaethiaid adran.

2.6.5 Gofynnwyd os oedd y Polisi yn gosod swm penodol ar gyfer derbyn rhoddion. Eglurwyd nad oedd cyfryw ffigwr, a fod y Polisi yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng bod yn rhy gyffredinol a rhy "prescriptive" – mae cyfrifoldeb ar swyddogion a rheolwyr i arddel synnwyr cyffredin.

2.6.6 Yn gyffredinol, gall dau fath gwahanol o sefyllfa godi – un lle rhoddir rhodd fel arwydd o ddiolch (e.e. i athrawon neu staff cartrefi), ond mae risg fod sefyllfaoedd eraill lle disgwylir penderfyniad. Yr hyn sydd angen i swyddogion ei ystyried ar bob achlysur yw os oes canfyddiad fod y rhodd wedi ei roi er mwyn dylanwadu ar benderfyniad.

2.6.7 Yn sgil trafodaeth gyda swyddogion, nodwyd y gallai gofal cartref yn faes o risg, fydd angen sylw yn y dyfodol o bosib. Cedwir cofrestr rhoddion mewn cartrefi preswyl, ond nodwyd fod cymynroddion yn fater dyrys oedd y tu allan i gwmpas yr archwiliad yma.

2.6.8 Awgrymodd yr Uwch Gyfreithiwr fod nodi cynigion sydd wedi cael eu gwrthod, yn ogystal â rhai sydd wedi eu derbyn, hefyd yn bwysig gan y gallai awgrymu patrwm o gynnig rhoddion gan gontractwyr penodol. Awgrymodd y gallai Archwilio Mewnol adolygu'r cynigion yn gyfnodol.

2.6.9 Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg fod swyddogion yn rhoi eu hunain mewn perygl wrth beidio cofrestru cynigion o roddion a lletygarwch, petai honiadau'n cael eu gwneud yn eu herbyn.

2.6.10 Gofynnodd y Gweithgor am ddadansoddiad o gynigion fesul adran. Nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod y Polisi yr un peth i bawb, ac fod angen i pawb sy'n cael cynnig rhodd neu letygarwch ystyried "Ydi'r person yma eisiau rhywbeth gen i?"

2.6.11 Roedd y Gweithgor o'r farn fod rhai adrannau'r fwy o risg na'i gilydd, ac angen sylw penodol gan Archwilio Mewnol. Cytunodd yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg i ystyried hyn pan yn llunio Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16.

**2.6.13 Diolchwyd i'r Uwch Gyfreithiwr am fynychu'r cyfarfod, ac am roi cefndir i'r sefyllfa.**

## 2.7 Cymunedau'n Gyntaf – Y Rhaglen Newydd

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Ar sail y gwaith archwilio sydd wedi ei gwblhau, mae Archwilio Mewnol wedi darganfod fod risg sylweddol nad yw ansawdd ddogfennaeth, tystiolaeth a rheolaethau mewn perthynas â'r Grant Cymunedau'n Gyntaf – Y Rhaglen Newydd yn ddigonol i ganiatáu'r archwiliwr allanol i gynnal adolygiad 'ysgafn', a bydd rhaid iddynt gynnal archwiliad manwl hir, gyda'r canlyniad y caiff hynny ar eu ffioedd a'r arian fydd felly ar gael i wireddu amcanion y grant. Ymhellach , os na fydd ansawdd y dystiolaeth yn gwella, mae risg arwyddocaol o'r hawliad grant yn cael ei roi o dan amod, gyda'r canlyniad y gall Llywodraeth Cymru hawlio peth o'r arian yn ôl. Nid oedd dogfennaeth i gefnogi gwariant y grant yn cael eu marcio yn gywir pob amser fel eu bod yn cael eu cadw am y cyfnod cadw priodol, ac nid oedd copïau wedi eu harwyddo ar ffeil ar gyfer pob cytundeb sydd rhwng Cymunedau'n Gyntaf ac adrannau eraill y Cyngor/3ydd partïon.*

2.7.2 Croesawyd Catrin Thomas, Uwch Reolwr Adfywio i'r cyfarfod.

2.7.3 Rhoddwyd cefndir i weithgareddau Cymunedau'n Gyntaf i'r aelodau gan yr Uwch Reolwr Refeniw, Archwilio a Risg. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant i'r Cyngor er mwyn cynnal gweithgareddau adfywio yn wardiau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae tair ardal o fewn Gwynedd yn y cynllun – Marchog ym Mangor, Peblig yng Nghaernarfon a Nantlle.

2.7.4 Adroddwyd fod Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o'r rhaglen newydd mewn cytundeb â'r Adran Economi a Chymuned er mwyn dod i gasgliad cynnar ar sut oedd y rhaglen newydd yn gweithio. Byddai hyn yn rhoi cyfle i fireinio trefniadau os oedd angen, cyn i'r cynllun dderbyn archwiliad allanol. Nodwyd fod yr archwiliad wedi amlygu llawer o welliannau angenrheidiol.

2.7.5 Er mwyn rhoi cyd-destun i'r sefyllfa newydd, heriol, eglurodd yr Uwch Reolwr Adfywio y bu'r hen raglen yn rhedeg am 12 mlynedd, ac mae gofynion y rhaglen newydd yn dra gwahanol. Cafwyd cyfnod trawsnewid o 18 mis pan oedd Gwynedd yn cau'r pedwar hen gynllun – gan gynnwys diswyddo staff yr hen gynlluniau – ac yn sefydlu'r cynllun newydd. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Adfywio fod cais wedi ei wneud i Archwilio Mewnol adolygu'r rhaglen yn y misoedd cyntaf er mwyn cael cynllun gweithredu yn ei le.

2.7.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefn newydd, a Swyddog Ansawdd wedi ei benodi. Dan y drefn newydd mae'r Llywodraeth wedi adnabod clystyrau llai, ac un gymuned yw ardaloedd perthnasol Gwynedd – Marchog, Peblig a Nantlle; nid oes caniatâd i ddefnyddio "ring fencing" ar gyfer unrhyw un o'r ardaloedd hyn. Yr un drefn sydd yn ei le ar gyfer 7 cais ar draws Cymru. Caiff yr holl gynllun o fewn Gwynedd ei redeg yn uniongyrchol gan y Cyngor, tra dan yr hen raglen roedd cynlluniau rhai o'r ardaloedd yn cael eu rhedeg gan gyrff allanol megis cymdeithasau tai.

2.7.7 Wrth ystyried rhai o brif bwyntiau yr adroddiad, gofynnodd yr aelodau os oedd y darparwyr lleol yn derbyn arian ymlaen llaw. Nododd yr Uwch Reolwr Adfywio fod y Compact rhwng y Cyngor a'r trydydd sector yn nodi y bydd y Cyngor yn cyfrannu arian ymlaen llaw i gyrff o'r sector yma. Mae hynny'n golygu fod angen cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y Compact ac amodau'r grant a rheoli'r risgiau sy'n codi o dalu cyfraniadau ymlaen llaw.

2.7.8 Nodwyd mai ychydig o gyrff sydd wedi methu cydymffurfio ag amodau'r grant mewn gwirionedd; ambell gorff mawr oedd wedi achosi trafferthion wrth weinyddu'r grant, yn hytrach na'r cyrff bychain, ac mae hynny bellach wedi dod i ben.

2.7.9 O dan drefniadau'r Rhaglen Newydd, ychydig o'r arian sy'n cael ei roi yn uniongyrchol i'r trydydd sector. Mae'r rhan fwyaf yn cael ei wario' n uniongyrchol gan y Cyngor (e.e. cyflogi staff, gweithgareddau). Nododd yr Uwch Reolwr Adfywio na fyddai Llywodraeth Cymru

fyth yn rhoi arian yn uniongyrchol i gyrff allanol eto, yn dilyn profiadau o dwyll mewn ardaloedd eraill (y tu allan i Wynedd).

2.7.10 Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Adfywio na all corff allanol sy'n trefnu gweithgaredd hawlio cyfanswm eu taliad i gyd ar unwaith, ac y caiff yr arian ei dalu dros gyfnod o amser. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau pendant yn eu lle i liniaru'r risg o dwyll. Ymhellach, eglurwyd hefyd fod Panel Grantiau Gwynedd wedi ei sefydlu, sydd yn penderfynu ar daliadau.

2.7.11 O ran Polisi Cydraddoldeb, nodwyd gan yr Uwch Reolwr Adfywio nad diffyg polisi oedd y broblem ond y ffaith nad oedd y telerau yn gofyn amdanynt, ac felly nid oedd y Cyngor yn eu derbyn.

2.7.12 Holiwyd ynglŷn ag argymhelliad A05, sef ***Dylid cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru yn unol ag amodau'r grant***. Eglurodd yr Uwch Reolwr Adfywio nad oedd y ffurflen wedi cael ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru ar un achlysur. Roedd hyn yn enghraifft o achlysur lle roedd trefniadau gweinyddol y Llywodraeth yn milwrio yn erbyn gallu swyddogion y Cyngor i gydymffurfio ag amodau'r Llywodraeth eu hunain.

**2.7.13 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Adfywio am fynychu'r cyfarfod, a hefyd estynnwyd diolch gan y Gweithgor iddi hi a'r holl swyddogion a'r swyddogion eraill sydd yn delio gyda'r sefyllfa.**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 RHAGFYR 2014** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 TACHWEDD 2014** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 15 Medi 2014 hyd at 30 Tachwedd 2014.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2014:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 13 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Adolygiadau Grant | 2 |
| Archwiliadau Dilyniant | 9 |
| Archwiliadau Ymatebol | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2014, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol | Corfforaethol | | B | Atodiad 1 |
| System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 2 |
| Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 3 |
| Taliadau CHAPS | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 4 |
| Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 5 |
| System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 6 |
| Canolfannau Hamdden | Economi a Chymuned | Hamdden | C | Atodiad 7 |
| Traethau | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | B | Atodiad 8 |
| Diogelwch Safleoedd Ailgylchu | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoli Gwastraff a Strydoedd | A | Atodiad 9 |
| Gwasanaeth Cynllunio - Penderfyniadau Cynllunio | Rheoleiddio | Cynllunio | B | Atodiad 10 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Rheoleiddio | Cynllunio | A | Atodiad 11 |
| Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | C | Atodiad 12 |
| Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu | B | Atodiad 13 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

| | |
|---|---|
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| Barn "CH" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch** *(Corfforaethol).* Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth staff Cyngor Gwynedd am Bolisi Datgelu a Chanu'r Gloch y Cyngor ynghyd â chanfod barn gyffredinol gweithwyr y Cyngor tuag at y polisi a'r trefniadau canu'r gloch trwy ddefnyddio holiadur pwrpasol. Dosbarthwyd holiadur gan Archwilio Mewnol i staff prif swyddfeydd y Cyngor yn 2010, a bwriad yr archwiliad oedd cymharu canlyniadau'r ddau ymarferiad er mwyn gweld os oedd cynnydd wedi bod yn lefelau ymwybyddiaeth staff o'r polisi, ac os ydynt yn fwy parod i ganu'r gloch ers 2010. Byddwn yn cyflwyno adroddiad llawn ar ganlyniadau'r adolygiad i'r Pwyllgor Archwilio yn Chwefror 2015.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | **Derbyniol** |
| Trefniadau Dros Nos yng Nghartrefi'r Cyngor | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | **Derbyniol** |
| Gwirio Mesuryddion Perfformiad | Corfforaethol | | **Rhagorol** |
| Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion | Addysg | | **Rhagorol** |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion | Addysg | Disgyblion a Chynhwysiad | **Anfoddhaol** |
| Tocynnau Teithio Rhad | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | **Anfoddhaol** |
| Porthladdoedd | Economi a Chymuned | Morwrol a Parciau Gwledig | **Anfoddhaol** |
| Y Drefn Gwynion Corfforaethol | Corfforaethol | | **Derbyniol** |
| Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Adeiladau ac Amgylcheddol | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**

Telerau Contractau - Gwiriadau DBS

Gwiriadau DBS Staff

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014**

Taliadau Uniongyrchol

Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2014**

Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion

Diogelwch Glinfyrddau

Trefniadau Hawlio Goramser

Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2015**

Cymunedau'n Gyntaf (Y Rhaglen Newydd)

Cofrestr Diogelwch Staff

Plas Ogwen

Parciau Gwledig

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2015**

Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion

Canolfannau Hamdden

Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch

## 2.5 Archwiliadau Ymatebol

Enw Strydoedd

2.5.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol ar drefn y Cyngor ar gyfer enwi datblygiadau tai newydd. Roedd hyn ar ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio dderbyn honiadau gan aelod o'r cyhoedd am wendidau yn y drefn, oedd yn golygu fod enw datblygiad o dai a adeiladwyd yn 2010 wedi cael ei newid yn ddisymwth yn gynnar yn 2014, ac mai'r cyntaf yr oedd y trigolion yn gwybod am yr enw newydd oedd biliau Treth Cyngor ym Mawrth 2014.

2.5.2 Wrth gynnal yr adolygiad, gwelwyd fod y mater eisoes wedi bod yn destun proses gwynion y Cyngor. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fod yn ymwybodol nad eu rôl hwy yw ymyrryd yn neu ail-redeg y drefn gwynion, ond yn hytrach adnabod unrhyw wendidau rheolaethol sydd wedi eu hamlygu, a beth y dylai'r Cyngor ei wneud, os unrhyw beth, i ymdrin â'r risgiau sydd wedi codi.

2.5.3 Y risg benodol yn yr achos yma yw nad yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â hysbysu'r rhanddeiliaid perthnasol am enw datblygiadau.

2.5.4 Gwelodd yr archwiliwr mai cyfrifoldeb y datblygwr yw gwneud cais am enw swyddogol i ddatblygiad tai newydd, ac am hysbysu'r trigolion yn briodol. Dylai'r datblygwr gysylltu gyda'r Uned Enwi Strydoedd o fewn YGC, fydd wedyn yn ymgynghori â'r Cyngor Cymuned am enwau posib. Yn yr achos dan sylw, er fod preswylwyr wedi dechrau symud i'r datblygiad newydd oddeutu 2010, yn Chwefror 2012 y derbyniodd Cyngor Gwynedd gais gan y datblygwr am enw i'r datblygiad. Cynigwyd enw gan y Cyngor Cymuned perthnasol yn Ebrill 2012, a hysbyswyd y datblygwr o hyn gan Cyngor Gwynedd ym Medi 2012, oedi o 5 mis. Fodd bynnag, oherwydd amryfusedd ni anfonwyd y llythyr hwn ymlaen i'r gwasanaeth Treth Cyngor tan Ionawr 2014.

2.5.5 Pwysleisir fod Treth Cyngor yn cael ei dalu ar yr eiddo, ond ar sail yr enw ar y cais cynllunio (h.y. gyda'r enw "tir ger ..."). Mae Archwilio Mewnol yn fodlon mai camgymeriad dynol mewn un achos oedd hwn, a nid arwydd o wendidau cyffredinol. Fodd bynnag, gwelwyd fod YGC wedi cryfhau eu trefniadau er mwyn osgoi hyn yn y dyfodol.

2.5.6 I grynhoi, felly, darganfyddiadau Archwilio Mewnol oedd fod oedi wedi bod ar ran y datblygwr tan 2012 cyn gwneud cais i enwi'r datblygiad yn swyddogol, oedi a gafodd ei gynyddu – ond nid ei achosi – gan gamgymeriad o fewn y Cyngor. Byddai gohebiaeth amserol rhwng YGC a Treth Cyngor wedi golygu y byddai'r mater wedi dod i'r amlwg flwyddyn yn gynharach.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Rhagfyr 2014.

**3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau**

- System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Unedau Diwydiannol a Thechnoleg *(Economi a Chymuned)*
- Grant Teuluoedd yn Gyntaf *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd *(Rheoleiddio)*

**3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt**

- Grant Amddifadedd Disgyblion *(Addysg)*
- TGCh mewn Ysgolion Uwchradd *(Addysg)*
- Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu *(Corfforaethol)*
- Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog *(Corfforaethol)*
- Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Rheolaeth Trysorlys *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth *(Cyllid)*
- Cronfa Degwm *(Economi a Chymuned)*
- Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Yr Hafan, Pwllheli *(Economi a Chymuned)*
- Dilyniant - Parciau Gwledig *(Economi a Chymuned)*
- Dilyniant - Taliadau Uniongyrchol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Dilyniant - Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion *(Addysg)*
- Trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Plant mewn Gofal - asesiadau addysg ac iechyd *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Rheolaeth Fflyd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Pont Briwet *(Rheoleiddio)*
- Uned Trafnidiaeth Integredig *(Rheoleiddio)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 15 Medi 2014 i 30 Tachwedd 2014, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# TREFNIADAU SALWCH – CYFEIRIO AT IECHYD GALWEDIGAETHOL
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer rheoli absenoldebau salwch ar draws y Cyngor yn ogystal â'r trefniadau i gyfeirio achosion at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y mesurau sydd mewn lle ar gyfer cofnodi, rheoli ac adolygu absenoldebau salwch staff y Cyngor gan gynnwys trefniadau cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Hefyd, roedd yr archwiliad yn cynnwys sicrhau bod mesurau mewn lle er mwyn rheoli a lleihau achosion o absenoldebau salwch. Nid oedd yr archwiliad yma yn cynnwys adolygiad o weithredu addasiadau cyflog yn sgil salwch.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ystod yr archwiliad gwiriwyd adroddiadau salwch yn ogystal â chofnodion o achosion a gyfeiriwyd at yr Uned Iechyd Galwedigaethol. Darganfuwyd bod yr Uned Iechyd Galwedigaethol wedi cynnal sawl mentr yn ystod y flwyddyn i hybu ymwybyddiaeth o'r Uned.

Amlygwyd elfennau o ddyblygu gwaith, gyda swyddogion o'r unedau yn cofnodi absenoldebau ac yna yn eu pasio ymlaen i'r Uned Gefnogol i'w mewnbynnu i'r system ac ymlaen wedyn i'r Uned Gyflogau i'w mewnbynnu eto i'w prosesu. Ar hyn o bryd mae System Swyddi wedi ei ddatblygu ac mae ystyriaeth yn cael ei roi ar gyfer rhoi'r gallu i gofnodi absenoldebau salwch unwaith ar y system, gyda'r unedau/gwasanaethau yn mewnbynnu'r data eu hunain. Buasai hyn yn golygu lleihau'r camau yn y broses ac yn cael gwared o'r dyblygu diangen a fydd yn rhyddhau adnoddau staff fel y gellir arallgyfeirio eu ffocws. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion Ffordd Gwynedd.

Nid oes gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol system electronig ar gyfer yr achosion a gyfeiriwyd atynt, mae eu cofnodion i gyd ar bapur, gyda phob achos a gyfeirir at yr Uned yn cael ei gofnodi mewn llyfr. Mae system yn y broses o gael ei datblygu gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth ar gyfer dibenion yr Uned. Buasai system a fyddai'n cyfarfod eu holl anghenion yn hwyluso'r weinyddiaeth o achosion sy'n cael eu cyfeirio ac yn galluogi'r uned weithio'n fwy effeithlon gan leihau oedi cyn yr apwyntiad cyntaf gyda'r Nyrs yn ogystal â'r gallu i fonitro sefyllfaoedd yn rhwyddach.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod polisi 'Rheoli Absenoldeb Salwch' y Cyngor yn cael ei gadw'n gyfredol i gyd-fynd â deddfwriaeth oherwydd ei fod yn berthnasol i holl staff y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod y wybodaeth mewn perthynas â chyfeirio at Iechyd Galwedigaethol yn gyfredol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth.**
- **Dylid darganfod datrysiad i waredu'r angen i fewnbynnu data absenoldebau salwch ddwywaith i'r modiwlau yn y system gyflogau Cyborg boed hynny gyda'r System Swyddi neu ddull arall.**
- **Dylid sicrhau bod yr holl daflenni wedi eu cynnwys ac yn gyfredol ar y fewnrwyd.**

**SYSTEM TALIADAU - CAU I LAWR 2013-14**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad
Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Ebrill 2010 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru) wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu lle bosibl ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn mae'r protocol ar y cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'u rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda'r datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y System Taliadau ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer trefniadau cau i lawr y flwyddyn ariannol, drwy gadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio bod y cysoniadau sy'n rhan o'r ymarferiad o gau'r flwyddyn flaenorol yn cael eu cynnal yn amserol a'u bod yn gyflawn a chywir, ynghyd a sicrhau bod darpariaeth ar gyfer gwariant yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer trefniadau cau lawr y flwyddyn ariannol yn y system taliadau. Gwelwyd fod cysyniadau priodol yn cael eu cynnal yn amserol a'u bod yn gyflawn a chywir, a bod reserfau yn cael eu creu yn gywir.

Er hyn fe ddarganfuwyd bod rhai anfonebau o'r sampl o anfonebau a wiriwyd, oedd wedi eu derbyn rhwng 1 Ebrill 2014 ac 9 Ebrill 2014, wedi eu cynnwys ar daflen pennawd swp TR257 oedd wedi ei farcio ar gyfer 'Blwyddyn Newydd 2014 / 2015', yn anfonebau am nwyddau neu wasanaeth a dderbyniwyd cyn 31/03/2014. Mae hyn yn groes i reolau cyfrifo safonol a chanllawiau cau lawr ar gyfer Swyddogion a Rheolwyr a ddosbarthwyd gan yr Adran Cyllid. Bydd y Pennaeth Cyllid yn cysylltu'n unigol gyda'r Gwasanaethau perthnasol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Rheolwyr a Swyddogion holl Wasanaethau'r Cyngor sicrhau bod anfonebau yn cael eu marcio gyda'r flwyddyn gywir yn unol â Chanllawiau Cau Lawr ar gyfer Swyddogion a Rheolwyr a ddosbarthwyd gan yr Adran Cyllid, er mwyn galluogi'r Uned Taliadau i ddyrannu'r gwariant i'r flwyddyn ariannol gywir yn unol â Rheolau Cyfrifo Safonol.**

# CYSONI BANC - CAU I LAWR 2013-14
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle’n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae’r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***“Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol”.***

Caiff trefniant cysoni banc ei ystyried yn “system ariannol bwysig” yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o drefniadau cau i lawr y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle ac wedi ei ddogfennu ar gyfer cynnal cysoniad banc diwedd blwyddyn.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio prosesau a threfniadau cau i lawr diwedd blwyddyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y cysoniadau perthnasol diwedd blwyddyn wedi eu cwblhau yn unol â'r drefn disgwyliedig.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn.**

# TALIADAU CHAPS
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r mesurau a'r trefniadau mewn perthynas â thaliadau CHAPS.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y mesurau sydd mewn lle ar gyfer gwneud taliadau CHAPS gan gynnwys trefniadau awdurdodi taliadau. Hefyd, roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o sampl o daliadau CHAPS yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd yn ystod yr archwiliad bod yna drefniadau penodol mewn lle ar gyfer derbyn a phrosesu taliadau CHAPS, gan gynnwys rheolaethau i sicrhau bod y taliadau yn gymwys a chywir. Mae'r drefn yma wedi ei ddogfennu yng nghanllawiau 'Taliadau CHAPS'.

Nid oes system benodol mewn lle ar gyfer taliadau CHAPS, fodd bynnag mae pob taliad yn cael ei gofnodi ar daflen benodol ac yna mae'r broses o archwilio, mewnosod, gwireddu ac awdurdodi yn cael ei weithredu gan bedwar swyddog awdurdodedig gwahanol. Mae'n angenrheidiol bod tri swyddog gwahanol yn prosesu'r taliadau CHAPS yn unol â gofynion y Banc a'r system fancio.

Mae yna nifer o achosion gwahanol yn codi sydd yn cyfiawnhau defnyddio taliadau CHAPS a gwelwyd bod dogfennaeth ym mhob achos i gefnogi'r taliadau. Mae cost o £5 ynghlwm a phob taliad CHAPS, a swm o £15 gyda'r taliadau a wneir dramor. Daeth un achos i'r amlwg lle bu i weithiwr gyflwyno taflen amser yn hwyr, ac roedd taliad CHAPS wedi ei wneud. Nodir yn 'Datganiad Polisi ar: Blaendalu Cyflog', "cyflwyno cais yn hwyr... ni fydd yr adain Gyflogau'n ystyried gwneud taliad arbennig". Buasai'r taliad yma wedi gallu cael ei dalu â BACS.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Taliadau CHAPS gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, cynigir un argymhelliad.**

- **Dylid sicrhau bod yna gyfiawnhad digonol a derbyniol am bob taliad CHAPS a wneir.**

**CRONFA BENSIWN GWYNEDD - CAU I LAWR 2013-14**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."***

Er fod gweinyddiaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd yn dibynnu'n helaeth ar systemau ariannol pwysig y Cyngor, caiff systemau gweinyddol y Gronfa eu hystyried yn "system ariannol pwysig" ynddi ei hunain yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau sydd yn eu lle er mwyn cau gweinyddiaeth y flwyddyn ariannol flaenorol fel sy'n briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y trefniadau disgwyliedig mewn lle. Yr unig wendid a welwyd oedd gwendid sydd y tu allan i reolaeth yr Uned Bensiynau gan eu bod yn dibynnu ar y cyflogwyr i ddarparu gwybodaeth iddynt am aelodau actif a gohiriedig. Mae ceisiadau wedi eu gwneud i'r cyflogwyr am y wybodaeth yma, ond nid yw pob cyflogwr wedi ymateb.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# SYSTEM GYFLOGAU - CAU I LAWR 2013-14
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."***

Caiff y system gyflogau ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd gwirio trefniadau diwedd blwyddyn i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei anfon i Adran Cyllid a Thollau EM yn ogystal â sicrhau bod cysoniadau yn cael eu cynnal i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyfriflyfr yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod y gwaith perthnasol o anfon gwybodaeth i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi ei gwblhau yn ogystal â'r gwaith cysoni yn unol â'r disgwyl.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn**

# CANOLFANNAU HAMDDEN
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau yn bodoli yn y canolfannau hamdden er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol, ac yn unol â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymweld â sampl o 4 canolfan hamdden er mwyn cynnal profion ar y rheolaethau sydd mewn lle i liniaru ystod o risgiau yng ngweinyddiaeth a rheolaeth y canolfannau. Y canolfannau hamdden a archwiliwyd oedd Canolfan Hamdden Dwyfor, Canolfan Hamdden Glan Wnion, Canolfan Hamdden Penllyn a Phwll Nofio Bangor.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod enghreifftiau o ymarfer da a rheolaeth gadarn mewn lle yn rhai o'r Canolfannau Hamdden a archwiliwyd, er mwyn lliniaru ystod o risgiau yng ngweinyddiaeth a rheolaeth y canolfannau. Fodd bynnag, gwelwyd bod nifer o'r meysydd a archwiliwyd angen sylw pellach, yn enwedig meysydd iechyd a diogelwch, bancio incwm a rheolaeth stoc. Mae nifer o wendidau wedi eu darganfod ac oherwydd hyn dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn rhai o'r meysydd a archwiliwyd. Mae'r Gwasanaeth Canolfannau Hamdden yn y broses o ail drefnu er mwyn ymdrechu i reoli a lliniaru risgiau canolfannau hamdden yn well yn y dyfodol.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol mewn Canolfannau Hamdden gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Daethpwyd i'r canlyniad yma oherwydd darganfuwyd gwendidau sylweddol yng ngweinyddiaeth un o'r canolfannau hamdden yn y sampl archwiliwyd. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod staff y ganolfan hamdden yn cwblhau memorandwm i egluro'r rheswm dros unrhyw anghysondeb bancio dros/dan £3 sy'n cael ei hadnabod, gan ei arwyddo a'i gyflwyno i Reolwr y ganolfan hamdden yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau fod staff y ganolfan hamdden yn arwyddo'r dderbynneb bancio arian gan y cwmni diogelwch pan maent yn bancio incwm gyda hwy ar bob achlysur yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau fod y ganolfan hamdden yn cadw'r taenlenni rheoli a monitro lefelau stoc peiriannau gwerthu yn llawn ac yn gyfredol, gan gofnodi'r holl stoc archebwyd a werthwyd yn y ganolfan hamdden ar y daenlen.**
- **Dylid sicrhau fod y ganolfan hamdden yn cynnal ymarferion tân yn unol â'r hyn a nodir yn ei 'Gynllun Rheoli Tân' yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau fod asesiadau risg y ganolfan hamdden yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn y dyfodol agos, a bod y ganolfan hamdden yn adolygu a diweddaru'r asesiadau risg yn flynyddol yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau fod gwell monitro ar ddyddiadau terfynu cymwysterau swyddogion y ganolfan hamdden, a bod swyddogion y ganolfan hamdden yn mynychu hyfforddiant perthnasol i ddiweddaru eu cymwysterau yn amserol ac yn unol â'r gofynion.**

**TRAETHAU**
**Economi a Chymuned**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau digonol yn nhraethau'r Cyngor er mwyn rheoli'r risgiau yn y meysydd casglu a bancio incwm, cofrestru badau morwrol, iechyd a diogelwch a defnydd o gerbydau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r trefniadau a'r rheolaethau mewn lle yn sampl o draethau i liniaru ystod o risgiau yn y meysydd uchod.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer casglu a bancio incwm mewn rhai traethau, ond fod modd tynhau'r trefniadau mewn traethau eraill. Gwelwyd fod trefniadau mewn rhai meysydd iechyd a diogelwch yn dda yn y traethau, ond fod angen i'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig sicrhau fod adolygiadau o asesiadau risg a gwiriadau o gyfarpar diogelwch y traethau yn cael eu cwblhau'n amserol, a bod diffygion i gyfarpar diogelwch yn y traethau yn derbyn sylw yn amserol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn y traethau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu'r trefniant cysoni incwm dyddiol sy'n bodoli yn nhraeth Morfa Bychan yn nhraethau Abersoch a Machroes, gan amlygu i staff y traethau bod angen iddynt gysoni incwm yn ddyddiol.**
- **Dylid sicrhau fod ffurflenni TR34 a ffurflenni 'Datganiad Cysoni Arian' traethau yn cael eu cwblhau'n gyflawn yn y dyfodol, gyda'r ffurflenni 'Datganiad Cysoni Arian' yn cael eu harwyddo a'u dyddio gan y Cymorthyddion Traethau pan maent yn trosglwyddo incwm.**
- **Dylid sefydlu'r trefniadau dosbarthu tocynnau derbynebau lansio cwch pŵer a bad dŵr a welir yn nhraeth Morfa Bychan yn nhraeth Abersoch hefyd, er mwyn allu wahaniaethu'r incwm wrth ei gyfeirebu ar ffurflenni TR34 y traeth.**
- **Dylid atgoffa staff traethau o'r pwysigrwydd o nodi ar y derbynebau enw'r cwsmer a'r math o incwm sydd wedi cael ei dderbyn.**
- **Dylid sicrhau fod holl asesiadau risg yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn flynyddol, gyda'r blwch dyddiad asesu ar yr asesiadau risg yn cael ei gwblhau. Dylid cwblhau gwiriadau ar gyfarpar diogelwch y traethau yn unol â'r amserlen sydd wedi cael ei gosod gan y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig, gan gofnodi'r gwiriadau yma ar y 'Ffurflen Monitro Offer Diogelwch Arfordirol a Pharciau', sef pob pythefnos yn yr haf a pob mis yn y gaeaf.**
- **Dylid sicrhau fod unrhyw ddiffygion i gyfarpar diogelwch traethau yn derbyn sylw yn amserol yn y dyfodol.**

**DIOGELWCH SAFLEOEDD AILGYLCHU**
**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn nghanolfannau ailgylchu'r Cyngor yn ddigonol.

Cwmpas yr Archwiliad
Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau iechyd a diogelwch canolfannau ailgylchu'r Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod pob canolfan yn cwblhau asesiadau risg priodol, bod staff wedi eu hyfforddi yn briodol, bod trefniadau diogelwch tân digonol a bod trefn o ddiogelwch cyffredinol yn cael eu hyrwyddo yn y canolfannau.

Prif Ddarganfyddiadau
Mae swyddogion Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn cynnal archwiliadau mewnol amserol ar y canolfannau ailgylchu, sydd ymysg eraill yn cwmpasu'r trefniadau iechyd a diogelwch. Yn ogystal, mae'r canolfannau yn cael eu harchwilio yn allanol gan BSI yn erbyn safonau ISO 14001 a BS OHSAS 18001.

Wrth ystyried y trefniadau sydd eisoes mewn lle i archwilio trefniadau iechyd a diogelwch yng nghanolfannau ailgylchu'r Cyngor, yn hytrach nag ymweld a'r canolfannau er mwyn cynnal profion archwilio uniongyrchol, adolygwyd trefniadau archwilio'r Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol er mwyn rhoi sicrwydd fod y gwiriadau annibynnol yma ar y rheolaethau mewnol yn briodol.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddogion Iechyd a Diogelwch y Cyngor er mwyn trafod y cynllun a rhaglenni archwilio, yn ogystal â threfniadau rheoli risg a cofnodi darganfyddiadau.

Mae adroddiad BSI, dyddiedig 21/07/14, yn mynegi:
"The internal audit plan is in place and audits are being conducted generally in line with the schedule; it is planned to ensure each element of the standard is covered for each service annually (not necessarily each location)."

Wrth arolygu adroddiadau archwilio, mae BSI o'r farn eu bod yn: "demonstrated good trail evidence and have identified pertinent non-conformities."

Gan fod y trefniadau presennol yn cwrdd â gofynion BSI, nid oes argymhellion gan Archwilio Mewnol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau diogelwch safleoedd ailgylchu gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

**GWASANAETH CYNLLUNIO - PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**
**Rheoleiddio**

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r rheolaethau mewnol sydd yn bodoli ar gyfer gwasanaeth Rheolaeth Datblygu gan roi pwyslais penodol ar yr amser a gymerwyd i gytuno cais yn unol â phrosesau gwaith cyfredol.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio'r trefniadau o fewn y Gwasanaethau Cynllunio, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer derbyn a phrosesu ceisiadau cynllunio yn amserol. Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar geisiadau mawr yn unig sydd yn cynrychioli 1% o'r holl geisiadau derbyniwyd yn yr adran. Dewisiwyd sampl o 10 cais o'r fath i'w archwilio.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd rhai enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn Gwasanaeth Cynllunio sef y broses o dderbyn a dilysu cais, dewis a hysbysebu ymgynghorwyr. Fodd bynnag, gwelir bod angen gwell trefn ar fonitro ymatebion gan ymgynghorwyr a chofnodi bod eu hargymhellion wedi ei gyfathrebu i'r ymgeisydd lle'n berthnasol. Hefyd gwelir bod angen trefniadau mwy cadarn ar gyfer cofnodi trafodaeth cyngor cyn gwneud cais. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd bod y drefn yma yn y broses o gael ei ffurfioli a bydd trefn newydd mewn lle gan gynnwys ffi am y gwasanaeth erbyn Ebrill 2015.

Yn gyffredinol, wrth edrych drwy'r ffeiliau, er bod yna rhai rannau o'r broses angen ei dynhau, gwelir bod y Gwasanaeth yn ymateb fel y disgwylir ar y cyfan.

Gwelwyd mai ymgynghori, canlyniadau ymgynghoriaeth a'r angen i'r ymgeisydd ddarparu cynlluniau neu wybodaeth ychwanegol i gyfarch mater cynllunio penodol yw'r prif reswm am oediad mewn cytuno ceisiadau cynllunio yn y sampl o 10 ffeil. Gwelir hefyd bod trefnu Cytundeb Adran 106 yn ychwanegu yn sylweddol i'r nifer o ddyddiau i gyrraedd penderfyniad gan fod yr adran yn ddibynnol ar gyfreithwyr yr ymgeiswyr i'w gwblhau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y broses Penderfyniadau Cynllunio gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gohebiaeth i gadarnhau cyngor cyn gwneud cais yn cael ei anfon i'r ymgeisydd a chopi ohono wedi ei gadw er mwyn sicrhau nad oes yna gamddehongliad o'r cyngor a roddwyd a bod y ddogfennaeth yn gyson drwy gydol y cais.**
- **Dylid sicrhau bod yr ymgeisydd yn derbyn hysbyseb o unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd angen cyn gynted ag sydd bosib.**
- **Dylid ystyried creu system monitro ymatebion gan ymgynghorwyr allweddol i'r cais er mwyn sicrhau nad oes oediad ym mhenderfyniad y cais**
- **Dylid ystyried ychwanegu amserlen anfon adroddiad cyflwyno penderfyniad i'r siart llif i sicrhau cysondeb.**

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**
**Rheoleiddio**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau llywodraethu a cyllidebol priodol ynghlwm i redeg y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae’r archwiliad yn cwmpasu trefniadau penodi aelodau'r Pwyllgor a gwirio trefniadau llywodraethol, cyllidebol a gweinyddol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod Llywodraethu Corfforaethol dda yn bodoli gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, gwelir bod ambell enghraifft o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor yn y drefn archebu.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a’u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, hoffai’r archwiliwr gynnig yr argymhellion canlynol:**

- **Dylid sicrhau bod Polisi Cwyno wedi ei greu yn barod erbyn i’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei mabwysiadu.**
- **Dylid codi archeb am unrhyw waith neu wasanaeth allanol er mwyn cytuno pris a chofnodi’r gwasanaeth neu nwyddau disgwylir.**
- **Dylid sicrhau bod gwahaniaeth rhwng dyletswydd swyddog sy’n archebu nwyddau neu wasanaethau a’r swyddog sy’n ardystio anfoneb i’w dalu er mwyn cydymffurfio a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor rhan 20.15 i 20.33 “Archebu a Thalu am waith, nwyddau a gwasanaethau”.**

## RHAGLENNI AROLYGU HYLENDID BWYD, IECHYD A DIOGELWCH
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Derbyniwyd cais gan Pennaeth Rheoleiddio i edrych ar raglenni arolygu Bwyd, Iechyd a Diogelwch yn dilyn adroddiad allanol gan Asiantaeth Safonau Bwyd sydd wedi adnabod gwendidau sylweddol. Mae angen sicrhau bod trefniadau cadarn oddi fewn Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd er mwyn paratoi a chyflawni rhaglenni arolygu Bwyd, Iechyd a Diogelwch yn briodol ac yn unol â rheolau a safonau cenedlaethol a gofynion Asiantaeth Safonau Bwyd.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer paratoi, asesu, gweithredu a chofnodi'r canlyniadau o raglenni adolygu hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gan yr Adran i geisio sicrhau eu bod yn ymdrin â diffygion a nodwyd yn adroddiad archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Gwelir bod ymarfer da bellach wedi ei ddatblygu yn nifer o'r gweithdrefnau oddi fewn y gwasanaeth. Mae ffurflenni manwl Archwiliadau Bwyd newydd wedi cael eu cynhyrchu a'u treialu. Mae canllawiau newydd hefyd wedi cael eu datblygu ar gyfer y gwasanaeth sef y Nodiadau Gweithdrefn Bwyd. Roedd rhain mewn ffurf drafft ar adeg yr archwiliad gyda'r bwriad o dderbyn cymeradwyaeth a'u cyhoeddi yn derfynol mor fuan ag sydd bosib. Fodd bynnag, mae rhai materion yn codi sydd heb gael eu gweithredu gan y gwasanaeth. Gwelir bod gwendidau yn y system monitro fewnol ac mewn trefniadau dirprwyo pe bae swyddogion yn absennol o'r gwaith a dylid sicrhau bod y dogfennau perthnasol yn cael eu cyflwyno yn derfynol mor fuan ag sydd bosib.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond mae cynydd wedi ei wneud wrth ymdrin â'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cynllun gwasanaeth ar gyfer yr Uned Fwyd, sydd wedi adolygu perfformiad y flwyddyn flaenorol, yn cael ei gymeradwyo yn derfynol ar gyfer 2014/2015 gan swyddog awdurdodedig.**
- **Dylid sicrhau bod canllawiau cyfredol yn cael eu cymeradwyo yn derfynol fel mater o flaenoriaeth.**
- **Dylid cael trefniadau cadarn mewn lle i adolygu polisïau a chanllawiau yn rheolaidd e.e. yn flynyddol, a'u cymeradwyo gan berson awdurdodedig. Mae angen sicrhau fod unrhyw ganllawiau / polisïau sydd angen eu disodli, yn cael eu tynnu o'r swyddfeydd a'r cyfrifiadur fel nad yw swyddogion yn gweithredu â'r rhai sydd wedi dyddio.**
- **Mae angen sicrhau bod pob dogfen gyfredol yn cael ei gynnwys yn y ffeiliau ac yn cyrraedd disgwyliadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.**
- **Mae angen sicrhau bod monitro'r basdata yn cael ei gynnal yn gyson h.y. yn fisol gan swyddog awdurdodedig, a bod unrhyw anghysondeb / diffyg cywirdeb yn cael ei ddatrys ar unwaith.**
- **Dylid sicrhau bod y wybodaeth sydd ar y system FLARE yn cyd-fynd gyda gwybodaeth sydd yn y ffeiliau a'u bod yn gyfredol. Hefyd dylid ystyried dewis un system i gadw dogfennau i leihau y risg o ddyblygu gwaith.**

**COFRESTRAU RISG PROSIECTAU YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**
**Ymgynghoriaeth Gwynedd**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli risgiau prosiectau YGC yn briodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofrestrau risg prosiectau unigol, yn ogystal â gwirio trefniadau archwilio mewnol YGC o raglennu a chyflawni gwaith archwilio. Detholwyd sampl o 11 prosiect diweddar YGC oedd yn adlewyrchu trawstoriad o'r mathau gwahanol o waith mae'r Adran wedi bod yn cyflawni e.e. prosiectau bach a mawr, adeiladau, sifil a arfordirol.

Prif Ddarganfyddiadau

Anfonwyd e-bost at bob rheolwr prosiect (roedd 10 rheolwr prosiect gwahanol yn y sampl) yn gofyn am gofrestr risg y prosiectau a ddetholwyd. O'r ymatebion derbyniwyd, gwelwyd bod cryn gamddealltwriaeth ynglyn â beth yn union yw cofrestr risg, a bod diffyg ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng cofrestrau risg (sef cofrestr o risgiau penodol i lwyddiant y prosiect) ac asesiadau risg (cofrestr o risgiau iechyd a diogelwch). Dim ond un cofrestr risg a gyflwynwyd gan y rheolwyr prosiect i'r Archwiliwr tra bod y gweddill yn asesiadau risg (h.y. Iechyd a Diogelwch).

Nid yw'n angenrheidiol i bob prosiect gael cofrestr risg, yn enwedig y prosiectau llai, ond mae diffyg ymwybyddiaeth o beth yw cofrestr risg yn awgrymu nad yw'n rhywbeth sy'n cael sy'n ei gwneud yn gyffredinol o fewn YGC. Ni ddylid ychwaith baratoi cofrestr risg am fod hynny'n fandadol mewn dogfen bolisi ond am ei fod yn cael i weld fel arf defnyddiol i sicrhau llwyddiant prosiect. Ni ddisgwylir cofrestr risg ar gyfer pob prosiect, ond disgwylir un lle mae hynny'n gymesur â maint y prosiect.

Yn unol â gofynion ISO 9001:2008 mae swyddogion YGC yn cynnal archwiliadau mewnol amserol ar timoedd a systemau yr Adran. Yn ogystal mae YGC, gan gynnwys y trefniadau archwilio mewnol, yn cael eu harchwilio yn allanol gan BSI yn erbyn gofynion y safonau ISO 9001:2008, BS EN ISO 14001:2004 a BS OHSAS 18001:2007.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Cofrestrau Risg Prosiectau YGC gan nad yw'n ymddangos bod defnydd digonol o gofrestrau risg o fewn prosiectau unigol fel ffordd o sicrhau bod amcanion yn cael eu gwireddu. Mae *SOP-02 Project Management Standard Operating Procedure* yn cynnig peth elfen o reolaeth cydadfer ('compensating controls'), ond mae'r archwiliad o'r farn fod angen anogaeth gryfach i ystyried risgiau gweithredol o fewn prosiectau. Mae'r archwiliad yn cynnwys un argymhelliad:**

- **Dylai rheolwyr prosiect ystyried llunio cofrestr risg ar gyfer pob prosiect o faint penodol, sef dogfen sy'n adnabod y risgiau sydd ynghlwm i lwyddiant y prosiect, yn unol â pharagraff 3.1.6 o'r *SOP-02 Project Management Standard Operating Procedure*.**

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 RHAGFYR 2014** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2014/15** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2014/15.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2014/15 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 30 Tachwedd 2014 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 33 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 3 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 13 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Disgwyl Adolygiad | 7 |
| Adroddiad Drafft | 4 |
| Adroddiad Terfynol | 37 |
| Cyfanswm | 98 |
| | |
| Wedi ei ganslo | 3 |

2.2 Targed perfformiad 2014/15 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2015. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 15% |
| Diwedd chwarter 2 | 35% |
| Diwedd chwarter 3 | 60% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd Tachwedd oedd **37.8%** - allan o'r **98** archwiliad unigol yng nghynllun 2014/15 roedd **37** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

2.4 Er y bydd rhai adroddiad pellach wedi eu rhyddhau cyn diwedd mis Rhagfyr, nid oes disgwyl y bydd 22 archwiliad wedi ei ryddhau er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o gwblhau 59 allan o 98, sef 60%. Disgwylir y bydd y perfformiad felly yn parhau'n is na'r proffil a osodwyd.

2.5 Fel adroddwyd yn flaenorol, mae’r sefyllfa o dan adolygiad parhaus gan yr Uwch Reolwr a’r Arweinyddion Tîm, ac mae’r camau sydd angen eu cymryd er mwyn adfer y sefyllfa o lithriad ar gyfer archwiliadau unigol, a’r cynllun yn ei gyfanrwydd, yn derbyn sylw.

2.6 Er hyn, mae angen i’r Pwyllgor fod yn ymwybodol fod cwrdd â’r targed erbyn diwedd y flwyddyn yn ymddangos yn gynyddol heriol. Yn ychwanegol i hyn, mae cynllun arbedion effeithlonrwydd Archwilio Mewnol yn golygu na fydd cytundeb tri aelod o staff dros dro yn cael eu hadnewyddu ar ôl 31 Mawrth 2015. Fel y gellid ei ddisgwyl, mae’r unigolion hyn bellach yn chwilio am swyddi eraill, a os byddant yn llwyddiannus yn hynny o beth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, nid oes bwriad ail lenwi’r swydd. Mae un o’r tri archwiliwr hyn eisoes wedi gael am swydd arall y tu allan i’r Cyngor.

2.7 Mae hyn am gael effaith amlwg ar ein gallu i gwblhau cynllun 2014/15; bydd cynllun 2015/16 yn adlewyrchu’r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn honno.

**3. ADDASIADAU I’R CYNLLUN**

3.1 Rydym wedi derbyn cais i gynnal adolygiad o ***Grant Presenoldeb Ysgol y Consortia***. Rhagwelir y bydd modd cynnal yr adolygiad o fewn un diwrnod – bydd yr adnodd ar gyfer y gwaith yma yn dod wrth defnyddio un diwrnod oedd wedi ei neilltuo’n wreiddiol ar gyfer y ***Grant Amddifadedd Disgyblion***.

3.2 Yn ogystal, bydd yr adolygiad o’r gwaith o ddatblygu ysgol arbennig yn ardal Dwyfor Meirionnydd – sydd wedi ei nodi yn y cynllun fel ***Ysgol Newydd Hafod Lon*** – nawr yn digwydd yn 2015/16, oherwydd amserlen y datblygiad ac oherwydd i Archwilio Mewnol dderbyn cais i archwilio y ***Gronfa Degwm***.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2014/15, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2014/15

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-07/2015 | System Swyddi - diogelwch a chywirdeb | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **5.35** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-08/2015ffon | Ffonau Symudol | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **17.72** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-08/2015tech | Defnydd o dechnoleg - astudiaeth gwerth am arian | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **3.96** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2015hyff | Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **3.74** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-09/2015ol | Cynllun Olyniaeth a Chynllunio'r Gweithlu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **4.97** | Disgwyl Adolygiad |
| 1-CORFF-11/2015 | Trefniadau Diogelu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **12.03** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-12/2015 | Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.34** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-14/2015cof | Cofrestr Diogelwch Staff | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.07** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-14/2015unig | Iechyd a Diogelwch - Gweithio'n Unig | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.53** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-18/2015 | Adolygiad o Gymorth y Wladwriaeth | 6.00 | 0.00 | **6.00** | **3.68** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CPGV-01/2015a | Protocol ar Gyswllt Aelod - Swyddog | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **6.16** | Disgwyl Adolygiad |
| 1-CPGV-01/2015ags | Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.69** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2015f | Llywodraethu Corfforaethol - Gweithredu Penderfyniadau Pwyllgor | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.38** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CPGV-02/2015 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 40.00 | 0.00 | **40.00** | **4.97** | Wedi ei gynllunio |
| 2ADN-ADY-SAL/2015 | Trefniadau Salwch – cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.09** | Adroddiad Terfynol |
| AO-ARL-05/2015 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **26.73** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BB-YSG-10/2015 | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.85** | Adroddiad Terfynol |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2015tyw | Cynllun Tywydd Garw | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.15** | Adroddiad Terfynol |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2015gad | Grant Amddifadedd Disgyblion | 8.00 | -1.00 | **7.00** | **8.78** | Disgwyl Adolygiad |
| 4-DAT-X-ADD/2015ol16 | Grant Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.80** | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2015pres | Grant Presenoldeb Ysgol y Consortia | 0.00 | 1.00 | **1.00** | **0.07** | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2015syl | Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaenol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.55** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA02/2015 | TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 5.41 | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDA03/2015 | Cyfathrebu gydag Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 0.93 | Wedi ei gynllunio |
| EADDY-01/2015 | Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 2.53 | Wedi ei gynllunio |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA06/2015hlon | Ysgol newydd Hafod Lon | 15.00 | -15.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Arlwyo** | | | | | | |
| M-GMG-A04/2015 | Arlwyaeth Ysgolion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2015 | GwE | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDAYC/2015a | Ysgolion Cynradd - Modelu'r Gweithlu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 1.12 | Wedi ei gynllunio |
| EADDAYC/2015c | Ysgolion Uwchradd - Llywodraethu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 21.09 | Adroddiad Terfynol |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Archwilio a Risg** | | | | | | |
| AM-YS-03/2015 | Trefniadau Rheoli Risg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2015kc | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | 15.23 | Adroddiad Drafft |
| AE-TAL-01/2015kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | 10.09 | Wedi ei gynllunio |
| AE-TAL-01/2015kcx | System Taliadau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | 12.16 | Adroddiad Terfynol |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | | | | | |
| AN-ACY-05/2015 | Rheolaeth Trysorlys | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 16.01 | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-01/2015 | Taliadau CHAPS | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 10.88 | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-02/2015asd | Cofrestrau Asedion Sefydlog (Cerbydau) | 0.00 | 10.00 | **10.00** | 7.51 | Wedi ei gynllunio |
| AN-ACY-02/2015kc | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 15.07 | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2015kc | Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 7.49 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AN-ACY-13/2015kcx | Cysoni Banc - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 5.00 | **10.00** | 10.59 | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2015kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 7.96 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AL-CYF-01/2015kcx | System Gyflogau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | 6.18 | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AL-CYF-01/2015mj | Cyflogau - Swyddi Lluosog | 25.00 | 0.00 | **25.00** | 2.57 | Crewyd Papurau Gwaith |
| AP-PEN-01/2015kc | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | 9.11 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AP-PEN-01/2015kcx | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | 7.07 | Adroddiad Terfynol |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2015kc | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 0.95 | Wedi ei gynllunio |
| AB-BD-01/2015kcx | System Budd-daliadau - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | 5.00 | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2015ipo | System Treth Cyngor - iPortal | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 1.16 | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-01/2015kc | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | 6.28 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2015kcx | System Treth Cyngor - Cau i lawr 2013-14 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | 4.99 | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-11/2015kc | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | 7.05 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-11/2015kcx | System Treth Di-Annedd - Cau i lawr 2013-14 | 2.00 | 0.00 | **2.00** | 2.18 | Adroddiad Terfynol |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-08/2015 | TG - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 2.43 | Crewyd Papurau Gwaith |
| AW-TG-09/2015 | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | 20.00 | -15.00 | **5.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AW-TG-12/2015 | Systemau TG | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| BE-POL-10/2015pot | Cynllun Potensial | 25.00 | 0.00 | **25.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDZ-01/2015 | Cronfa Degwm | 0.00 | 15.00 | **15.00** | 9.20 | Disgwyl Adolygiad |
| T-TAI-C04/2015 | Cymunedau'n Gyntaf - Y Rhaglen Newydd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | 27.80 | Adroddiad Terfynol |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-03/2015 | Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 12.68 | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2015 | Canolfannau Hamdden | 30.00 | 0.00 | **30.00** | 44.16 | Adroddiad Terfynol |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-01/2015 | Yr Hafan, Pwllheli | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 9.15 | Gwaith Maes ar y gweill |
| EHAMT-01/2015 | Traethau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | 10.97 | Adroddiad Terfynol |
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| DDAT-AH-01/2015 | Academi Hwylio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | 0.54 | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Strategaeth a Datblygu** | | | | | | |
| 4-DAT-X-GRANT/2015h | Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Hyfforddi | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **6.69** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-GRANT/2015r | Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.70** | Adroddiad Terfynol |
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | | | | | |
| DDAT-BS-02/2015 | Unedau Diwydiannol a Thechnoleg | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **21.98** | Adroddiad Drafft |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| GTG-SYS01/2015 | System Gwybodaeth Gwasanaeth Cymdeithasol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2015 | Cefnogi Pobl | 15.00 | -15.00 | **0.00** | **0.74** | Wedi ei ganslo |
| **Cyswllt Cwsmer** | | | | | | |
| BD-PW-02/2015 | Galw Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **9.24** | Wedi ei gynllunio |
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | | | | | |
| T-TAI-D01/2015 | Digartrefedd | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **24.47** | Adroddiad Terfynol |
| T-TAI-G11/2015 | Tai Gofal Ychwanegol | 10.00 | -10.00 | **0.00** | **4.66** | Wedi ei ganslo |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GGWAS-C01/2015 | Cronfa Byw yn Annibynnol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **2.13** | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-H07/2015tel | Teleofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **5.29** | Wedi ei gynllunio |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART/2015c | Trefniadau sifft mewn Cartrefi Preswyl | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.18** | Disgwyl Adolygiad |
| 5-GOF-CART1333/2015 | Plas Maesincla, Caernarfon | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.85** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1339/2015 | Plas Ogwen, Bethesda | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **15.71** | Adroddiad Terfynol |
| GDAPR-H01/2015 | Asedau Preswylwyr Cartrefi | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **9.51** | Wedi ei gynllunio |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| 5-GOF-X-PL/2015ddg | Grant Refeniw Dechrau'n Deg | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.91** | Wedi ei gynllunio |
| 5-GOF-X-PL/2015tay | Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.95** | Adroddiad Terfynol |
| BE-POL-11/2015tyg | Grant Teuluoedd yn Gyntaf | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.67** | Adroddiad Drafft |
| GCC-05/2015 | Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **29.02** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GGWAS-P06/2015 | Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal | 16.00 | 0.00 | **16.00** | **15.37** | Cwblhawyd Gwaith Maes |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GGWAS-PLANT8/2015 | Plant mewn Gofal - asesiadau addysg ac iechyd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **21.36** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2015 | Depos a Gweithdai - Rheolaeth Stoc | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.14** | Wedi ei gynllunio |
| PPR-GW03/2015 | Rheolaeth Fflyd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **6.69** | Disgwyl Adolygiad |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | | | | | |
| M-GMG-C01/2015 | Meysydd Chwarae | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.90** | Adroddiad Terfynol |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-03/2015cyt | Cytundebau Gwaredu Gwastraff | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.84** | Adroddiad Terfynol |
| PBW-03/2015gr | Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 25.00 | -15.00 | **10.00** | **11.38** | Adroddiad Terfynol |
| PBW-10/2015saf | Diogelwch Safleoedd Ailgylchu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **6.97** | Adroddiad Terfynol |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | |
| 3-AMG-GWLAD/2015llw | Llwybrau Cyhoeddus a Lonydd Glas | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.89** | Adroddiad Terfynol |
| **Cynllunio** | | | | | | |
| BE-POL-19/2015 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.39** | Adroddiad Terfynol |
| DCYN-RD-01/2015pen | Gwasanaeth Cynllunio - Penderfyniadau Cynllunio | 10.00 | 15.00 | **25.00** | **31.14** | Adroddiad Terfynol |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2015bw | Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | 0.00 | 25.00 | **25.00** | **30.61** | Adroddiad Terfynol |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 3-AMG-FFYRDD/2015 | Gorchmynion Ffyrdd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.68** | Adroddiad Terfynol |
| 3-PROJ-TRAF/2015briw | Pont Briwet | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.66** | Disgwyl Adolygiad |
| DDAT-CC-01/2015 | Uned Trafnidiaeth Integredig | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **3.26** | Gwaith Maes ar y gweill |
| PPE-P-01/2015 | Gorfodaeth Parcio | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.71** | Wedi ei gynllunio |
| PPR-RS-03/2015 | Cydweithio - Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.82** | Adroddiad Drafft |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | | | | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| BE-POL-08/2015 | Strategaeth Caffael | 40.00 | 0.00 | **40.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2015 | Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **20.81** | Adroddiad Terfynol |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | | | | | |
| 3-YMG-CTRT/2015rr | Cofrestrau Risg Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.78** | Adroddiad Terfynol |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **18 RHAGFYR 2014** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2014, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle roedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

---

## 1. CEFNDIR

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn).

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2014-15 gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth, 2014, a gellir ei weld ar y we yn –

https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2013-14/Cyngor Llawn_Full Council/2014-03-06

Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys a'r monitro risg a rheolaeth risg cysylltiedig.

## 2. Y CYD-DESTUN ALLANOL

**Twf a chwyddiant:** Parhaodd y perfformiad cryf diweddar yn economi'r DU gyda twf 0.8% yn Ch1 2014 a 0.9% yn Ch2. Unwaith eto, bu twf cryf yn y sector gwasanaethau. Ar gefn twf cryf mewn treuliant, roedd buddsoddiad mewn busnes i'w weld yn adfer yn sydyn er ei fod o sylfaen isel. Ym mis Awst disgynnodd y gyfradd chwyddiant "CPI" i 1.5% y flwyddyn.

Mae adolygiadau i fethodoleg Cynnyrch Domestig Gros ("GDP"), sydd erbyn hyn yn cydymffurfio â System Gyfrifo Ewropeaidd 2010, yn golygu bod twf wedi'i amcanu i fod 2.7% yn uwch na'r lefel uchaf y bu cyn y dirwasgiad yn Ch1 o 2008, yn hytrach na dim ond 0.2% yn uwch. Y thema gyffredinol yw na fu'r dirwasgiad mor ddwfn a'r disgwyl ac roedd yr adferiad yn gynt na'r hyn a ragwelwyd. Gan ddisgwyl yr adolygiadau hyn, mae'r MPC wedi rhagamcanu'r twf i fod yn 3.4% yn ystod 2014.

**Diweithdra:** Parhaodd y farchnad lafur i wella gyda chyflogaeth yn cryfhau a'r brif gyfradd diweithdra yn gostwng i 6.2%. Fodd bynnag, roedd twf enillion yn parhau'n wan iawn, yn codi dim ond 0.6% yn y tri mis rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2014 o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Cafodd y twf mewn diweithdra ei guddio gan nifer fawr o gontractau dim oriau a gweithio rhan amser anwirfoddol.

**Polisi Ariannol y DU:** Ni wnaeth yr MPC unrhyw newid yn y Gyfradd Banc o 0.5% a chadwyd y pryniant asedau yn £375bn. Fodd bynnag, roedd symudiad sylweddol mewn tôn gan Lywodraethwr Banc Lloegr ac aelodau eraill yr MPC. Yn ei araith yn y Mansion House ym mis Mehefin, rhybuddiodd y Llywodraethwr, Mark Carney, y gallai cyfraddau llog godi'n gynt nag y disgwyliai'r marchnadoedd ariannol. Yn dilyn rhai negeseuon cymysg gan y Llywodraethwr Carney, yn ddiweddarach yn yr haf, dangosodd cofnodion cyfarfodydd mis Awst a mis Medi yr MPC fod y bleidlais yn rhanedig o ran y Gyfradd Banc. Pleidleisiodd Ian McCafferty a Martin Weale i gynyddu'r Gyfradd Banc o 0.25%, gan ddadlau bod yr amgylchiadau economaidd yn ddigonol i gyfiawnhau cynnydd ar unwaith. Pwysleisiodd yr MPC pan fyddai'r Gyfradd Banc yn dechrau cynyddu, disgwylid iddi wneud hynny'n raddol a byddai'n debygol o aros yn is na'r lefelau cyfartalog hanesyddol am beth amser i ddod.

Yn Adroddiad Chwyddiant mis Awst Banc Lloegr, roedd rhagolygon twf y Banc oddeutu 3.5% yn 2014, gan leihau'n araf wedi hynny i'r gyfradd gyfartalog hanesyddol oedd yn bodoli cyn yr argyfwng. Roedd y rhagolygon ar gyfer chwyddiant yn golygu y byddai yn parhau yn 2%, neu ychydig yn is, cyn cyrraedd y targed ar ddiwedd y cyfnod rhagolwg o ddwy flynedd.

Yn ogystal, cyhoeddodd Pwyllgor Polisi Ariannol y Banc ystod o fesurau er mwyn 'oeri' marchnad dai'r Du i rwystro'r posibilrwydd o brisiau tai yn codi mor sydyn nes tarfu ar adferiad ariannol cynaliadwy. Roedd yr argymhellion allweddol yn cynnwys benthycwyr yn profi gwytnwch ymgeiswyr morgeisi yn erbyn y straen o ymdopi â chynnydd o 3% yn y cyfraddau llog; rhoi terfyn o 15% ar y nifer o forgeisi sy'n fwy na 4.5 gwaith incwm y benthyciwr; ac addewid ar wahân gan y Trysorlys yn gwahardd unrhyw un rhag gwneud cais am fenthyciad drwy'r cynllun Hawl i Brynu i fenthyca mwy na 4.5 gwaith eu hincwm. Yn ogystal, cyhoeddodd yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ei fod yn bwriadu ymgynghori ar y gofynion cyfalaf ar gyfer morgeisi.

Parhaodd chwyddiant yn Ardal yr Euro i ddisgyn tuag at ddim (cofrestrwyd chwyddiant HICP yn ddim ond 0.3% ym mis Medi), ac roedd tystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod yr adferiad gwantan yn edwino. Parhaodd y gyfradd diweithdra yr un mor uchel ar 11.5%. Gostyngodd Banc Canolog Ewrop (ECB) ei gyfradd llog meincnod swyddogol o 0.15% i 0.05%. Cafodd y cyfraddau a delir ganddo ar y balansau banc masnachol hefyd eu torri ymhellach i'r negyddol o -0.1% i -0.2% a chafodd y gyfradd Cyfleuster Benthyca Ymylol ei thorri ymhellach i 0.3%. Yn ogystal, cyhoeddodd yr ECB raglen o gael asedau ag iddynt risg isel (ABS) gan fanciau mewn ymdrech i annog benthyg ac edrychwyd ar hyn fel un cam i ffwrdd oddi wrth ryddhau arian i'r economi (*Quantitative Easing*) a fabwysiadwyd gan fanciau canolog yr UD, y DU a Japan. Roedd cofnodion cyfarfod MPC Banc Lloegr ym mis Medi yn nodi bod "*weakness in the euro area had been the most significant development during the month"* a phe byddai unwaith eto yn arwain at ansicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd dyledion cyhoeddus ac allanol yn ardal yr ewro, yna gallai niweidio hyder ac amharu ar farchnadoedd ariannol.

Ni fu newid yng Nghronfa Ffederal yr UD gan i'r banc canolog gadw'r polisi ar ei lwybr presennol gyda lleihad yn yr asedau a brynwyd o $10 biliwn y mis. Disgwylir y bydd diwedd ar brynu asedau pellach erbyn mis Hydref 2014, a bydd disgwyliadau'n symud tuag at amseru'r cynnydd yn y gyfradd. Adferodd economi'r UD yn gryf yn Ch2 gyda thwf blynyddol o 4.6%.

**Ymateb y Farchnad:** Mae'r enillion gilt wedi parhau i ostwng a chyrraedd isafbwynt yn y flwyddyn ariannol ar ddiwedd mis Awst cyn dangos cynnydd at i fyny o flaen Refferendwm yr Alban. Yr hyn sydd wedi gyrru enillion yn is yw cyfuniad o ffactorau ond y prif yrwyr fu'r perygl daear-wleidyddol yn y Dwyrain Canol a'r Wcráin ochr yn ochr â'r duedd am ddadchwyddiant yn Ardal yr Ewro.

### Y Cyd-destun Lleol

Ar 31/3/2014, mesurwyd angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf fel caiff ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR) yn £173.3m, tra roedd y cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio, sef yr adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi, yn £68m.

Ar 31/3/14, roedd gan y Cyngor £114.9m o fenthyciadau a £27.1m o fuddsoddiadau. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir yn fenthyca mewnol.

### Y Strategaeth Fenthyca

Ar 30/9/2014, roedd gan y Cyngor £111.3m o fenthyciadau (lleihad o £0.9m ers 31/3/2014), fel rhan o'i strategaeth i ariannu'r rhaglenni cyfalaf y flwyddyn flaenorol.

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd priodol o risg isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian gyda hyblygrwydd o ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid yr ail amcan.

Erys fforddiadwyedd a'r "*gost cario"* yn ddylanwadau pwysig ar strategaeth fenthyca'r Cyngor yn ogystal â'r ystyriaeth, o ran unrhyw fenthyca a wnaed cyn bod angen yr arian, y byddai'n rhaid buddsoddi'r elw yn y marchnadoedd arian ar raddfa llog gymharol is na chost y benthyciad. Gan fod llog tymor byr wedi aros yn is na'r cyfraddau tymor hir, ac yn debygol o aros yn is dros o leiaf y ddwy flynedd i ddod, mae'n fwy cost effeithiol yn y tymor byr i ddefnyddio adnoddau mewnol yn lle benthyg.

Cafodd y buddion o fenthyca mewnol eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw.

**Gweithgareddau Benthyca 2014/15**

| | **Balans ar 01/04/2014 £'000** | **Dyled yn aedd-feddu £'000** | **Benthyca newydd £'000** | **Balans ar 30/09/2013 £'000** | **Cyfradd Gyfartal % a Bywyd Cyfartal (bl)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf ("CFR") | 173,309 | | | | |
| Benthyca Tymor Byr[1] | 1,155 | (1,174) | 45 | 26 | 0.00 |
| Benthyca Tymor Hir | 111,027 | 0 | 268 | 111,295 | 5.78 |
| **CYFANSWM BENTHYCA** | **112,182** | **(1,174)** | **312** | **111,321** | 5.78 |
| Ymrwymiadau Eraill Tymor Hir | 2,484 | | | 2,484 | 6.17 |
| **CYFANSWM DYLED ALLANOL** | **114,667** | **(1,174)** | **312** | **113,805** | 5.79 |
| Cynnydd/ (Gostwng) mewn Benthyca £'000 | | | | (862) | |

**Diweddariad ar y Gyfradd Sicrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB):** Roedd y Cyngor yn gymwys i fenthyca ar y 'Raddfa Sicrwydd' (0.20% islaw cyfradd safonol PWLB), am gyfnod o 12 mis o 01/11/2013. Ym mis Awst, cyflwynodd y Cyngor ei gais i Lywodraeth Cymru ynghyd ag Amcangyfrifon Cyfalaf 2014/15 er mwyn iddo gael mynediad at y raddfa ostyngedig hon am 12 mis arall, o 1 Tachwedd 2014.

**LOBOs:** Mae'r Cyngor yn dal £16.2m fel benthyciadau LOBO (*Lender's Option Borrower's Option*) lle mae gan y sawl sy'n rhoi'r benthyciad y dewis i gynnig cynnydd yn y gyfradd llog ar ddyddiadau penodedig, a byddai gan y Cyngor wedyn y dewis o un ai derbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r ddyled heb unrhyw gost ychwanegol. Y dyddiad nesaf a sefydlwyd yw yn 2018.

**Aildrefnu Dyledion:** Arhosodd y taliad premiwm ar gyfer ad-daliad cynnar o ddyled PWLB yn gymharol ddrud am fenthyciadau ym mhortffolio'r Cyngor ac felly nid oedd aildrefnu dyledion yn ddeniadol. O ganlyniad, ni fu unrhyw weithgarwch aildrefnu.

[1] Benthyciada gyda aeddfeddrywd llai na flwyddyn.

Mae newidiadau yn y portffolio dyledion dros y chwarter wedi llwyddo i leihau'r lefel o fenthyciadau, ynghyd â lleihau'r risg credyd, drwy ad-dalu'r benthyciadau o'r balansau buddsoddi.

### Gweithgarwch Buddsoddi

Mae'r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant, ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn.

Mae'r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

### Gweithgareddau Buddsoddi yn 2014/15

| Buddsoddiadau | Balans ar 01/04/14 £'000 | Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Buddsoddiadau a ad-dalwyd £'000 | Balans ar 30/09/14 £'000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Byrdymor (cyfrifon alw, adneuon) Banciau a Chymdeithasau Adeiladu gyda credyd raddio A- neu uwch | 47,825 | 144,405 | (136,630) | 55,600 | 0.70 |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi eu cyfuno | 0 | 41,781 | (33,426) | 8,355 | 0.44 |
| Bond Gorchuddiedig | 0 | 1,000 | 0 | 1,000 | 2.09 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **47,825** | **187,186** | **(170,056)** | **64,955** | |
| Cynnydd mewn Buddsoddiadau £m | | | | 17,130 | |

Diogelwch y cyfalaf sy'n parhau'n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartïon y Cyngor, sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2014/15.

Aseswyd ansawdd credyd y gwrthbartion a'i fonitro drwy gyfeirio at y statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a benwyd gan y Cyngor oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's); prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol.

**Risg Credyd**

Crynhoir isod ansawdd credyd y gwrthbartïon fel y'u mesurwyd trwy sgôr credyd:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd |
|---|---|---|---|---|
| **31/03/2014** | 5.69 | A | 5.80 | A |
| **30/06/2014** | 5.19 | A+ | 5.12 | A+ |
| **30/09/2014** | 5.01 | A+ | 3.21 | AA |

*Sgorio:*
*- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.*
*- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 26*
*Y nod = A- neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 7 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.*

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuon cyfnod cyfradd sefydlog a thystysgrifau adneuon, cronfeydd marchnad wedi'u cyfuno, a Bond Gorchuddiedig.

**Diweddariad Gwrthbartïon**

Cymeradwyodd Senedd Ewrop yr *EU Bank Recovery and Resolution Directive (BRRD*) ar 15 Ebrill, 2014. Cymerwyd i ystyriaeth y posibilrwydd y byddai'r gefnogaeth arbennig gan y llywodraeth i ddalwyr bondiau ansicredig uwch yn debygol o leihau o fewn y cyfnod graddio o ddwy flynedd ar gyfer endidau gradd buddsoddi, ac ym mis Ebrill adolygodd Standard & Poor's y Rhagolygon ar gyfer Barclays, Deutche Bank, Credit Suisse ac ING Bank o fod yn Sefydlog i fod yn Negyddol (noder nad yw hyn yr un fath ag adolygiad graddio negyddol). Ym mis Mai newidiodd Moody's y rhagolygon hefyd ar gyfer 82 o fanciau Ewropeaidd o sefydlog i negydol ac ar gyfer dau fanc Ewropeaidd fe'i newidiodd o bositif i sefydlog. Y sefydliadau ar restr fenthyca'r Cyngor a gafodd eu heffeithio yw Nationwide Building Society, Pohjola Bank, Svenska Handelsbanken, Landesbank Hessen-Thuringen, Bank Nederlandse Gemeenten a Nordea Bank.

Ym mis Awst, newidiodd Moody's ei ragolygon ar gyfer system fancio'r DU o sefydlog i negyddol, gan nodi'r lleihad yng nghefnogaeth y llywodraeth i fanciau systemig fel y rheswm. Er fod yr asiantaeth yn teimlo bod cryfder ariannol sefydliadau'r DU sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yn gwella, roeddent yn credu y gellir gosod hyn yn erbyn y posibilrwydd o risg '*bail-in'* sydd erbyn hyn yn wynebu buddsoddwyr. Yn yr un modd, ym mis Awst, adolygodd S & P ei ragolygon ar gyfer banciau mawr Canada i'r negyddol yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth am y posibilrwydd o fframwaith polisi '*bail-in'*.

Roedd posibilrwydd cryf y byddai'r DU, ochr yn ochr â'r Almaen ac Awstria yn cyflymu mabwysiadu'r BRRD ac y byddai'r datrysiad '*bail-in'* yn cael ei weithredu ar fyrder yn y gwledydd hyn ar 1 Ionawr 2015, flwyddyn gyfan o flaen gwledydd eraill yr UE.

Yn ystod yr hydref eleni roedd banciau'r DU a'r UE yn wynebu profion straen, a gallai hyn arwain at orfodi rhai sefydliadau i gryfhau eu byfferau cyfalaf. Mae graddau'r gofynion hyn, a'u ffurf, yn peri ansicrwydd am y gofynion cyfalaf o fewn y system.

**Cyllidebu Incwm ac Alldro**

Roedd y balansau arian cyfartalog yn ystod y cyfnod yn £65.7m. Cadwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Arhosodd cyfraddau marchnad arian byr dymor ar lefelau gweddol isel. Gwnaed adneuon newydd ar gyfradd cyfartalog o 0.85%. Cynhyrchodd buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian gyfraddau cyfartalog o 0.44%.

Amcangyfrifwyd byddai incwm buddsoddi'r Cyngor yng nghyllideb eleni yn £0.3m. Rydym yn rhagweld alldro buddsoddi o £0.35m ar gyfer y flwyddyn gyfan.

**Diweddariad ar Fuddsoddiad Banciau Gwlad yr Iâ**

Bellach, mae'r Cyngor wedi adennill 94% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable. Mae'n debygol y bydd dosraniadau pellach yn cael eu derbyn er nad yw'r gweinyddwyr wedi gwneud amcangyfrif swyddogol o'r adenillion terfynol eto.

Cyhoeddodd CIPFA arweiniad pellach ar y dull o gyfrif y trafodion hyn ym mis Medi 2013 pan gyhoeddwyd LAAP 82 (diweddariad 8). Nid oes gan CIPFA gynlluniau i gyhoeddi unrhyw ddiweddariadau ychwanegol.

**Cydymffurfio â Dangosyddion Darbodus**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'i Ddangosyddion Darbodus am 2014/15, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2014 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

**Risg Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cywngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Gwir | 100% | | |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |
| Gwir | 0% | | |

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Upper | Lower | Actual |
|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% | 0.19% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 1.78% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 18.58% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 5.75% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% | 35.28% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% | 13.88% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% | 0% |
| 40 mlynedd a mwy | 100% | 0% | 24.55% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £30m | £20m | £10m |
| Gwir | £1m | £1m | £1m |

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | Target | Actual |
|---|---|---|
| Sgor credyd cyfartal y portffolio | 6.0 | 4.06 |

**Hyfforddiant Buddsoddi**

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

## Rhagolygon Ch3 a Ch4 2014/15

Mae’r twf economaidd cryfach a welwyd yn y DU dros y chwe mis diwethaf yn debygol o ddefnyddio capasiti wrth gefn yn llawer cynt na’r hyn a ragdybiwyd. Mae Arlingclose wedi symud amseriad y cynnydd cyntaf yn y Gyfradd Banc ymlaen i Ch 3, 2015.

Wedi i ddau aelod o'r MPC bleidleisio am gynnydd yn y gyfradd llog ym mis Awst ac ym Medi, mae rhethreg aelodau'r Pwyllgor yn gyffredinol wedi mynd yn fwy heboglyd. Fodd bynnag, mae Arlingclose yn disgwyl i’r diffyg mewn pwysedd chwyddiant ganiatáu i’r rhai sy’n gosod polisïau ohirio tynhau ariannol am yn hirach na’r mae’r farchnad yn ei ddisgwyl. Y risg tymor agos yw y gallai’r Gyfradd Banc gynyddu yn gynt na’r disgwyl, sydd wedi’i ddangos yn yr ystod o ‘upside risk’ yn nhabl rhagolygon Arlingclose isod.

Canolbwyntir nawr ar gyfradd y cynnydd a’r brig tymor canolig. Disgwyliadau Arlingclose yw y bydd y cyfraddau’n cynyddu’n araf ac at lefel llawer is na’r hyn yr oeddynt yn y gorffennol.

| | Dec-13 | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |
| Arlingclose Centra | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Downside risk | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |

**Atodiad A**

## Dangosyddion Darbodus 2014/15

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Cynghorau Lleol (y Cod Darbodus) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf a cynghorau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod y Cyngor wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

**Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf:** Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Cyngor fel a gynlluniwyd fel hyn:

| Gwariant Cyfalaf a Chyllido | 2013/14 Gwir £m | 2014/15 Amcangyfrif £m | 2015/16 Amcangyfrif £m | 2016/17 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **45.0** | **45.0** | **32.4** | **14.6** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1.4 | 2.1 | 1.2 | 0 |
| Grantiau Llywodraeth | 22.4 | 21.4 | 12.7 | 8.4 |
| Cronfeydd | 5.6 | 6.5 | 4.9 | 1.3 |
| Refeniw | 4.9 | 3.3 | 2.5 | 0 |
| Benthyca | 10.7 | 11.7 | 11.1 | 4.9 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **45.0** | **45.0** | **32.4** | **14.6** |

**Amcangyfrif Gofyn Cyllido Cyfalaf:** Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 31/03/14 Gwir £m | 31/03/15 Amcangyfrif £m | 31/03/16 Amcangyfrif £m | 31/03/17 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | **173.3** | **177.7** | **181.4** | **178.9** |

Rhagwelir y bydd y CFR yn cynyddu o £5.6m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled gynyddu'n uwch na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf:** Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| Dyled | 31/03/14<br>Gwir<br>£m | 30/09/14<br>Gwir<br>£m | 31/03/15<br>Amcangyfrif<br>£m | 31/03/16<br>Amcangyfrif<br>£m | 31/03/17<br>Amcangyfrif<br>£m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 112.4 | 111.3 | 111.3 | 131.3 | 129.5 |
| Lesau Cyllidol | 2.5 | 2.5 | 2.3 | 2.2 | 2.1 |
| **Cyfanswm Dyled** | **114.9** | **113.8** | **113.6** | **133.5** | **131.6** |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

Mae gwir lefelau'r ddyled yn cael ei fonitro yn erbyn y Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol isod.

**Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol:** Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif y Cyngor o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib.

| Ffin Weithredol | 2013/14<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 | 2015/16<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 175,000 | 175,000 | 175,000 | 175,000 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyled** | **175,000** | **175,000** | **175,000** | **175,000** |

**Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol:** Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all y Cyngor fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| Terfyn Awdurdodedig | 2013/14<br>£'000 | 2014/15<br>£'000 | 2015/16<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 195,000 | 195,000 | 195,000 | 195,000 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyled** | **195,000** | **195,000** | **195,000** | **195,000** |

**Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net:** Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

| Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net | 2013/14<br>Gwir<br>% | 2013/14<br>Amcangyfrif<br>% | 2014/15<br>Amcangyfrif<br>% | 2015/16<br>Amcangyfrif<br>% |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 4.86 | 5.34 | 5.59 | 5.78 |

**Effaith Ychwanegol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddi Cyfalaf:** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb refeniw y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol a'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf | 2014/15 Amcangyfrif £ | 2015/16 Amcangyfrif £ | 2016/17 Amcangyfrif £ |
|---|---|---|---|
| Cronfa Cyffredinol- Cynnydd ym Mand D y Dreth Gyngor | 0 | 0 | 0 |

**Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA:** Ym mis Mawrth 2011, fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu *Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* (*Rhifyn 2011*) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth.